ECO'R WYDDFA

RHIF 290 MEHEFIN 2002 PRIS 40c

Cynhelir Cyfarfod Blynyddol
ECO'R WYDDFA
yn y Sefydliad Coffa Llanrug
Nos Fawrth, Mehefin 11ed am 7.30 o'r gloch. Taer erfynnir am eich cefnogaeth.

Coron Môn i Fro'r Eco

Cynhaliwyd Eisteddfod Môn 2001-2003 yn Llannerchymedd dros benwythnos Mai 17 ac 18. Yr oedd y Babell enfawr dan ei sang pan gyhoeddodd yr Archdderwydd Machraeth mai enillydd y Goron oedd 'Llanc', sef Eurgain Haf, Sycharth, ond sydd bellach wedi ymgartrefu yn Treganna, Caerdydd ac sy'n gweithio i'r Sianel Gymraeg, S4C.

Dyma'r ail goron hardd i Eurgain ei hennill gan iddi gipio Coron Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Dolgellau ychydig flynyddoedd yn ôl.

Cynigiwyd y Goron am gyfrol o waith gwreiddiol neu gasgliad o dri darn o waith mewn ffurfiau amrywiol.

Roedd 6 wedi cystadlu ac, yn ôl y beirniad, Y Prif Lenor Eirug Wyn, Y Groeslon, gallasai fod wedi medru coroni 3. 'Ond, wedi darllen y darn cyntaf,' meddai'r beirniad, 'fe wyddwn i fod "Llanc" ymhlith y rhai oedd ar frig y gystadleuaeth. Dyma lenor â'i ddychymyg yn drên. Ac mae'r dweud yn gaboledig.' Ac meddai ymhellach, 'Pan roddir marc llawn ac Dalwrn y Beirdd, fe fydd y Meuryn yn sôn am ddarn sy'n ysgogi'r "O-o-o-o" wrth ei ddarllen.' A'r ffactor 'O-o-o-o' a lywiodd benderfyniad y beirniad ac, o ail ddarllen y gwethiau, yr un a roddodd y pleser hwnnw oedd 'Llanc'.

Gwerthfawrogir beirniadaeth adeiladol Eirug Wyn gan Eurgain a diolchir iddo am ei ganmoliaeth a'i annogaeth i gario 'mlaen.

Ai Un o Gychod Llywelyn Fawr a Godwyd o Waelod Llyn Peris?

Yr wythnos hon bydd archaeolegwyr morol yn ystyried yr union gwestiwn hwn mewn arddangosfa bwysig yn olrhain hanes dyfrffyrdd Llanberis yn *Y Mynydd Gwefru, Llanberis*.

Wrth adeiladu Gorsaf Trydan Dŵr Dinorwig canfuwyd tri cwch hynafol yng ngwaelod Llynnoedd Peris a Phadarn. Adroddir yr hanes yn yr arddangosfa, a agorir ar Ddydd Iau 23 Mai, gan Anna Southhall, Cyfarwyddwr Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru.

Gwelir dau o'r cychod yn Arddangosfa'r Mynydd Gwefru. Y symlaf ohonynt sy'n creu'r cyffro mwyaf ymhlith hanseswyr – cwch pren wedi ei gerfio allan o un boncyff coeden. Yn ôl yr arbenigwyr gwyddonol, mae'r cwch hwn yn dyddio o'r cyfnod **1187-1205 ÔL CRIST** – cyfnod sy'n cydfynd â theyrnasiad **Llywelyn Fawr.** Cred archeolegwyr y gall fod i'r cwch (a alwyd yn **Gwch Boncyff Llyn Peris**) ran bwysig yn y gwaith o helpu Llywelyn i gadw rheolaeth gadarn dros y dyfrffyrdd a ddefnyddid i deithio rhwng Caernarfon a Dyffryn Conwy.

Cafwyd hyd i'r cwch boncyff ger Castell Dolbadarn, castell y credir iddo gael ei godi gan Lywelyn tua 1200 OC. Byddid wedi defnyddio'r cwch i gludo pobl a nwyddau. Ni all neb ddweud i sicrwydd i'r cwch gael ei ddefnyddio gan Lywelyn ei hun, ond mae'r ffaith iddo gael ei ganfod mor agos i'r Castell, tystiolaeth dyddio radio-carbon a thystiolaeth cylchoedd tyfiant

(Parhad ar dudalen 3)

ECO'R WYDDFA

RHIF 290
MEHEFIN

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd Cibyn, Caernarfon

Cydnabyddir cefnogaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg i'r cyhoeddiad hwn.

SWYDDOGION A GOHEBWYR

Golygyddol:

IWAN ROBERTS
LLEIFIOR, LLANRUG
Ffôn: (01286) 675649

Cadeirydd Pwyllgor Llywio:
ARWEL JONES
CAE EBONI, PENISARWAUN
Ffôn: (01286) 871274

E-bost: ecorwyddfa@AOL.com

GOLYGYDD CHWARAEON
Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel. (01248) 670115

DYDDIADUR Y MIS

FFOTOGRAFFWR
Gwyndaf Hughes, Glasgoed, Llanrug (677263)

TREFNYDD HYSBYSEBION
John Roberts, Bedw Gwynion, Ffordd Glanffynnon, Llanrug (675605)

TREFNYDD BWNDELU
Jean Jones, Cesail y Mynydd, Deiniolen (871550)

TRERFNYDD ARIANNOL
Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST
Mrs Olwen Llywelyn, Pant Afon Bach, Llanrug (650200)

TREFNYDD PLYGU
Shioned Griffith (650570)

GOHEBWYR PENTREFI

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran (01248) 670726
BRYNREFAIL: Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed (870580)
CAEATHRO: Clive James, Hafan, Bryn Gwna (677438)
CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen, Bodafon, Ceunant (650788)
CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands, Glanrafon (872275)
DEINIOLEN: W. O. Williams, 6 Rhydfadog, Deiniolen (871259)
DINORWIG: Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)
LLANBERIS: Gwyneth ac Eifion Roberts, Becws Eryri (870491)
LLANRUG: Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn (675384)
NANT PERIS: Llinos Jones, 6 Nant Ffynnon (871820)
PENISARWAUN: Mrs Ann Evans, Sycharth (872407)
TAN-Y-COED: Miss Anwen Parry, Ael-y-Bryn (872276)
WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts, Pantafon, Waunfawr (650570)

Y RHIFYN NESAF
Deunydd i law'r golygyddion perthnasol
NOS LUN, MEHEFIN 17
Os gwelwch yn dda
Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg
NOS IAU, MEHEFIN 27

DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO

Trefnydd Plygu: Mrs Shioned Griffith, Pantafon, Waunfawr. (01286) 650570

Rhifyn	Dyddiad Copi	Dyddiad Plygu	Ble	Cysylltu a
Gorffennaf	Mehefin 17	Mehefin 27	Bethel	Mr Geraint Elis
Awst				
Medi	Awst 19	Awst 29	Dinorwig	Miss Marian Jones
Hydref	Medi 16	Medi 26	Penisarwaun	Mrs Ann Evans
Tachwedd	Hydref 21	Hydref 31	Llanberis	Mr Gwilym Evans
Rhagfyr	Tachwedd18	Tachwedd 28	Caeathro	Mr Clive James

Llythyrau

Annwyl Olygydd,

Tybed a oes, ymhlith eich darllenwyr, rywrai a fu'n ddisgyblion yn hen Ysgol Gynradd Dinas Mawddwy? Caewyd yr ysgol hon ym 1953 ac mae criw o'r hen ddisgyblion yn trefnu aduniad yng Ngwesty Fronolau, Tabor, Dolgellau ar ddydd Sadwrn, 5 Hydref 2002 rhwng 2.00 a 5.00 y prynhawn. Bydd lluniaeth ar gael am bris rhesymol.

Os oes gan unrhyw un ddiddordeb mewn ymuno yn yr hwyl, a fuasech cystal â chysylltu ag un o'r ddwy a enwir isod, drwy lythyr neu ar y ffôn. Hoffem pe gallech wneud hyn mor fuan ag y bo modd fel y gellir bwrw 'mlaen â'r trefniadau.

Eiddwen Roberts
Bryn Hyfryd, West Twthil
Caernarfon LL55 1PE
(01286) 674645

Elisabeth Wyn
Rhosnant, Glanceulan
Penrhyncoch,
Aberystwyth SY23 3HF
(01970) 820161

Cymdeithas yr Iaith Gymraeg
Pen Roc
Rhodfa'r Môr
Aberystwyth

Annwyl Gyfeillion,

Am 2 o'r gloch ar ddydd Sadwrn, 22 Mehefin bydd Cymdeithas yr Iaith Gymraeg yn cynnal protest 'Nid yw Cymru ar Werth!' ar y Maes yng Nghaernarfon.

Dros y flwyddyn ddiwethaf mae llawer o bobl wedi mynegi pryder ynglŷn â dyfodol ein cymunedau Cymraeg. Am hynny bu i Gymdeithas yr Iaith Gymraeg gynnal cyfnod o arolwg polisi ac mae ganddi bellach gyfres o atebion pendant:

- Cymorth prynu – angen pres
- Hawl i rentu cartrefi
- Cynllunio dyfodol i'r iaith

Dyma gamau y gall y Cynulliad eu cymryd yn awr a fyddai yn gyfraniad cadarnhaol i sicrhau dyfodol i'n cymunedau Cymraeg. Ar ben hynny dylai wneud ymdrech fawr i fynnu Deddf Eiddo gan Lundain.

Wrth gwrs, ni fydd y gwleidyddion yn cymryd y camau hyn heb i ni godi llais. Am hynny galwn arnoch i ddod i Gaernarfon ar 22 Mehefin. Dewch i ymuno yn yr orymdaith drwy strydoedd y dre, gan fynnu dyfodol i'n cymunedau. Bydd pob cefnogaeth yn gwneud gwahaniaeth.

Un diwrnod – un ymdrech!

Yn gywir
Manon Wyn
Ymgyrch Cymunedau Rhydd
Cymdeithas yr Iaith Gymraeg

Noson Ddifyr i'ch Cymdeithas

Trefnu rhaglen y tymor nesaf ydi gwaith nifer o glybiau a chymdeithasau lleol ar y funud, ac edrych am siaradwyr newydd i drafod pynciau diddorol a gwreiddiol.

Ffurfiwyd Gwynedd Gynaladwy yn arbennig er mwyn codi ymwybyddiaeth ymysg grwpiau a chymdeithasau lleol am gynaladwyedd, sut y gallwn wella a gwarchod ein amgylchedd a'n cymunedau ar gyfer y dyfodol.

Bydd y sesiynnau yn canolbwyntio ar bethau ymarferol a hawdd y gall pawb eu gwneud, yn ogystal â chael pobl i gyfrannu a datblygu syniadau eu hunain.

Mae'r mudiad wedi cyflogi Jane Evans, gwraig fferm o Gricieth, fel Swyddog Datblygu, ac un o'i phrif ddyletswyddau yw mynd o amgylch grwpiau gwirfoddol yng Ngwynedd i gyflwyno ei gwaith ac amcanion y mudiad. Ariannir y swydd gan Gyngor Gwynedd, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri a Mantell Gwynedd, felly mae'r sgyrsiau i grwpiau a mudiadau gwirfoddol yn rhad ac am ddim.

Am fwy o fanylion neu i drefnu dyddiad cysylltwch â Jane Evans, Gwynedd Gynaladwy ar (01766) 512300/523425.



Brian a Rita Henderson
SIOP Y PENTREF
WAUNFAWR
Ffôn: **650589**

- Holl docynnau'r Loteri Genedlaethol
- Cyflenwyr bwyd anifeiliaid – 'bulk' a rhydd – y rhataf yn lleol!
- Nwyddau groser, alcohol, cardiau MANWEB
- 'Paypoint' ar gyfer talu bob math o filiau

SPAR
Y STORFA
LLANRUG
(Richard a Meirwen Williams)
Ffôn: (01286) 672790
Ar agor bob dydd o'r wythnos at eich gwasanaeth
Nid oes unrhyw dâl am ddanfon archeb i'ch cartref yn ardal Llanrug

CARPEDI GERAINT OWEN
GWERTHWR CARPEDI, TEILS CARPED A FEINYL
CANNOEDD O DDEWIS O BATRYMAU A RHAI MEWN STOC
FFONIWCH UNRHYW AMSER:
WAUNFAWR (01286) 650552

Ai cwch Llywelyn Fawr?

(Parhad o'r dudalen flaen)

coed (dadansoddi dendro-cronolegol) yn awgrymu fod hynny'n bosibilrwydd cryf.

Prif atyniad arall yr arddangosfa yw cwch prin yn dyddio o ocs y Tuduriaid – y **1540'au** fe gredir. Hwn yw'r un cyfnod â llong enwog y ***Mary Rose***, sydd i'w gweld ym Mhortsmouth. Cafodd **Cwch Llyn Peris**, fel y'i gelwir, ei ailgreu yn fanwl gywir. I ganfod beth oedd siâp ac adeiladwaith y cwch cyflawn gwreiddiol, crewyd model chwarter maint mewn gweithdy arbennig yn Y Mynydd Gwefru ar sail y darnau a achubwyd o'r dŵr.

Talwyd am ailadeiladu'r cychod a llunio'r arddangosfa gan berchnogion Gorsaf Bwer Dinorwig a'r Mynydd Gwefru, **Edison Mission Energy**, fel rhan o'u hymrwymiad i fywyd Cymru.

Manylion pellach cyffredinol:
Eluned Davies 01248 440541
Eluned@llangaffo.fsnet.co.uk
Ymholiadau technegol:
Capell Aris 01286 873215
caris@edisonmission.com

Cefnogwch ein Hysbysebwyr

Wythnos Gwirfoddolwyr

Mae Wythnos Gwirfoddolwyr yn ddathliad cenedlaethol i ddatgan 'diolch yn fawr' i wirfoddolwyr am eu gwaith caled a'u hymroddiad i waith gwirfoddol dros y flwyddyn ddiwethaf.

Yng Ngwynedd, bydd Biwro Gwirfoddolwyr Gwynedd yn dathlu'r wythnos trwy drefnu nifer o weithgareddau.

Gwibdaith Gwirfoddoli

Bydd aelodau staff y Biwro, ynghyd â gwirfoddolwyr a chynrychiolwyr o fudiadau gwirfoddol Gwynedd, yn ymweld â threfi a phentrefi yng Ngwynedd mewn bws arbennig. Diolch i Ymddiriedolaeth y Tywysog am eu cydweithrediad. Bydd y bws yng Nghaernarfon ar ddydd Gwener, 7 Mehefin rhwng 11.00 y bore a 4.30 y prynhawn.

Bydd cyfle i fudiadau a grwpiau gwirfoddol ymuno â ni ar y wibdaith, i rannu gwybodaeth, denu cyhoeddusrwydd a chodi ymwybyddiaeth.

Am fwy o wybodaeth cysylltwch gyda Biwro Gwirfoddolwyr Gwynedd ar (01286) 672626 neu (01341) 422575 neu
biwro@vbxgwynedd.freeserve.co.uk

CymanfaYsgolion Sul Cylch Padarn

Cynhaliwyd Cymanfa Ysgolion Sul Cylch Padarn yng Nghapel Rehoboth, Nant Peris pnawn a nos Sul, 5 Mai 2002. Arweinydd y gân oedd Mr Arwel Jones, Penisarwaun ac yn cyfeilio yr oedd Mr Gareth Jones, Llanberis. Cymerwyd y gwasanaeth dechreuol yn y pnawn gan blant Nant Peris sy'n mynychu Ysgol Sul Capel Coch ac yn yr hwyr gan blant nant Peris dan arweiniad Mr Eilian Williams.

Bu'r canlynol yn llwyddiannus yn y Maes Llafur:

Dan 4 oed: Lois Regan, Deiniolen; Alaw Saynor a Lois Williams, Capel Coch; Gethin Wyn Harper, Alaw Prys Huws, Gwion John, Sion Alun Jones a Rhydian Price, Cysegr.

Dan 5 oed: Catrin Elen Jones, Catrin Llywelyn Griffith, Llyr Garmon Jones a Daniel Wyn Jones, Deiniolen; Lliwen Mair Morris, Dinorwig; Elliw Saynor, Amanda Williams, Gwen Williams, Lowri Williams, Gareth Pritchard a Mared Parry, Capel Coch; Robert Griffith a Caio Mabon Hywel, Cysegr.

Dan 6 oed: Kimberley Jones, Elin Tomos, Kate Lloyd Pritchard a Huw Owen, Capel Coch; Guto Sion Griffiths, Iolo Rhys Hughes ac Iwan Huw Harper, Cysegr.

Dan 7 oed: Derry Jane Laura Sinclair, Dinorwig; Tudur Williams, Deiniolen; Lowri Ann Griffith, Gwenno Tudor Roberts a Lowri Mai Sharpe, Cysegr.

Dan 8 oed: Manon Elwyn Hughes, Elin Owen, Bronwen Lydia Price, Ilid Speake, Gethin Wyn Griffiths, Geraint Bryn Jones, Thomas Richard Caulcutt a Gruffydd John Williams, Cysegr.

Dan 10 oed: Anna Gwenllian George, Brynrefail; Llion Jones, Ceri Hughes, Manon Pritchard a Heledd Tomos, Capel Coch; Sion Elwyn Hughes, Enfys Roberts, Angharad Price a Sioned Meleri Owen, Cysegr; Manon Wyn Jones, Deiniolen.

Dan 11 oed: Sara Parry, Capel Coch; Iona Speake, Cysegr.

Dan 12 oed: Rhian Elin George, Awen Jones a Caryl Jones, Brynrefail; Sioned Mair Phillips, Dinorwig.

Dan 14 oed: Donna Elizabeth Phillips, Dinorwig.

Dan 18 oed: Iwan Ellis Morris, Cysegr.

Oedolion: Mrs Elizabeth Evans, Mrs Edwina Harding a Mrs Nancy Williams, Cysegr.

Carai'r pwyllgor ddiolch i swyddogion ac aelodau Capel Rehoboth, Nant Peris am eu cymorth i drefnu'r gymanfa ac i bawb a'i cefnogodd. Diolch arbennig i Mr Arwel Jones am arwain y gymanfa ac i Mr Gareth Jones am gyfeilio. Hefyd gwerthfawrogir cyfraniad Mrs Falmai Pritchard a Mr Geraint Elis a fu'n llywyddu'r cyfarfodydd.

Consignia yn Cynnig Cymraeg ar y We

Mae Consignia yn datblygu tudalennau gwe yn Gymraeg ar gyfer ei gwsmeriaid sy'n dymuno pori drwy ei wybodaeth corfforaethol yn Gymraeg.

Mae'r tudalennau gwe, sydd ar gael ar *www.consignia.com/cymraeg* yn cynnwys detholiad o'r datganiadau newyddion diweddaraf, amlinelliad o hanes y cwmni, yr hyn y mae wedi'i gyflawni, ei weledigaeth ar gyfer y dyfodol, ynghyd â'i adroddiad blynyddol a'i Gynllun Iaith Gymraeg.

Dywedodd Cadeirydd Bwrdd Ymgynghorol Consginia Cymru, Graham Cater: 'Rydw i wrth fy modd fod y siaradwyr Cymraeg sy'n gwsmeriaid i ni nawr yn gallu defnyddio'r iaith sydd orau ganddyn nhw wrth ddefnyddio tudalennau gwefan Consignia. Mae hwn yn gam pwysig i gwmni sydd o ddifrif ynghylch ei ymrwymiad i'r iaith Gymraeg.'

Mae'r cwmni'n gobeithio ehangu ei dudlennau Cymraeg yn y dyfodol agos, er mwyn cynnwys y rhan o'r wefan sy'n dod â gwasanaethau ei frandiau adnabyddus – y Post Brenhinol, Parcelforce Worldwide a Swyddfa'r Post Cyf – at ei gilydd.

Ychwanegodd Mr Carter: 'Mae'n dasg enfawr i drosi miloedd o dudlanneu'r we i fformat dwyieithog, ond mae gennym dîm o bobl sy'n llwyr ymroddedig ac sy'n gweithio'n galed wrth ymgymryd â'r dasg.'

Dywedodd John Walter Jones, Prif Weithredwr Bwrdd yr Iaith Gymraeg: 'Mae hwn yn ddatblygiad naturiol i gwmni sydd a record dda o ddefnydd creadigol o'r Gymraeg ac mae Consignia i'w llongyfarch ar eu hymdrech ddiweddaraf yn hyn o beth.'

DIOLCH CYFFREDINOL

DYMUNA Eiriona Williams, Glyn Euron, Penisarwaun a Mair Lloyd Hughes, Glasgoed, Llanrug, ddiolch o galon i lawer iawn o bobl yn y gwahanol bentrefi ym mro'r Eco am gofio amdanynt yn eu profedigaeth. Diolch am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd ar ôl iddynt golli eu chwaer annwyl, Kathleen Rowlands, 39 Pennant, Llangefni.

H. E. HUGHES
A'I FEIBION
Bwthyn Gadlys
LLANBERIS
FFôn: 870444



- Gwerthwyr Glo ac
- Olew Gwres Canolog i'ch cadw'n gynnes ac yn glyd!

CRONFA COFFA R. H. OWEN

Gwahoddir ceisiadau am grantiau a benthyciadau o'r Gronfa Uchod. Ceir y manylion a'r amodau drwy anfon amlen a stamp gyda chyfeiriad arno i'r Ysgrifennydd:

John H. Hughes
Tan y Clogwyn
Llanberis
Gwynedd LL55 4LF
Ffôn: **(01286) 871 562**

Y ceisiadau i gyrraedd yr Ysgrifennydd erbyn Awst 31ain, 2002.
Ni ystyrir unrhyw gais a ddaw i law ar ôl y dyddiad cau penodedig.

CEIROPODYDD
Mrs S. Groom MSSCh, MBChA
Yn ymweld â'ch Cartref i drin traed
Triniaeth ar gyfer:
Traed Poenus; Croen Caled; Verrucae; Cyrn a Chroen Caled; Ewinedd yn tyfu i'r byw; Torri Ewinedd; Gofal a Thylino Traed.
Ffôn: **(01248) 605450** neu
07747 696267 (symudol)

O SIAMBAR SELWYN

Bore Sadwrn, 13 Ebrill oedd hi a minnau yng Nghaerdydd. Oedd, roedd tîm y brifddinas yn wynebu Notts County ar Barc Ninian. Roeddwn i ar fwriad i fynd yno.

Pasio heibio i Stadiwm y Milflwydd a sylweddoli bod 'na gêm rygbi yno yn ystod y pnawn – wel, dwy gêm a dweud y gwir. Dwy gêm am bris un. Dwy gêm gyn-derfynol, a dwy 'local darbi'.

Rwan, does gen i fawr ddim i'w ddeud wrth gêm y bêl hirgron. Dwi'n deall fawr ddim ar reolau'r gêm. A waeth gen i gyfadde ddim (er mawr cywilydd i mi) fûm i rioed mewn gêm rygbi. Yr unig beth a wn i am y gêm ydi bod rhaid i chi groesi'r llinell hefo'r bêl yn eich dwylo a tharo'r llawr hefo hi ac, os ciciwch chi'r bêl dros y pyst (nid o dan y pyst), yna fe gewch bwyntiau ychwanegol. Gêm ryfedd.

'Be 'na i?' oedd y cwestiwn. Dew, ma'r stadiwm 'ma yn lle delfrydol i'w weld o'r tu allan. Fûm i rioed i rioed i mewn ynddi a fûm i rioed mewn gêm rygbi. Ond eto, mae Caerdydd yn erbyn Notts County ar Barc Ninian, a dwi'n deall rheolau y gêm honno.

* * *

Stadiwm y Milflwydd enillodd y dydd ac roeddwn i'n eistedd yn fy sedd awr cyn y gic gynta. O ydi, mae o'n lle gwych. Gwneud i mi deimlo'n falch mod i'n Gymro. Gresyn na fydda ganddon ni dimau cenedlaethol yn y ddwy gêm y gallem ni ymfalchïo cymaint ynddyn nhw.

'Beth am y gemau rygbi?' Rhaid i mi gyfadde i mi fwynhau y cyfan. Gemau cyffrous rhwng Llanelli a Glyn Ebwy, ac i ddilyn, Caerdydd a Phontypridd. Er bod y stadiwm yn dri chwarter gwag roedd 'na awyrgylch arbennig i'w deimlo yno, a'r cwrw'n llifo o bob cyfeiriad. A'r canu hefyd.

Docddwn i ddim yn gyfarwydd â'r chwaraewyr, ond fe wyddwn am Robin Mcbryde, am y rheswm fod ei dad o, John, yn gyd-fyfyriwr â mi yn y Coleg Normal, sawl blwyddyn yn ôl bellach. Ydi, mae John yn byw ym Mro'r Eco, ym Mrynrefail. Roedd John hefyd yn chwaraewr rygbi caled yn nyddiau Coleg. Ciw o frid yn sicr ydi Robin, y mab.

Rhwng y ddwy gêm, mi fûm i'n hel meddyliau ar fideo fy nychymyg ac yn meddwl: 'Ys gwn i, pan ddaw'r Eisteddfod Genedlaethol i Gaerdydd nesa, a fydd hi'n bosib ei llwyfannu hi mewn rhan o'r stadiwm enfawr 'ma?'

Gellid gwneud hynny mewn un gornel o'r stadiwm ac mae to arni petai'r tywydd yn anffafriol. 'Beth am y stondinau?' Wel, mae 'na ddigonedd o le ar y terasau oddi mewn i'r adeilad ac o'i gwmpas ar gyfer dwsinau o stondinau. Pwy a ŵyr, efallai y gwireddir y syniad ffôl hwn rhyw ddydd a ddaw, ac y bydd seiniau'r corn gwlad yn atsain dros Stadiwm y Milflwydd.

* * *

Steddfod yn y Stadiwm neu beidio, yma ar ein tiriogaeth ni y cynhelir Prifwyl 2005. Steddfod Parc y Faenol fydd hi. Ond p'run fydd y dre/ddinas eisteddfodol ys gwn i – Caernarfon 'ta Bangor?

Rhaid fydd cynnal y seremonïau mewn man go boblog. Mae 'na feini gorsedd yn y ddau le. Mae'r meini o lechi yng Nghaernarfon, ac mae meini yn Siliwen, Bangor. Os cofiaf, ni ddringodd yr un enaid byw i'r Maen Llog yng Nghaernarfon yn 1979 oherwydd y tywydd anffafriol, ac roedd Ifan y glaw yn gwneud sbort am ben y gorseddogion ar ddydd y cyhoeddi hefyd.

Mae Caernarfon yn dre â hen draddodiad eisteddfodol iddi. Bu'r brifwyl yma ar wyth achlysur – mwy nag yn unlle arall. Cynhaliwyd y Steddfod ym Mangor chwe gwaith. Yn 1943 (adeg y rhyfel), fe'i cynhaliwyd yn y *County Theatre*.

O'r ddau le, yng Nghaernarfon y cynhaliwyd hi ola – yn 1979. Yn 1971 y bu hi ym Mangor, ar dir Castell Penrhyn. Ys gwn i p'run o'r ddau le fydd yn dre/ddinas eisteddfodol yn 2005?

* * *

Yn 1950 y cafwyd *dau* utganwr y corn gwlad yn y seremonïau am y tro cyntaf ac, o 1955, bu cysylltiad agos rhwng plwy Llanddeiniolen â'r utganwyr gan mai aelodau o Fand Deiniolen oeddynt. Bu Eifion Peris a Gareth Elidir yn y swydd o 1979 tan y llynedd a mawr yw ein diolch iddynt am eu gwasanaeth.

Fel un o blwy Llanddeiniolen, rwy'n hynod falch y bydd 'na un arall o'r plwy yn seinio'r corn gwlad ar achlysur y cyhoeddi yn y Trallwng ddiwedd Mehefin. Yno y bydd Dewi Griffith o Fethel a Paul Huws o'r Felinheli yn seinio'r cyrn i bedwar ban byd. Aelodau o Fand Biwmares ydi'r ddau. Pob llwyddiant iddyn nhw a boed iddynt gael tymor cyn hired ag un Eifion a Gareth yn y swydd.

A dyna fi wedi uno dau faes – Maes y Milflwydd a Maes y Birfwyl. Ys gwn i a fydd Dewi a Paul yn seinio'u cyrn ar Faes y Milflwydd, os cynhelir y Brifwyl yno rhyw ddydd a ddaw.

Yno 'yn wyneb haul llygaid goleuni', a'r to ar agor.

Darlunio a Phaentio Eryri.

Ydych chi'n chwilio am her newydd dros yr haf?
Beth am ddilyn cwrs celf yn lleol?
Am y tro cyntaf erioed mae Adran Dysgu Gydol Oes, Prifysgol Cymru, Bangor yn cynnig cwrs celf dros fisoedd yr haf, a hynny yn ardal yr Eco.
Bydd y cwrs Paentio a Darlunio Thirluniau, fydd yn cael ei ddysgu yn Llanberis drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg, yn cynnig cyfle i bobl ddatblygu diddrodeb a dysgu sgiliau newydd ym maes celf.
'Mae gennym raglen gelf llwyddiannus ac amrywiol iawn sy'n cynnig cyfle i artistiaid amatur brwdfrydig yn ogystal â rhai sydd eisiau datblygu gyrfa ym myd celf i ddatblygu eu sgiliau,' meddai Ian Davidson, Cydlynydd Academaidd yn yr Adran.
'Mae'r cwrs yma yn cynnig cyfle gwych i bobl gael blas ar yr hyn a gynigir gan yr Adran yn ystod y flwyddyn,' ychwanegodd.
Bydd y cwrs yn cael ei ddysgu ar un diwrnod yr wythnos am 5 wythnos gan Joanna Evans, artist profiadol a thiwtor gyda'r ganolfan sydd yn byw ym Mrynrefail.
'Fedra i ddim meddwl am leoliad gwell i ddysgu cwrs tirlunio,' meddai Joanna Evans. 'Fy mwriad yw ddefnyddio'r tirlun lleol i ysbrydoli pobl i ddatblygu eu sgiliau a'u diddordeb mewn paentio a darlunio,' ychwanegodd.
Bydd y cwrs yn cael ei ddysgu ar ddydd Mawrth bob wythnos gan ddechrau ar 2 Gorffennaf yn Theatr Fach (Capel) Llanberis, oddi ar Stryd Goodman.
Cost y cwrs fydd £50 (£25 i bobl dros 65 oed), a bydd cyfle i bobl ennill credydau Addysg Uwch wrth ddilyn y cwrs.
Os hoffech wybod mwy am gynnwys y cwrs neu gyrsiau eraill yr Adran, mae croeso i chi gysylltu â ni ar (01248) 383896.

* * *

Hefyd, bydd cwrs Darlunio o Fywyd, yn cael ei ddysgu yn y Caban, Gerlan, Bethesda drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg. Bydd y cwrs yn cael ei gynnal ar ddydd Iau am 8 wythnos, gan gychwyn ar 11 Gorffennaf. Yr athro fydd yr artist a'r tiwtor lleol, Darren Hughes.

Cefnogwch ein Hysbysebwyr

Gwesty
Dolbadarn
LLANBERIS Ffôn: 870277

Am groeso cartrefol Cymreig bob amser Aneuryn Jones a'r staff

DODREFN PERKINS
(Safle'r hen Nelson)
CAERNARFON
Ffôn: (01286) 676 040
- Pob math o ddodrefn tŷ
- Cegin, 'stafell fyw, llofft
- Prisiau cystadleuol
- Danfon am ddim i holl ardal Bro'r Eco

UN FUNUD FACH

Amcan 1

Clywyd llawer dros y misoedd diwethaf yma am brosiectau ac arian Amcan 1. A docs ond gobeithio y bydd yr arian a ddaw i Gymru o'r Gymuned Ewropeaidd yn esgor ar nifer cynyddol o brosiectau llwyddiannus a fydd yn creu swyddi ac yn gwella amgylchiadau economaidd ein gwlad a'n hardal.

Mae'n siwr fod llawer ohonom wedi clywed y term ganwaith ond heb fawr o syniad beth yn union yw Amcan 1. Mae gennym rhyw fras syniad, ond fawr mwy na hynny. Mae'r manylion yn niwlog. Ac yn aml iawn, dyna fel y mae hi hefyd gydag Amcan 1 Duw ar ein cyfer fel Cristnogion.

Mae gan yr Eglwys lawer o amcanion, ac nid gwaith hawdd yw dweud pa rai ohonynt sydd fwyaf pwysig. Clywyd yr wythnos ddiwethaf am argyfwng newyn yn Affrica unwaith eto, y tro hwn ym Malawi. Mae bwydo'r newynog yn sicr yn un o amcanion yr Eglwys.

Sonir yn aml heddiw am yr angen i'r eglwysi fod yn weithgar yn eu cymunedau er mwyn dangos a rhannu cariad Crist. Dyna amcan arall gwerthfawr.

Yn y Gymru sydd ohoni mae cynnal a chadw'n hadeiladau eglwysig yn hawlio'n sylw. Yr amcan yw sicrhau y bydd gennym lefydd hwylus i addoli ynddynt i'r dyfodol.

A dyna'r addoliad ei hun. Mae holl waith yr Eglwys yn deillio o'i haddoliad. Un o'r amcanion mwyaf sylfaenol yw gofalu ein bod yn addoli Duw ac yn ei ogoneddu ym mhob peth.

Ond beth am yr Amcan 1? Beth yw'r prif flaenoriaeth? Beth yw prif bwrpas yr Eglwys heddiw? O gofio bod yna genhedlaeth gyfan i'w hennill i'r Arglwydd Iesu Grist, onid cyhoeddi'r Efengyl yw'r peth pwysicaf y gallwn ei wneud? Heddiw, fel erioed, gwaith pennaf yr Eglwys yw dweud wrth bobl am yr Arlgwydd Iesu Grist a'i Groes. Cyhoeddi cariad Duw yw cyfrifoldeb cyntaf pawb sydd wedi profi'r cariad hwnnw. Mae gan yr eglwysi lawer o amcanion da, ond does yr un yn bwysicach na hwn.

JOHN PRITCHARD

Y Waunfawr Cyn ac Wedi'r Ail Ryfel Byd

–mwy o atgofion J. Rhyd Humphreys, Caernarfon

Anodd credu heddiw fod pobl y Waun yr adeg yma, fel pobl pentrefi eraill, yn byw heb beiriant golchi nac oergell, heb sôn am fidios neu glociau trydan. Ac, er fod yr Hoover wedi ei ddyfeisio yn 1911, ni chyrhaeddodd ein tŷ ni cyn tua 1947. Doedd gan y rhan fwyaf o'r bythynnod ar ochrau Cefn Du ac Allt Coed Mawr ddim trydan, heb sôn am nwy. Yn bersonol nid oedd ganddom ni ddwfr rhedeg yn y tŷ ychwaith, dim ond tap y tu allan a fyddai wedi rhewi yn gorn yn y gaeaf ac roedd y gaeaf yn llawer cletach yr amser honno – a'r haf yn llawer poethach hefyd. Nid oeddym i gael y ffôn (a ddyfeisiwyd yn 1876) cyn tua 1950. Dim toiled fewnol; dim ffôn symudol, cyfrifiaduron na gwyliau tramor. Dim problemau cyffuriau nac yfed, er bod sôn fod rhai o'r dynion yn mynd cyn belled â Llandudno am ddropyn rhag ofn i rywun eu gweld yn y dref (a doedd merched y wlad byth yn ymweld â thafarnau).

Byddai rhai o'r plant yn sefyllian o gwmpas y post rhag ofn fod teligram wedi cyrraedd i rywun er mwyn ennill ychydig geiniogau am ei ddanfon.

Dydd Llun oedd diwrnod y golch a fy ngwaith innau ar ddydd Mawrth oedd troi'r mangl.

Yn y tridegau nid oedd y strydoedd wedi eu goleuo ond, er hynny, teimlai hen bobl a phlant yn bur ddiogel unrhyw amser o'r dydd neu'r nos. Roedd y meddyg yn ddiogel yn ei feddygfa a'r gweinidog a'r person yn eu cartrefi. Nid nad oedd drygioni ymysg y plant, rhyw ddrygioni diniwed megis dwyn afalau, cnocio ar ddrysau a reidio beic heb olau.

Nid oedd ond dyrnaid o geir modur yn y pentref a doedd neb bron wedi pasio y prawf gyrru (a ddaeth i fewn yn 1935). Roedd pobl yn ddibynnol ar y bysus gwyn neu dacsis Non neu fysus Wil Sal, Beddgelert. Roedd amryw o foto beics fodd bynnag a bu un brodor, Alun S. Jones (y soldiwr mawr), yn cystadlu yn y T.T. yn Ynys Manaw.

Roedd un heddwas; un swyddfa bost (pris stamp ar lythyr oedd 21/2d.); dwy siop chips; un becws (John Austin) a phris torth oedd swllt (5c); un capel (gweinidog – Y Parch. D.J. Lewis); un eglwys (Mr. Hughes); un meddyg (Dr. Miles); un barbwr (Mr. Oliver); un gefail gof ac un cigydd, ac mae y rhain bron i gyd wedi diflannu bellach. Dim tafarn nac *'off licence'*.

Dieithriaid

Doedd dim mwy na hanner dwsin o Saeson wedi cyrraedd y Waen cyn dyfodiad y faciwis amser y rhyfel – o Lerpwl a'r cyffiniau y rhan fwyaf. Rhyw blant llwydaidd a newynog yr olwg. Rhai ohonynt bron yn gwbl anllythrennog ac yn uniaith Saesneg. Yn wahanol i'r oes yma fodd bynnag, roedd y plant estron yn berffaith ddiogel yn eu cartrefi newydd. Nid oedd beryg iddynt gael eu camdrin ym mhentrefi Cymru. Yn wir, roeddynt yn cael gwell gofal nac yn eu cartrefi eu hunain yn Lerpwl. Aeth rhai yn ôl gyda Chymraeg rhugl a gwell graen arnynt. Ac anghofiodd rhai fynd yn ôl o gwbl.

Roedd un Albanwr wedi cyrraedd – trydanwr wrth ei alwedigaeth yn trwsio radios. Dyn bychan yn cerdded yn fân ac yn fuan ac yn gwisgo *kilt*. – meddyliai rhai ei fod yn rhyw fath o ysbïwr. Nid wy'n credu i neb arall o unrhyw genedl ymsefydlu yn y Waen cyn y rhyfel.

O Harlech y daethom ni fel teulu ac rwy'n credu yr edrychid arnom ni fel hanner dieithriaid gan ein bod yn galw'n tad yn 'ted', mam yn 'mem', clusdan yn 'clatsian' a cath yn 'ceth'.

Cymwynaswyr

Beth sy'n nodweddiadol o'r amser yma ydoedd fod cymaint o bobl alluog yn rhoi o'u hamser a'u llafur er budd eraill. Dysgodd y bardd T. H. Williams, Garreg Fawr, neu Tom Garreg Fawr, genedlaethau o blant ar gyfer eisteddfodau lleol a'r genedlaethol, gan hefyd roi ei amser yn hael i gyfarfodydd a chymdeithas.

Arweinydd y Seindorf Arian ydoedd Dafydd Trefor. Rhoddodd yntau, a oedd yn gwbl hunan-ddysgedig, ei amser i ddysgu'r ifanc i ganu ac i chwarae offerynnau cerdd. Nid wyf yn credu iddo gael diwrnod o addysg ond reodd ei wybodaeth am gerddoriaeth yn drwyadl. Dysgais gymaint, os nad mwy, gan Dafydd Trefor nac yn yr ysgol ramadeg.

Arferai'r seindorf ymarfer yn ysgol y pentref ddwywaith yr wythnos – dim merched yr amser honno. Penderfynwyd ein bod am gystadlu yn eisteddfod Bac Colwyn. Aethpwyd ati i ymarfer o dan arweiniad rhyw Sais ond, er ei holl frwdfrydedd gyda'r ymarfer olaf yng Nghapel Glan Môr yn y dref (nad yw'n bod mwyach), daethom yn olaf ond un. Cymerwyd Dafydd Trefor yn wael ychydig wedyn ac ni fu fawr o lewyrch ar bethau ar ôl hynny, beth bynnag a ddaeth o'r offerynnau.

Roedd englynwr o'r enw Dewi Gwyrfai yn byw yn yr ardal hefyd. Ysgrifennodd ddwsinau o englynion ac mae ei waith yn amlwg ar gerrig beddau Bedws Garmon.

Addysgwyd rhai o'r plant yn breifat gan Mrs Jones, Pant cyn eistedd yr arholiad i fynd i'r Ysgol Sir. Roedd ganddi ddywediad na chlywais ei debyg gan neb arall. 'Mae'n ddydd o brysur bwyso', ond nid wy'n credu i neb fethu'r arholiad ar bod o dan ofal Mrs Jones, Pant.

Gwaith

Ychydig o ferched a weithiai y tu allan i'r cartref. Gyda dyfodiad yr Ail Ryfel Byd fodd bynnag, aeth rhai pobl, yn cynnwys merched, i weithio i'r ffatrïoedd a daeth teuluoedd yn ddibynnol ar ddau gyflog. Er mai ychydig iawn o ferched Parchus y capel a âi i'r ffasiwn lefydd. Gweithiai amryw o'r dynion yn chwarel Llanberis a deuai bysus at y post i'w cludo bob bore a'u danfon yn ôl wedyn yn yr hwyr. Roedd rhai

Parhad ar dudalen 21

Y Bistro
LLANBERIS
Ffôn 871278
www.ybistro.co.uk
Perchnogion: Danny a Nerys Roberts

GORSAF BETROL
ESSO BERAN
DEINIOLEN
Ffôn: (01286) 871521
Ar agor 7 a.m. – 9 p.m. bob diwrnod
Petrol • Disel • Nwy Calor • Glo
Cylchgronau • Papurau Newydd
Cardiau Penblwydd • Wyau
Nwyddau Groser • Melysion
TICEDI LOTERI AR WERTH YMA!

CHWILOTA

HOBLEY, HUMM, HUME A HOLLYWOOD!

Dyna destun a hanner am y mis hwn! A chyfres o gydddigwyddiadau fu'n gyfrifol amdano. Galwad ffôn fu'n gyfrifol am gychwyn y gyfres ddominoaidd (os oes y fath air). Brodor o Lanberis yw Mrs Shirley Griffith ac, er iddi dreulio cyfnod yng Nghanada, mae bellach wedi dychwelyd i Gymru, a chyfrannodd eisoes i'r golofn hon yng nghyfnod dathlu canmlwyddiant Ysgol Brynrefail. Ganddi hi y daeth yr alwad ffôn. Ymateb yr oedd i'm cais dros y misoedd diwethaf i hanes Elisabeth Hughes a'i wyres, Mary Elizabeth.

Chwi gofiwch fod yr eneth fach hon wedi ei mabwysiadu gan ei nain, ac wedi dysgu chwarae'r feiolin. Roedd ei mam, yn ôl pob sôn, yn ffrindiau ag Ap Glaslyn ac wedi canu o flaen y Frenhines Fictoria. Ond y dirgelwch oedd: pwy ddysgodd iddi chwarae'r feiolin? Awgryma Mrs Griffith mai'r athro cerdd oedd Robert Henry Jones, un o'i chyndeidiau. Daeth i Lanberis yn orsaf feistr pan agorwyd y lein fawr o Gaernarfon yn 1869. Roedd yn frodor o ogleddddwyrain Cymru, ac yn gerddor dawnus. Byddai'n cynnig gwersi i blant Llanberis oedd yn dangos addewid cerddorol. Tybed a'i fo fu'n gyfrifol am ddysgu Mary Elizabeth?

Eglurwyd gan Mrs Griffith fod llun o wyres i Robert Henry Jones yn y llyfr *Hen Luniau Bro 'Eco'r Wyddfa'* (llun rhif 12). Mae'r llun hwnnw'n dangos y *Llanberis String Band*, a sefydlwyd tua 1902, ac y mae rhes o enethod ifanc yn eistedd ym mlaen y llun gyda'u feiolins. Feiolin Robert Henry Jones yw'r un sydd ym meddiant ei wyres, ac y mae'r feiolin arbennig hwnnw (o wneuthuriad Verini) yn parhau ym meddiant y teulu: mae bellach gan ferch Mrs Griffith yn yr Almaen.

Tra'n disgrifio'r hanes i mi ar y ffôn, digwyddodd Mrs Griffith ddweud hefyd fod merch arall yn y llun; merch o'r enw Bonita Hume. Aeth yn ei blaen i egluro fod tair o chwiorydd Hume. Priododd Cathy Hume â rhywun o'r enw Owen, oedd yn Glerc yn Stesion yr Wyddfa. Priododd un arall â chapten llong o'r enw Faulkner. Ond yr hanes oedd fod Bonita wedi mudo i'r America ac wedi priodi'r actor Ronald Colman. Roedd angen chwilota mwy i'r hanes hwn!

Dechreuais drwy astudio hen Gofrestrau Etholwyr Llanberis. Roedd teulu gyda'r cyfenw Hume yn byw yno – mewn tŷ o'r enw Glasgow House. James Hume oedd enw'r tad, ac mae'n ymddangos yno yn 1900. Ddwy flynedd ynghynt roedd gŵr o'r enw Joseph Hobley yn byw yn Glasgow House – a dyna gydddigwyddiad arall. Oherwydd yn y rhifyn cyfredol o *Gwreiddiau Gwynedd*, cylchgrawn Cymdeithas Hanes Teuluoedd Gwynedd, y mae erthygl hynod ddiddorol gan Mrs Catherine Vevar o Dudweiliog ar deulu'r Hobley. Oedd, roedd un gangen o'r teulu yn fferyllwyr yn Llanberis, ac yr oedd aelod arall, William Hobley, gweinidog gyda'r Methodistiaid, yn byw yn y Ceunant, ac yn awdur y cyfrolau swmpus rheini ar *Hanes Methodistiaid Arfon*.

Cefais air â Mrs Vevar ynglŷn â Glasgow House, ac arbedodd lawer o waith chwilio i mi drwy *gadarnhau fod merch Joseph* Hobley wedi priodi James Hume. Ei henw oedd Harriette a, phan fu Joseph farw ym mis Mehefin 1898, gadawodd Glasgow House i'w ferch yn ei ewyllys, ynghyd â £2,489. Gyda llaw, roedd yr Hobleys hefyd yn berchnogion Halford Hill, a enwyd ar ôl enw morwynol nain i Joseph.

Fûm i fawr o dro yn dod o hyd i'r teulu yng Nghyfrifiad 1901. Doedd James, y tad, ddim gartref. Ond enwir Harriette, a'i phlant, Margaretta H. (14 oed), William J. (11 oed), Evelyn H. (2 oed) a Helena J. (6 mis). Dim son am Bonita!

Miriam Violet a Marjorie Hume, wyresau y Cadfridog Hugh Rowlands, Plastirion, Llanrug.

Darganfod enwau rhai o'r plant yng nghyfrol John Pritchard ar *Hanes yr Ysgol Sir ym Mrynrefail, Arfon*. Roedd Miss Ethie Hume yn *'fairy'* yng nghylch y tylwyth teg o gwmpas y *'Fairy Well'* pan gynhaliwyd y Bazaar enwog hwnnw. Roedd hi'n ddisgybl yn Ysgol Brynrefail ers 1899. Unwaith eto, dim son am Bonita. Efallai mai enw wedi ei fabwysiadu oedd hwn ganddi.

Ond i barhau â'r stori. Cysylltodd Mrs Pauline Williams o Gaernarfon â mi wedi iddi fod yn sgwrsio hefo Mrs Vevar, a daeth â'r union stori a glywais gan Mrs Shirley Griffith, ond i Pauline glywed yr hanes gan ei mam, Mrs Naomi Griffith o Hafan Elan, Llanrug. Roedd hithau hefyd yn *sôn am dair chwaer – un a* briododd weithiwr yn Stesion Wyddfa, un arall a briododd gapten llong (a chadarnhaodd yr enw Faulkner), a'r llall, Bonita, a briododd Ronald Colman. Roedd hi'n amlwg (i mi, beth bynnag) fod rhywfaint o wir yn y stori.

Aeth fy nychymyg yn drên: peth peryg' iawn i dipyn o hanesydd lleol! Onid oedd T. Rowland Hughes yn crybwyll Ronald Colman yn ei nofel *William Jones*? Pam crybwyll yr actor arbennig hwnnw yn hytrach nac unrhyw un arall o dduwiau'r seliwloid? Onid oedd Leusa, gwraig William Jones yn breuddwydio am gael ei chofleidio gan Ronald Colman? Tybed a gafodd yr actor arbennig hwn ei enwi oherwydd fod T. Rowland Hughes yn ymwybodol o'r cysylltiad â merch o Lanberis?

Roedd angen taflu'r rhwyd ymhellach i geisio darganfod a oedd yr hanes yn wir. A daeth mwy o wybodaeth o'r wê. Roedd merch o'r enw Benita (nid Bonita) Hume wedi priodi Ronald Colman yn y 1930'au – *'a British born actress'*. Roedd ganddi frawd o'r enw Cyril, a fu'n sgwennwr sgriptiau i MGM, ac yn bennaf gyfrifol am *ffilmiau cynnar Tarzan*. *Fe'i* ganed yn 1906, yn Beckenham, Lloegr, yn ferch i gyfreithiwr o'r enw Henry Josiah Humm. O leiaf, roedd un ddamcaniaeth yn gywir; enw wedi ei fabwysiadu oedd ganddi. Newidiodd ei chyfenw o Humm i Hume. A doedd ganddi yr un iot o gysylltiad â Llanberis.

Ond rwy'n siwr y cytunwch ei bod wedi gwneud stori dda. Ac mae rhannau ohoni'n parhau heb ei ateb. Pam y daeth y stori am Bonita a'i chwiorydd o ddau darddiad gwahanol? Pwy oedd y chwaer a briododd weithiwr yn Stesion Wyddfa? A phwy briododd y Capten Faulkner? Os oes unrhyw un o'r darllenwyr yn gwybod, cysylltwch.

Rydw i'n amau hefyd o ble daeth y stori am yr actores o'r enw Hume. Onid oedd dwy o wyresau y Cadfridog Hugh Rowlands o'r Plastirion, Llanrug wedi mynd i fyd y theatr, ac yn ddiweddarach i fyd ffilmiau? A'u henwau? Miriam Violet a Marjorie Hume.

antur WAUNFAWR

Cynllun Dodrefn

Mae'r Cynllun yn brin o gyfraniadau **nwyddau trydanol**, yn arbennig poptai, oergelloedd, peiriannau golchi a rhewgelloedd fyddai'n addas i'w cleientau ar incwm isel

Gwasanaeth casglu rhad ac am ddim

☎ 01286 674 155
www.anturwaunfawr.org

ANTUR WAUNFAWR

IEUAN WILLIAMS
Glanffrwd
DEINIOLEN
(01286) 870484

- Bysiau o 12 i 53 sedd
- Teithiau Lleol a Thramor
- Gwaith Contract
- Telerau arbennig i bensiynwyr, myfyrwyr a phlant ysgol

Plasdy sydd wedi diflannu.

Ddaeth neb o'r darllenwyr i gysylltiad ynglŷn â'r llun o blasdy yn dyddio o tua 1800-1820. Does ryfedd am hynny, oherwydd fe chwalwyd plas gwreiddiol Glangwna yn gynnar yn yr 1890'au ac adeiladwyd y plas presennol gan deulu'r Greaves. Thomas Lloyd o'r Amwythig oedd perchennog y plasdy gwreiddiol. Gyda diolch i Mrs Mair Jones, Llety'r Wennol, Caeathro am y llun. Ond rwy'n parhau i geisio darganfod ble mae'r llun gwreiddiol a phwy oedd yr arlunydd.

Gweinidog Wesla o Fethel?

Mae'r cais nesaf yn mynd â ni'n ôl i ardal Saron, Bethel tua 1911. Mae un o'r darllenwyr yn chwilio am wybodaeth am y Parch William Ellis Jones, a fu'n weinidog, neu o leiaf a fu â gofalaeth, am Gapel Wesleaid Saron tua'r cyfnod hwn. Prin yw'r wybodaeth sydd amdano. Roedd yn briod ag Anne (Owen cyn priodi), ond pan fu farw ei wraig gyntaf, ail-briododd â Martha Jane Jones, a oedd yn byw yn Nhan y Buarth, Bethel. Bryd hynny, roedd Tan y Buarth yn dyddyn bychan o rhyw bump acer, digon i helpu i gynnal y ddau tra'r oedd William Ellis Jones yn bugeilio praidd Saron. Mae'n bosibl hefyd ei fod yn dipyn o fardd, ac yn galw'i hun yn Ap Elis. Does dim sicrwydd fod William Ellis Jones yn weinidog, oherwydd tybir mai saer oedd wrth ei alwedigaeth, ond iddo gymryd gofal o'r capel yn Saron ar ran y Wesleaid. Mae'n bosibl hefyd mai eiddo Martha Jane oedd Tan y Buarth, oherwydd pan fu hi farw, bu'n rhaid iddo adael yr ardal. Unwaith eto, does dim sicrwydd, ond tybir mai i ardal y Borth ger Aberystwyth y symudodd.

Oes rhywun o ddarllenwyr yr 'Eco' â gwybodaeth amdano? Neu oes rhywun yn gwybod a oes cofnodion am Gapel y Wesleaid yn Saron ar gael yn rhywle?

Gwerthiant Eiddo'r Eglwys yng Nghymru.

Y mis diwethaf, addewais roi hanes gwerthu tai a ffermydd yn ardal Pontrug a Llanrug rhyw bedwar ugain mlynedd yn ôl, ond aeth stori gwraig Ronald Colman â holl ofod y golofn bron y mis hwn! Felly, rhaid disgwyl tan y mis nesaf.

Oherwydd eich bod chi, ddarllenwyr y golofn yn cysylltu â mi gyda phytiau diddorol, mae mwy o hanes y fro yn dod i'r amlwg. Os oes gennych unrhyw ymholiad neu unrhyw wybodaeth am destunau yn ymwneud â hanes bro'r 'Eco', yna cysylltwch â Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon (Ffôn: 01286 673515)

BRYNREFAIL

Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed. Ffôn: 870580

DIOLCH. Dymuna Gareth a Llinos Foulkes, Bryn Derw, gydnabod bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt fel teulu yn eu profedigaeth chwerw o golli Ifan Aneuryn. Gwerthfawrogir yn arbennig y rhoddion hael a dderbyniwyd er cof. Cyflwynwyd £900 i Feddygfa Waunfawr a £200 i Eglwys Sant Padarn, Llanberis.

SWYDD NEWYDD. Wedi treulio cyfnod fel Darlithydd yn y Gyfraith yng Ngholeg Meirion Dwyfor, bydd Catrin Gwyn, Rhandir yn symud i swydd cyfreithiwr gyda Hywel Davies a'i Gwmni, Y Bala. Bydd yn dechrau yn ei swydd newydd ddiwedd Mehefin.

PWYLLGOR CYMUNEDOL. Cyfarfu'r Pwyllgor yn y Festri, nos Fawrth, 23 Ebrill gyda Gwyn Hefin Jones yn cadeirio yn absenoldeb y Cynghorydd Keith Brymer Jones.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y llywydd ynghyd â Liz Mead, Tim Silvester, Eurwyn Griffith a'r Cynghorydd Pat Larsen. Etholwyd Lowri Roberts Williams yn Drysorydd y Pwyllgor Llywio presennol.

Prif waith y noson oedd trefnu dosbarthiad yr Holiadur swyddogol a baratowyd dan arweiniad Geraint George. Penderfynwyd y byddai'r Holiadur yn cael ei ddosbarthu i gartrefi'r fro yn ystod yr wythnos 29 Ebrill – 5 Mai. Hysbysodd Geraint George y byddai'r dadansoddiad o'r atebion wedi ei gwblhau erbyn 21 Mai. Cafwyd cyfarfyddiad pellach o'r pwyllgor ar y dyddiad hwnnw. Y Cadeirydd oedd y Cynghorydd Keith Brymer Jones a chyflwynwyd dadansoddiad o'r atebion i'r Holiadur gan Geraint George. Diolchwyd iddo am ei waith caled gan Gwyn Hefin Jones. Ymhellach trefnwyd yr agenda ar gyfer y CYFARFOD CYHOEDDUS sydd i'r gynnal nos Fawrth, 18 MEHEFIN AM 7 O'R GLOCH YN Y FESTRI pryd y cyhoeddir canlyniadau'r arolwg. Gwahoddwyd Sioned Williams – Rheolwr Rhaglenni Adfywio o Gyngor Gwynedd i'r cyfarfod.

YR EGLWYS BRESBYTERAIDD. Cymanfa Dosbarth Padarn. Cynhaliwyd y Gymanfa eleni yng Nghapel Rehoboth, Nant Peris ddydd Sul, 5 Mai. Llongyfarchwyd Caryl ac Awen Jones, Na Nog a Rhian ac Anna George, Sŵn yr Engan ar dderbyn gwobrau a thystysgrifau am eu gwaith ym Maes yr Arholiad Llafar.

Y GYMDEITHAS. Nos Iau, 9 Mai cynhaliwyd cyfarfod o'r Gymdeithas yn y Festri. Llywyddwyd y cyfarfod gan Mrs Einir Gwyn ac roedd y defosiwn dan ofal Mrs Jennie A. Roberts. Gŵr gwadd y noson oedd y Parch Marcus Wyn Robinson. Treuliwyd noson arbennig o hwyliog a diddorol yn ei gwmni yn sôn am ei gyfnod fel Caplan yn y Llynges ac roedd pawb oedd yn bresennol wedi mwynhau ei gyfraniad yn fawr iawn. Diolchwyd yn gynnes iawn iddo gan y Cadeirydd. Paratowyd y lluniaeth gan Mrs Pat Jones a Mrs Mair Davies. Bydd y cyfarfod nesaf nos Iau, 13 Mehefin yng nghwmni Mr Gwynn Davies o Antur Waunfawr.

Y GENHADAETH. Yn ddiweddar bu cangen y Chwiorydd o'r Gymdeithas yn trefnu'r casgliad blynyddol tuag at waith y Genhadaeth dan nawdd Cyfeisteddfod Chwiorydd Arfon i'w drosglwyddo i Drysorydd y Gogledd yn y Sasiwn Flynyddol a gynhaliwyd eleni ar 7 Mai ym Mhorthaethwy. Casglwyd y swm o £86.50.

TREFN OEDFAON MEHEFIN

2 Mr Ifan Hefin Williams, Caernarfon am 5.30
9 Y Parch Haffi Parri, Caernarfon am 5.30 pryd y Gweinyddir y Sacrament o Swper yr Arglwydd.
16 Y Parch Emrys Thomas, Caernarfon am 2.00
23 Mr Glyn Owen, Llanwnda am 5.30
30 SUL CYMDEITHAS Y BEIBLAU. Oherwydd newid ynglŷn â dyddiad Cymanfa'r Wesleaid, bydd Cyfarfod y Plant (sy'n arferol yn y prynhawn) yn yr hwyr eleni, ac felly ni chynhelir Cymanfa Ganu. Cynhelir y cyfarfod yng Nghapel Cefnywaun am 6 o'r gloch a bydd y gwasanaeth dechreuol dan ofal plant Ysgol Sul Brynrefail.

CYMDEITHAS Y BEIBLAU. Cynhelir gwasanaeth Cymdeithas y Beiblau nos *Sul, 30 Mehefin am 6.00* o'r gloch yng Nghapel Cefnywaun, Deiniolen. Gwneir casgliad at yu Gymdeithas yn y cyfarfod. Trefnir bws i gychwyn o Ddinorwig am *5.30* ac yna i Benisarwaun.

LLWYDDIANT. Llongyfarchiadau i Ceri a Rhian Morris, 5 Minffordd ar eu llwyddiant yn ddiweddar ym maes Gymnasteg. O ganlyniad bydd y ddwy yn cymryd rhan yn genedlaethol yn y gystadleuaeth derfynol i ymgeiswyr o Gymru a gynhelir yng Nghaerdydd ddydd Sadwrn, Mehefin 15fed. Dymuniadau gorau i'r ddwy ar y diwrnod.

Cefnogwch ein Hysbysebwyr

SNOWDONIA PARC
WAUNFAWR
•Tŷ Rhydd • Bwyd Cartref • Prydau Plant
• Ystafell Deulu • Cinio Dydd Sul Traddodiadol
• Cerddoriaeth Fyw • Cwrw Go Iawn
Ffôn: 650218

EMYR JONES
PLYMAR A PHEIRIANNYDD GWRESOGI
Cynnal boileri nwy, olew, tanwydd solat a thredio peipiau
44 Glanffynnon, Llanrug
CAERNARFON 673513
Ffon Symudol: 07774 496616

GWASANAETH LLEOL AR GYFER
PARTÏON • PRIODASAU • PEN-BLWYDD
BEDYDD • DAWNS • GWYLIAU . . .
RHOSTIO MOCHYN
AR GYFER POB ACHLYSUR
* Cig o ffermydd lleol * Partïon rhwng 40 a 400!
* Gyda saws afal a stwffin mewn rholiau
* Efo salad hefyd os dymunwch
DEWCS, MAE O'N FLASUS!
Cysylltwch â
JOHN BRYNAFON, LLANRUG
Y DYN CIG ar 675190 / 673188

WAUNFAWR

Mrs Nan Roberts, Pantafon. Ffôn: (01286) 650570

Camera yn ngofal Heulwen Hughes, Argoed. Ffôn: (01286) 650556

Annwyl Olygydd,

Hoffwn gyflwyno teyrnged arbennig i Mrs Mary Vaughan Jones, Waunfawr.

Pan ddychwelodd fy ngwraig a minnau i'r Waunfawr ar ôl bod i ffwrdd am 35 o flynyddoedd, Mrs Mary Vaughan Jones oedd y foneddiges gyntaf i'n croesawu yn ôl. Gwnaeth hynny gyda'r fath gynhesrwydd fel y gwnaeth i ni deimlo ei fod yn werth dod yn ôl i'r pentref hyfryd hwn.

Roedd Mrs Mary Vaughan Jones yn ddynes ddysgedig a'i gwybodaeth yn eang a thrylwyr. Byddai yn fwy na pharod i helpu unrhyw un a ofynnai am oleuni ar rhyw bwnc. Ni wnâi droi neb i ffwrdd, byddai gwên a chroeso bob amser ar garreg ei drws. Rhan amlaf gallai roi'r ateb yn syth ond, os na fyddai'n gwybod yr ateb, byddai yn mynd allan o'i ffordd i ymchwilio i'r mater a dod yn ôl at y person gyda'r wybodaeth lawn. Lawer gwaith bu o gymorth i mi gyda fy ngwaith adfocatiaeth ac rwy'n ddyledus iawn iddi.

Dywedaf ar ran pobl Waunfawr – rydym wedi colli cannwyll hardd a fu yn goleuo'n ddisglair yn ein pentref a'r ardaloedd cyfagos am gymaint o flynyddoedd. Ni fedrwn ddarganfod cannwyll arall mor hardd â hon.

Gobeithio y caiff y foneddiges raslon yma orffwyso'n dawel gyda'i hannwyl ŵr.

Bendith Duw arnoch Mary,
Cyril Smith, Rhoslan

Y CLWB 300. Dyma restr o enillwyr y Clwb 300 am fis Ebrill: 1. £40: Dr Huw Roberts, Liverpool House; 2. £25: Mr Emrys Owen, Bryn Môr; 3. £10: Mrs Katie Roberts, 27 Tref Eilian.

LLONGYFARCHIADAU PRIODAS. Dymunwn yn dda i John a Nora, Garej Pant y Waun ar eu priodas yn ddiweddar.

CERDDOROL. Llwyddodd Ffion Haf Williams, Stad Tŷ Hen yn yr Arholiad Theori Gradd 1 gyda theilyngdod. Llongyfarchiadau i ti Ffion, a dal ati.

DYSGU ADNODAU. Cymerodd aelodau y ddwy Ysgol Sul ran yng ngwasanaeth y Gymanfa yng Nghapel Seilo, Caernarfon ar fore Sul, 19 Mai. Llongyfarchiadau iddynt ar eu gwaith ac am dderbyn tystysgrifau am ddysgu adnodau o'r Beibl.

CROESO ADREF O'U GWYLIAU i Mrs Enid Williams, Heli, wedi iddi dreulio cyfnod gyda'i mab, Iorwerth a'i deulu ar Ynysoedd y Kayman.

Bu Tom a Iona Williams, Llwydiarth yn Awstralia am naw wythnos, yn ymweld â chwaer Iona ac yn westeion ym mhriodas nith iddi. Croeso adref ichi yn ôl i'r Waun.

ADREF O'R YSBYTY. Mae'n dda deall bod Mr a Mrs Gwilym Madoc Jones, Stad Bro Waun yn gwella wedi i'r ddau orfod treulio cyfnod yn yr ysbyty.

Mae Mrs N. Roberts, Tref Eilian hefyd yn gwella wedi iddi hithau orfod treulio amser yn yr ysbyty. Anfonwn ein cofion cynhesaf atoch i gyd.

CYDYMDEIMLO. Anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf at Mr David Parry a'r teulu, Stad Bro Waun, yn ei brofedigaeth o golli brawd.

Estynnwn ein cydymdeimlad hefyd at Mrs Luned Roberts a theulu Sŵn y Gwynt yn eu profedigaeth o golli mam Luned.

DIOLCH. Dymuna Anne a'r teulu, Treforfan, ddiolch i gymdogion a ffrindiau am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth ddiweddar pan gollwyd ei mam.

MERCHED Y WAWR. Ar ddechrau'r cyfarfod, nos Iau, 25 Ebrill talwyd teyrnged o goffad a chydymdeimlad â theulu Mrs Mary Vaughan Jones gan Irene, y llywydd. Roedd Mrs Jones yn un o sylfaenwyr y Gangen ac yn un o'r aelodau ffyddlonaf. Bydd chwithdod mawr a hiraeth ar ei hôl.

Eirian Roberts, o gwmni coluro Clinique, Debenham's oedd y wraig wadd a chafwyd noson ddifyr iawn yn ei chwmni. Glenys oedd y fodel a ddewiswyd gan Eirian i arddangos rhagoriaethau cynnyrch y cwmni ac mae sôn nad oedd Haydn yn ei hadnabod pan ddychwelodd gartre!

Roedd y baned yng ngofal Heulwen a diolchwyd i bawb gan Alma.

PLAID CYMRU. Cynhaliwyd noson hwyliog yng nghwmni Alun Ffred Jones, darpar ymgeisydd Plaid Cymru i'r Cynulliad Cenedlaethol yn Y Bistro, Llanberis nos Sadwrn, Ebrill 27. Braf oedd gweld cynifer yn bresennol.

Cofiwch am y Barbaciw yn Nolwar Fach, nos Sadwrn, 22 Mehefin am 6.30 yh. Croeso i aelodau hen a newydd.

DIOLCH. Dymuna Mr a Mrs Elfed Roberts, Dwyros, Waunfawr ddiolch yn fawr iawn i'r teulu a chymdogion a ffrindiau cywir sydd wedi anfon cardiau, blodau a rhoddion tuag at Ward Gwyrfai yn Ysbyty Bryn Seiont a Ward Aran yn Ysbyty Gwynedd. Fe fu Staff y ddwy ward yn hynod o ofalus o'r diweddar Mrs Ann Eurwen Clarke, Caernarfon, sef mam, nain a hen nain annwyl.

Cyngor Cymuned Llanrug.

Cynhaliwyd cyfarfod o'r Cyngor Nos Fawrth, y 19 Mawrth 2002, yn y Sefydliad Coffa, Llanrug. Cadeiriwyd gan y Cynghorydd Goronwy Hughes.

Penderfynwyd hysbysebu Swydd y Clerc gan bod y Clerc presennol yn dymuno ymddiswyddo ar ôl llenwi'r bwlch, dros dro, am dri mis.

Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod mis Chwefror. Penderfynwyd ymateb i geisiadau am gymorth ariannol fel a ganlyn:

Clwb Pêl Droed Llanrug: £400;
Eisteddfod Llanrug: £175;
Cwmni'r Fran Wen, Age Concern, Bobarth, Childline Cymru, Canolfan Cynghori Caernarfon (CAB), Cymdeithas y Byddar, Theatr Bara Caws: £25 yr un.

Cyflwynwyd sylwadau y Comisiynydd Dros Gymru ar y Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd yn Nhachwedd 2001 a phenderfynwyd mabwysiadu Côd Engreifftiol y Cynulliad.

Penodwyd y Cynghorwyr Meinir Thomas ac Arwel Ll. Thomas i gynrychioli'r Cyngor ar bwyllgor Caeau Chwarae Llanrug.

Derbyniwyd pris Mr Gareth McGuinness am atgyweirio ffenestr cwt y fynwent.

Gwnaed sylw bod angen symud ffens sy'n rhwystro'r llwybr rhwng Llety Llwyd a Teras Minffrwd.

Penderfynwyd gofyn i Gyngor Gwynedd a oes modd iddynt osod cysgodfan bwsiau yng Nghwm y Glo gan iddynt fynd a'r un gwreiddiol oddi yno cyn atgyweirio'r wal.

Ffordd Osgoi Caernarfon – penderfynwyd gofyn i Gyngor Gwynedd am ddyddiad cyfarfod rhwng y Cynghorau Cymuned â'r Sir i drafod y cynllun ac i gael mwy o wybodaeth.

Nodwyd sawl lleoliad i'r Clerc gysylltu â'r perchenogion, neu â Chyngor Gwynedd, lle mae angen twtio neu lle mae hen geir wedi eu gadael.

Materion Cynllunio. Nid oedd gwrthwynebiad i'r canlynol:

Estyniad – 6 Bryn Crwn, Cwm y Glo; Goleuo Arwyddion Siop Spar Llanrug.

Penderfynwyd gwrthwynebu: Datblygiad preswyl – Ceir Cwm, Cwm y Glo; Rhesymoli 18 carafan sefydlog, 32 carfan deithiol ac ymestyn y cyfnod – Parc Carafannau Plas Gwyn, Llanrug.

Dyddiad y cyfarfod nesaf fydd 21 Mai.

R.M. (DIC) PARRY

PEINTIWR AC ADDURNWR

PRISIAU RHESYMOL

TAWELFA, PENISARWAUN
Ffôn: (01286) 870846

Royal Victoria Hotel

LLANBERIS

Mae'r gwesty yn darparu ar gyfer
PRIODASAU • PARTÏON • DATHLIADAU ac ACHLYSURON ARBENNIG

CYFLEUSTERAU CYNHADLEDDAU a PHWYLLGORAU

BWYDLEN BAR a CHINIO DYDD SUL

Ffôn: (01286) 870253

J.M. JONES A'I FEIBION

GWAITH CERRIG BEDDAU

Y Sgwâr Llanrug

Crefftwyr gwaith llaw traddodiadol Cerrig o bob math ar gael –

Ffôn: (01286) 672898 (dydd) 676285 (nos)

Mary Vaughan Jones



Ar Ebrill 2002 tra ar wyliau yn Sbaen gyda'i brawd, Mr Edgar Parry (oedd gynt yn llawfeddyg adnabyddus yn Lerpwl) a'r teulu, bu farw Mrs Mary Vaughan Jones.
Dyma'r deyrnged dalwyd iddi gan R. Gwynn Davies o flaen torf fawr o gyfeillion yn y gwasanaeth angladdol yng Nghapel Bethel MC, Waunfawr.

* * *

Braint na fynnwn mohoni ydi'r fraint yma sydd wedi dod i fy rhan i heddiw, i geisio talu teyrnged i Mary.

Pan ofynnodd Edgar i mi wneud hyn, roeddwn i'n sylweddoli y byddai'n dasg anodd, a phan soniais i wrth gyfaill, ei eiriau oedd, 'Yn lle ar wyneb y ddaear wyt ti'n mynd i ddechrau.'

Mewn gwirionedd, hawdd iawn yw dechrau trwy sôn am ffeithiau moel ynglŷn â'i bywyd, ond sut mae modd i mi, na neb arall, gyfleu sut berson oedd hi mewn gwirionedd na chrynhoi, mewn ychydig funudau, rhyw syniad o'r holl waith wnaeth hi.

Un o ddau o blant Mr. a Mrs. G. H. Parry, Plas Glanrafon, chwaer Edgar, aeth i ysgol y Waun, i Ysgol Sir Gaernarfon, Coleg Aberystwyth, athrawes yn Ysgol Bryn Refail, Priodi Wil Fôn, – Mr. William Vaughan Jones, i roi ei enw'n barchus, a chartrefu yn Hafod y Coed, – colli ei phriod pan fu Wil farw yn sydyn yn 1978.

Ffeithiau moel am un oedd yn cael ei hadnabod am flynyddoedd fel Mary Plas, ac yna fel Mary Fôn, neu Mary Hafod y Coed, a phan ydw i'n defnyddio'r gair 'adnabod' rydw i yn sôn am filoedd o bobl ar hyd a lled Cymru a'r byd oedd wedi dod i gyffyrddiad â hi mewn rhyw ffordd neu'i gilydd.

Fel y digwyddodd, roedd anian Wil Fôn a hithau yn cyd-redeg yn wyrthiol o agos. Y ddau tu hwnt o alluog a'u diddordebau yn rhyfeddol o debyg

Roedd hanes ac archaeoleg a'u perthynas â'r hil yn bwysig iawn iddynt. Roedd y ddau yn gwybod llawer mwy na neb arall am hynafiaethau'r ardal yma – yn hanes pobl a theuluoedd, adeiladau ac adfeilion a'r amgylchedd. Rydw i'n cofio y ddau yn mynd i'r afael â'r Comisiwn Coedwigaeth ac yn llwyddo i'w rhwystro i blannu coed ar safle ffynnon Garmon a'r Capel anwes ar ochr y Mynyddfawr uwchben Betws Garmon. Ar ôl marw Wil fe gofnododd Mary beth o'r hyn yr oeddynt wedi ei ymchwilio mewn llyfryn 'Yr Hen Waun'. Bu Mary yn ddigon caredig i roi llawer o ddogfennau pwysig – yn cynnwys copïau gwreiddiol dramâu Wil Fôn i Amgueddfa Antur Waunfawr. Fe gawsom hefyd gyfrol yn cynnwys casgliad o erthyglau ganddi a gyhoeddwyd yn *Y Gwyddonydd* – erthyglau sy'n arddangos mor drwyadl oedd ei hastudiaeth ac mor rhyfeddol o eang oedd ei gwybodaeth yn ei maes proffesiynol ei hun.

Roedd hi beunydd yn chwilio'r tŷ ac yn dod a rhywbeth i'r amgueddfa y dylid ei ddiogelu er budd yr ardal.

Fe gafodd Duncan Brown e.mail oddi wrth Maria, cyfeilles i Mary o Hungary – byddai'r ddwy yn cyfarfod yn aml – un ai yn Hungary neu'r Waun.

Dyma ran o gynnwys y ddogfen

I am very very sad. You must know she was part of my life. She was an expert on Hungary... so many memories come up... it is very difficult to speak about. How did it happen... what plant was on the top of the hill, or what animal needed special 'attention'?

Y chwilfrydedd yma, a'r awydd i wybod mwy a mwy am bopeth oedd, mi gredaf, y sbardun wnaeth iddi deithio'r byd – a gwneud hynny yn y modd mwyaf anturus. Nid 'package tours' oedd y dull i ymweld â'r lleoedd mwyaf diarffordd, a gwneud ffrindiau hefo pobl a cheisio deall eu gwahanol ffyrdd o fyw. Fe fyddai'n ddiddorol gwneud rhestr o'r lleoedd y bu yn ymweld â hwy, pe bai hynny yn bosibl. Byddai yn haws enwi y gwledydd na fu ynddynt.

Efallai nad oedd y teithio anturus yma yn rhywbeth od – roedd hi o hil John Evans – hogyn o'r Waun oedd yn un o bennaf anturiaethwyr Cymru trwy'r oesoedd. Roedd hi'n falch o'r hyn gyflawnodd o ac fe fu yn chwilio am ddogfennau o'i hanes ym Mhrifysgol Yale yn yr Amerig ac yn Llyfrgell Seville yn Sbaen.

Wnaeth Mary ddim gadael i broblemau hefo iechyd na mynd yn hŷn lesteirio dim ar yr hyn yr oedd eisiau wneud. Fe brynodd hi a mi gompiwtars beth amser yn ôl. Fe ddechreuodd gael hwyl ar y peiriant wrth chware 'solitaire' ac fe'm dysgodd innau. Ond aeth Mary ymhellach, ac yn 83 mlwydd oed, roedd hi yn mynd i ddosbarthiadau proffesiynol ddwywaith yr wythnos i ddysgu sut i ddefnyddio'r anghenfil yn iawn, – a hynny ynghanol ei phrysurdeb arall. Pe bai wedi cael byw fe fyddai wedi rhoi help llaw i minnau.

Wrth golli Mary, ryda'n ni wedi colli yr un oedd yn gwybod mwy na neb arall am y Waun yma – hanes yr ardal, ei thrigolion a phopeth oedd ynghlwm wrth y lle. Roedd ganddi gonsyrn am bopeth oedd a wnelo a'r lle. Yn ddiweddar fe ddaeth ataf mewn dipyn o stem – 'Mae colofn Owain Gwyrfai wedi mynd o'r hen fynwent,' meddai, 'y golofn bwysicaf oedd yno.' A mi perswadiodd fi i ymchwilio. Mi sylweddolais innau fod y golofn yn parhau i fod yn y fynwent ond fod eiddew wedi ei gorchuddio fel nad oes dim ohoni i'w gweld. Pan glywodd hyn, ei hymateb oedd 'Mae eisiau dod a hi oddi yno a'i gosod yn ymyl colofn goffa John Evans yn yr Antur er mwyn iddi gael ei pharchu. Yn rhyfedd iawn – pan oedd Mary yn Sbaen y daeth dogfennau o'r awdurdod eglwysig i mi yn rhoi manylion sut i wneud cais i gael y garreg.

Tydw i ddim am fanylu ar fywyd cyhoeddus Mary – fe fu yn gwasanaethu dros yr ardal ar hen Gyngor Arfon, ac wn i ddim faint o swyddi fu'n gyflawni hefo Merched y Wawr, ac yn y blaen. Yr hyn y medra i ei bwysleisio wrth derfynu ydyw mai y pentref a'i draddodiadau a'r gymdeithas bentrefol oedd yn cyfrif mwy na dim.

Wrth wasanaethu y cylch roedd hi'n gwybod mai dyna'r ffordd y gallai roi y gwasanaeth gorau i Gymru.

Toedd hi, mwy na minnau, ddim yn grefyddwyr hynod o uniongred, ond roedd hi mor ffyddlon â neb i'r oedfaon, ac fe deimlir colled fawr ar ei hôl. Roedd hi'n un o gyfarwyddwyr Antur Waunfawr, ac yn gefn i'r mudiad. Mae chwithdod mawr ar ei hôl yn barod – yn arbennig yn y caffi lle roedd yn dod â'i chyfeillion bron yn feunyddiol.

Y sgwrs olaf ges i hefo Mary oedd yn y Capel cyn iddi gychwyn am Sbaen. 'Peidiwch a bod yn hir Mary,' meddwn 'Fydda i byth yn hapus pan fyddwch i ffwrdd o'r Waun.'

Y drafodaeth olaf ges i hefo hi oedd rhyw fis ynghynt pan glywsom fod y Capel wedi ei brisio yn £50,000, a minnau yn dweud wrthi nad oedd gan Antur Waunfawr yr arian i'w brynu – heb sôn am ei ymgeleddu. Ei hymateb oedd 'Mae holl draddodiad y Waun ynghlwm wrth y lle yma, a fynnwn i er dim iddo fynd rhwng y cŵn a'r brain. Fe fydd 'rhaid ceisio ei gadw er mwyn y gymdeithas.' Fe fuon yn trafod beth ellid ei wneud â'r lle fel adeilad aml-bwrpas. 'Ylwch,' meddai, 'mi ddylem ni sefydlu cronfa a chael rhyw gymdeithas o "Gyfeillion Antur Waunfawr" a gofyn am gyfraniadau i brynu'r adeilad. Rydw i'n siwr y daw yr arian i mewn.'

Dyna swm a sylwedd y drafodaeth olaf ges i hefo Mary.

Mae Gwyn Erfyl, wnaeth sawl rhaglen deledu hefo Mary, yn gofidio na all fod yma heddiw ac, hefo'i allu dihafal, fe lwyddodd mewn brawddeg i grynhoi yr oll ddywedais i.

'Roedd Mary yn llawn cywreinrwydd, yn ferw o frwdfrydedd, yn ieuanc ei hysbryd ac mewn cariad â'r cread.

Rydach chi fel teulu wedi cael colled a loes.

Mae'r ardal wedi colli ei dinesydd pwysicaf.

Mae yna gyfeillion i Mary, yma, trwy'r wlad, a thros y byd, fydd yn gofidio, ac mae Cymru wedi colli un oedd yn ei charu ac wedi gweithio trosti yn llawer caletach na'r rhelyw ohonom.

Cydymdeimlwn â chi, Edgar, a'r teulu yn eich colled. Rwy'n siwr y cytunwch y byddwn ninnau, mewn ffordd wahanol, yn rhannu'r golled honno. Mae Mary yn gadael bwlch na chaiff byth ei gau.

BETHEL

Geraint Elis, Cilgeran. Ffôn: (01248) 670726

Camera yn ngofal Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl. Ffôn: (01248) 670115

DIOLCH. Dymuna Seiriol a Beti Owen ddiolch i'r teulu, cymdogion a ffrindiau am y llu cardiau ag anrhegion a gawsant ar achlysur eu Priodas Ruddem.

DIOLCH. Dymuna Wil a Nora Parry, Wilnor, Ruth a Nic ddiolch o galon i gymdogion a ffrindiau am y cardiau, anrhegion a'r dymuniadau da ar enedigaeth Daniel.

LLONGYFARCHIADAU i Gareth a Manon Griffiths ac i Taid a Nain ar enedigaeth merch fach, Gwenllian Dauncey. Pob dymuniad da i'r teulu.

CAPEL Y CYSEGR. Yn ystod y mis diwethaf bu nifer o ferched yn casglu tuag ar Genhadaeth Sasiwn y Chwiorydd a chyflwynwyd y swm o £182 i Drysorydd Cylch Arfon. Hoffai'r Swyddogion ddiolch yn fawr iawn i'r rhai fu'n casglu ac hefyd i bawb am eu cyfraniadau.

LLWYDDIANT CERDDOROL. Llongyfarchiadau i'r ddau ganlynol ar eu llwyddiant yn yr Ŵyl Offerynnol, Eisteddfod Môn yn ddiweddar: Rhys Wyn Hughes, Erddig yn ennill y wobr gyntaf a Siôn Garth Owen, Tŷ'r Ysgol y drydedd wobr, y ddau am chwythu corn i ddisgyblion Bl. 7, 8 a 9. Mae Rhys yn aelod o Seindorf Llanrug a Siôn yn aelod o Seindorf Porthaethwy.

EGLWYS LLANDDEINIOLEN. Nos Sul, 23 Mehefin am 7 o'r gloch yn Eglwys Llanddeiniolen cynhelir Cymanfa Ganu dan arweiniad Robin Jones, Bethel gyda eitemau gan blant yr ysgol, Grŵp Cadeirlan Bangor ac 'Angel Voices' o'r Felinheli. Pris mynediad fydd £2 gyda'r plant yn cael mynediad am ddim. Croeso cynnes i bawb.

CLWB BRO BETHEL. Doniol a diddorol iawn oedd 'Celwydd Golau', sef testun trafod Mr Hugh J. Hughes, y gŵr gwadd yng nghyfarfod y Clwb brynhawn dydd Mawrth, 7 Mai.

Diolchodd Mr Selwyn Griffiths ar ran aelodau'r Clwb.

Cyflwynodd y Llywydd, y Parch Gwynfor Williams, rodd o £200 i'r Clwb er cof am y ddiweddar Mrs Gracie Williams, Bro Rhos, a fu'n aelod ffyddlon o'r Clwb.

CASGLIAD CYMORTH CRISTNOGOL. Roedd casgliad eleni yr uchaf eto ym Methel. Yn ystod yr wythnos casglwyd cyfanswm o £645 tuag at yr achos da hwn.

Diolch o galon i'r holl gasglwyr ac, yn arbennig, i bawb a gyfrannodd mor hael.

DAMWAIN. Mewn damwain gas nos Sadwrn, 11 Mai, anafwyd Iwan Hughes, Tŷ Cerrig, Garn-dolbenmaen (Cae Rhos, Bethel gynt) yn ddifrifol iawn. Mae ein gweddïau i gyd gyda'r teulu gan obeithio gwellhad buan iddo.

MERCHED Y WAWR. Nos Fercher, 8 Mai, ar noson braf o wanwyn, aeth y gangen ar daith gerdded i Gelli Gyffwrdd. Cafwyd croeso cynnes iawn gan y staff ac, ar ôl anerchiad byr, cafwyd cyfle i grwydro o gwmpas i weld gwlân yn cael ei nyddu ac i geisio saethu gyda bwa a saeth. Roedd rhai yn hen law arni ac yn llwyddo i daro'r targed bob tro. I ddiweddu'r noson mwynhawyd paned a chacen yn y caffi.

Diolchodd y llywydd, Mair Read, i staff Gelli Gyffwrdd am eu croeso cartrefol ac am noson ddifyr ac amrywiol. Ar ôl trafod materion cenedlaethol a rhanbarthol aeth ymlaen i longyfarch Nora Parry ar ddod yn nain i Daniel James, mab i Ruth a'i phriod, a Bet a Siriol Owen ar ddathlu eu Priodas Ruddem. Enillwyd y raffl gan Gwyneth Jones. Atgoffwyd yr aelodau bod Pwyllgor yr Anabl yn cynnal Bore Coffi yng Nghapel Ebeneser, Caernarfon ddydd Gwener, 31 Mai am 10 o'r gloch.

Y mis nesaf bydd y gangen yn terfynu gweithgareddau'r flwyddyn gyda 'Taith Ddirgel a Sgram'. Pris y noson yw £13. Enwau i Mary, Rhian neu Mair erbyn 2 Mehefin fan bellaf.

PLYGU'R ECO. Cofiwch mai twrn Bethel ydi i blygu'r Eco mis nesaf. Taer erfynnir ar bawb all ddod, i ddod i'r Neuadd erbyn 6.30 nos lau, 27 Mehefin. Mwya'n y byd ddaw, lleia'n y byd fydd y gwaith!

Yr Ardd ym Mis Mehefin

Sut hwyl sydd ar yr ardd erbyn hyn?

Bu Ebrill a Mai yn garedig iawn, digon o haul a dipyn o law. Bydd garddwyr profiadol yn dweud bod angen cawod o law bob tridiau, gan fod y gwyntoedd a geir yn sychu'r pridd yn fuan iawn. Fel y cân yr emynydd: 'Cawod hyfryd yn y bore, ac un arall y prynhawn, ...i egino'r egin grawn'. Yr unig anfantais ydi bod glaw yn gwneud i'r lawnt dyfu'n gyflym a gwaith diflas ydyw torri'r borfa, gwaith tacluso ond dim i'w weld amdano ond taclusrwydd.

Y mae'r coed afalau a'r ceirios wedi bod yn hardd gan flodau, ond ffordd natur yw i'r gwyntoedd cryfion chwythu'r blodau er mwyn i'r afal dyfu. Natur yn gweud ei gwaith.

Byddai mamau yn dweud wrthym ers talwm: 'Peidiwch â mynd i ymdrochi i'r afon nes daw troad y rhod, rhag cael annwyd'. Mae hyn yn wir hefyd am blanhigion tyner, rhai sy'n eich denu i'w prynu yn y siopau, ond o'u rhoi allan cyn diwedd Mai, ni ddaw dim ohonyn nhw. Ond O! mae'n demtasiwn: y lobelia bach glas a'r alyssum gwyn, gyda'r myniawyd y bugail (geranium) yn y canol. Mae yna fath arall o geranium gwyllt sy'n dal y tywydd yn dda, yn hawdd ei dyfu ac yn ddigon del.

Mae'r peraroglau'n hyfryd: y leilac, y lafant pêr a'r rhosynnau, wrth gwrs, eu mis nhw ydi hi, dyma'r adeg o'r flwyddyn y maent ar eu gorau. Ond mae'r hen estron gwyllt o ddant y llew (fel y geilw Crwys y blodyn melyn). yn mynnu ymddangos ond mae'n rhaid cyfaddef ei fod yn flodyn bach digon del a gwn am un ffrind i mi, pan oedd prinder blodau eraill, yn hel tusw ohonynt, ond chawsai o ddim mynd dim pellach na ffenast y gegin.

Rhaid meddwl ymlaen llaw yn aml yn yr ardd, ac mae'n amser hau hadau blodau fel Sweet William, Clychau'r Perthi (Canterbury Bells), Blodau'r Fagwyr (Wallflowers), Glas y Gors (Forget me not) ac amryw o rai dwy-flwydd eraill.

Braf fydd cael eistedd yn nhywydd cynnes mis Mehefin i fwynhau lliwiau ac aroglau'r blodau. Maddeuwch y Saesneg ond cefais y pennill canlynol ar gerdyn:

'A kiss of the sun for pardon,
A song of the birds for mirth,
One is nearer God's heart in a garden
Than anywhere else on earth.'

Beth am gael cyfieithiad?

CYMANFA GANU

Eglwys Llanddeiniolen

Nos Sul, 23 Mehefin am 7 o'r gloch

Plant Ysgol Bethel
Grŵp y Gadeirlan Bangor
Cantorion 'Angel Voices' Y Felinheli

Canu cynulleidfaol dan arweiniad
Mr Robin Jones

Mynediad **£2**, (plant am ddim)

Gwynedd Hotel & Restaurant

Llanberis 870203

Ar agor trwy'r flwyddyn ar gyfer priodasau, dathliadau, bedydd, pen-blwydd a phob achlysur arbennig arall.
Gallwn drefnu adloniant – disgo a.y.y.b.
Bwrdd Pŵl ar gael
Bwydlen Bar a Restaurant
Trwydded lawn tŷ tafarn.

ARVONIA

LLANRUG Ffôn: 01286 675175

GWYLIAU CARTREF A THRAMOR

Cwmni teuluol gydag 20 mlynedd o brofiad o redeg Pecynnau Gwyliau oll-gynhwysol

STEPHEN JONES

Trefnwr Angladdau
Llanberis ac Ardal yr Eco

(01286) 870 870
(01286) 872 491
(07770) 265 976

Cwmni Annibynnol Lleol Profiadol

I Ffwrdd a'r Hen, i Mewn â'r Newydd

Yn ystod mis Ebrill eleni bu cryn newid oddi mewn i fusnes a sefydlwyd ar Stryd Fawr Llanberis rhyw ugain mlynedd yn ôl, ond sydd â'i wreiddiau yn mynd yn ôl ymhell dros gan mlynedd.

Ar 8 Ebrill fe drosglwyddodd Eifion a Gwyneth Roberts fusnesau Becws Eryri, Cegin Eryri a Siop Eryri i ddwylo newydd.

O Ebrill 8fed, y perchenogion newydd yw Julia Roberts ac Angela Dwyer. Mae Julia yn Gymraes ac yn tarddu o Gyffordd Llandudno ac Angela, er yn enedigol o Surrey, gyda chysylltiadauy ac Abertawe.

Mae Julia hefo cenfdir o weithio mewn gwestai a'r diwydiant ymwelwyr. Mae Angela wedi cael dros ugain mlynedd o brofiad helaeth yn y busnes arlwyo, yn cynnwys bod yn brif gogyddes am y pymtheng mlynedd diwethaf mewn rhai o dai bwyta blaenllaw Llundain.

Mae'r ddwy berchennog newydd yn bwriadu cario 'mlaen gyda'r Becws a'r Caffi fel ac y bu gynt, ond mi fydd yna gryn ncwid i Siop Eryri.

Mi fydd Becws Eryri yn dal i dderbyn eitemau i Eco'r Wyddfa.

Mae Gwyneth ac Eifion yn dymuno pob llwyddiant i Julia ac Angela yn eu menter newydd.

Hanes yr Adeiladau

Tŷ Eryri

Tybiwn i Tŷ Eryri fod yn ddau dŷ ar un amser, oherwydd y drefn tu mewn iddo, a'i fod wedi ei adeiladu yn nechrau'r Ugeinfed Ganrif.

Bu John Roberts (John Bach) yn byw yno, ac yn rhedeg busnes yn Cynric Stores (Siop Eryri). Mae llun gennyf o Siop Dickie (esgidiau) ym mharlwr Tŷ Eryri. Wedi marw John Roberts, bu ei fab Benson Roberts, yn byw yn y tŷ, gyda Benson yn athro a'i wraig yn rhedeg Siop Eryri. Ar ôl Benson Roberts daeth Ifan Wilson Hughes a'i deulu i fyw i Tŷ Eryri.

Becws Eryri

Fe fu Becws Eryri yn Siop Cigydd ers o leiaf 1922. Bu Roberts (Deiniolen) yno i ddechrau gyda Joan Jones a Jimmy James Jones, y ddau gigyddion diwethaf. Bu hefyd yn Siop Ffotograffydd am ychydig cyn i Eifion a Gwyneth ei throi yn Fecws yn 1984.

Cegin Eryri

Yn y 1920'au roedd Garej ar safle'r Gegin. Mwyaf tebyg mai lle i drwsio ceir a gwerthu paraffin yn unig ydoedd, gan na welais i erioed lun o bympiau petrol o flaen y garej. Ifan Wilson a'i wraig, Alice, a sefydlodd y busnes paent a phapur wal yno.

Siop Eryri

Mae hwn yn hen adeilad, ymhell cyn 1900. Cofiaf i Mrs Netta Jones (Netta Rowlands, Beehive) ddweud wrthyf mai'r Hen Beehive y gelwid yr adeilad ar un amser ac mai yn ddiweddarach y cafodd adeilad y Siop Spar bresennol yr enw Beehive.

Wedi inni ddechrau addasu Siop Eryri daethom ar draws arwyddion fod yr adeilad wedi bod yn dafarn ar un amser.

Dros y blynyddoedd fe fu Siop Eryri yn gartref i Benson Roberts a'i deulu, ac yn siop amrywiol (tegannau, da-da, anrhegion ymwelwyr, ayyb) gyda Benson Roberts, Mr a Mrs Ifan Wilson Hughes ac wedyn ni, Eifion a Gwyneth, yn ei rhedeg. Yn llc mae gardd Tŷ Eryri yn awr roedd gweithdy Saer yn ystod pedwardegau'r ganrif ddiwethaf, gyda Tecwyn Roberts (plymar) yn un o'r prentisiaid.

Ar frys y gwaethpwyd yr adroddiad byr yma o'r her adeiladau a'u preswylwyr – mae'n siwr fod gan nifer ohonoch daflenni o wybodaeth mwy cywir am y lle. Os oes amser gennych i roi'r wybodaeth ar ddarn o bapur busawn yn falch iawn ohono yn Sŵn y Gwynt, Padarn Road, Llanberis.

Eifion a Gwyneth yn barod i orffen Ebrill 2002.

Y Becws ar y cychwyn – 1984.
Alwyn Hughes, Paul Jones (Dakota) a Gwyneth Roberts.

Y Staff tua 1996.

Julia Roberts ac Angela Dwyer – y perchenogion newydd Ebrill 2002.

BEICS WIL

BEICIAU NEWYDD
AC AIL LAW
• TRWSIO • CYNNAL
• PARTIAU

SIOP AROSFA, WAUNFAWR (01286) 650 723

GWASANAETH ARGYFWNG PLYMIO
24 awr y dydd – 7 diwrnod yr wythnos
PLUM24CYM
Gwaith Plymio - Gosod Ceginau a Bathrwms
Gwaith cynnal a chadw o bob math
Cysylltwch â DOUG JONES, BRON EIFION, WAUNFAWR
Ffôn: (01286) 650363 (0797) 0318996 (symudol)

Bethel 3 v Porthmadog 1

Y GAMP

Nos Fercher, 1 Mai 2002. Yr Oval, Caernarfon. Clwb Pêl-droed Bethel – yn eu tymor cyntaf ers ail-ffurfio – yn ymuno â Llanberis, Llanrug a Deiniolen fel enillwyr Cwpan Her Iau y Gogledd. O flaen torf o 650 cafwyd perfformiad clodwiw gan y ddau dîm, gyda safon llawer uwch na'r hyn a welir o Sadwrn i Sadwrn yng Nghynghrair Arfon. Yn sicr, roedd maes eang yr Oval yn galluogi'r ddau dîm i chwarae gêm basio, a'r bêl yng ngheg y gôl yn aml. Cafwyd gemau clòs rhwng y ddau dîm yn ystod y tymor, ac anodd fuasai proffwydo. Mae tîm Bethel yn adlewyrchu eu rheolwr, John Williams, gyda digon o galon i ymladd hyd y diwedd. Yn amlwg hefyd, roedd syniad o gynrychioli 'ardal' yn gryf, gyda nifer o chwaraewyr y pentref, o ffurfi'r clwb, wedi cael cyfle i ddod 'adref' i chwarae.

Y mae gôl gynnar yn dda i unrhyw gêm, gan ei bod yn mynnu fod y ddau glwb, yn enwedig mewn ffeinal, yn gorfod ymosod. I Fethel ddaeth y gôl gynnar, a hynny wedi tair munud. Paul Smith – yn dychwelyd wedi anaf – a Gavin Edwards yn cyfuno ar y chwith. Gavin, yr arch-sgoriwr, yn troi yn grëwr, a'i groesiad o'r chwith yn creu y trafferthion. Torrodd y bêl yn rhydd a Dewi Williams yn taro'r bêl i'r rhwyd o 15 llath.

Yr oedd ymateb Port yn bositif, a chyflymodd tempo eu gêm. Roedd Adrian Jones yn creu yng nghanol y cae ac yn rhoi sawl cyfle i Mathew Hughes. Cafodd Port 10 munud cryf iawn, gyda gwaith amddiffynnol ganol cae Bethel yn wan.

Yn y cyfnod yma daeth Nigel Griffiths yn gôl Bethel yn arwr. Cafwyd cystadleuaeth bersonol rhwng Nigel a Mathew Hughes ond y golwr a orfu. Cafwyd sawl arbediad cofiadwy i gadw Bethel yn y gêm. O flaen Nigel roedd Alan Williams a Jonathan Newell fel dwy graig ac o benderfyniad y tri yma, daeth gweddill y tîm yn fwy hyderus. Un agwedd amlwg yn yr hanner cyntaf oedd bod Bethel â chyflymdra i fyny'r cae, ac amddiffyn Port braidd yn drwsgwl.

Hanner amser a Bethel un ar y blaen.

Hen ystrydeb yw dweud mai gêm o ddau hanner yw pêl-droed. Os mai Port a reolodd yr hanner cyntaf, yna Bethel aeth â'r ail. Dechrau gwael i Fethel gyda Newell yn derbyn cerdyn melyn. Wedi pum munud o'r ail hanner, ail gôl i Fethel, a'r sgoriwr unwaith eto – Dewi Williams – ac am gôl. Golwr Port yn gwylio gormod ar Bartheg ac yn taro cic gôl yn syth at 'Frankie', rhyw 35 llath o'r gôl. Mewn chwinciad roedd dewin Cefn Gwyn wedi codi'i

ben a chrymanu'r be
golwr i'r rhwyd
freuddwyd yn troi'n

Ond sgôr rhyfedd
ôl y daeth Port, ac A
yn taro'r trawst o
noson Bethel oedd
Gyda Port yn me
daeth Bethel yn fw
wrth dorri. Roedd
Smith a Dewi Willia
dal a rhyddhau'
allweddol, a llw
ryddhau Gavin Ed
tro.

Roedd rhywun
rhwystredigaeth
cynyddu, a hyder h
yn dod i'r brig.
Schmichel, yn lle
Newell ac Alan yn

Trefor, Andrew a John – Cadeirydd, Is-reolwr a Rheolwr bodlon.

Alice ac Evan Wilson Hughes – cyn iddynt ymddeol yn 1983.

Bws o flaen adeilad Becws Eryri yn 1922. – Netta a Betty Rowlands sydd ar stepan y bws.



Y Garej lle mae Cegin Eryri rwan.

Llew Llwyfo

Yn dilyn darlith ddiweddar Hywel Teifi Edwards ar Llew Llwyfo yng Nghanolfan gymunedol Llanrug, cafwyd y nodiadau diddorol yma gan Mrs G. M. Jones, Dalar Deg Llanrug.

Bu Llew Llwyfo yn lletya efo fy nain yn Nhyddyn Rhuddallt pan oedd yn gweithio yng Nghaernarfon, a chefais lawer iawn o'i hanes ganddi. Yn wir y mae yna barlwr yn fy hen gartref a elwid yn 'Barlwr Llew' gan mai honno oedd ei ystafell. Yr oedd yn llenor, cerddor a newyddiadurwr, heblaw bod yn arweinydd eisteddfodol, gyda llais fel taran, – 'doedd dim fel meic sydd rwan.

Fe ddysgodd i Hugh Pierce, brawd fy mam adrodd, ac i Ann Mary, chwaer fy mam ganu, a byddai'r ddau'n cytadlu mewn eisteddfodau. Bu copi o un o'r caneuon a ganai ar gael, wedi ei chyflwyno i Anne Fair. Gymaint o sôn fyddai amdano ar yr aelwyd fel bod Alwyn Williams wedi galw ei gartref newydd yn 'Llwyfor'. Byddai rhai o'r pentref hefyd yn dod ato i ddysgu adrodd, a chlywais un a oedd yn ferch tafarn yn dweud y byddai'n dod â rhyw boteliad bach o rywbeth cryfach na dŵr yn dâl, – dyna oedd ei wendid.

Byddai'n darllen hyd berfeddion nos yng ngolau cannwyll, ac yn ddamweiniol fe aeth llenni'r ystafell ar dân, a nain yn poeni fod y genod yn cysgu yn yr ystafell wely uwch ben. O hynny ymlaen, penderfynnodd nain fynd â'r gannwyll oddi arno, ac yr oedd yn rhaid iddo fynd i'w wely yn y tywyllwch. Pan fyddai nain yn rhoi'r gorchymyn iddo, byddai'n rhuo fel taran, 'Ydi'r awr ddu wedi dod?'

Yr oedd gennym hyd yn ddiweddar bictiwr mawr 'Oriel y Beirdd', ond rhag ofn iddo fynd ar goll, rhoesom ef i Lyfrgell y Dref. Ysgwn i ydi o yno o hyd?

CHIROPODIST
Gwasanaeth yn eich cartref

E. Ll. Parry
M.S.S.Ch., M.B.Ch.A.

57 Glanffynnon
LLANRUG
Ffôn:
(01286) 675754

Cyngor Cymuned Llanddeiniolen

Mis Ebrill

Cyfarfu'r Cyngor Nos Fawrth, 9 Ebrill yng Nganolfan Ysgol Penisa'rwaun. Dechreuwyd trwy weddi gan y Cynghorydd Richard Llwyd Jones. Cadeiriwyd gan y Cynghorydd Len Jones.

Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod 5 Mawrth 2002.

Hysbysebwyd sêdd wag yn Ward Bethel. Hysbysebir sedd wag arall yn ward Deiniolen yn ystod mis Ebrill.

Cyflwynwyd atebion Cyngor Gwynedd ynglŷn â'r canlynol: Rhoir blaenoriaeth i ail-wynebu ffordd Gallt y Foel; y ffordd heibio i Eglwys Llanddeiniolen – gwaith clirio draeniau mewn llaw; y coed wedi eu torri ar ochr y ffordd ac o gwmpas y golau ger Perthi, Penisa'rwaun; Jesse James yn gyndyn o symud y cerrig gwyn o ochr y ffordd fawr. Nid oes tystiolaeth bod Cyngor Gwynedd yn gyfrifol am faes parcio Marchlyn Mawr, felly *Edison* sy'n gyfrifol am symud sbwriel oddi yno.

B4547 Cwm y Glo i Groeslon Tŷ Mawr – Cyflwynwyd y pamffled a gylchredwyd yn ddiweddar yn disgrifio'r ffordd yma fel y beryclaf yn yr ardaloedd. Penderfynwyd pwyso'r ffaith yma ar Wynedd. Trafodwyd hefyd y gyffordd gyda'r A4086: bu 8 damwain yno ers i'r gwaith ail-drefnu ddechrau. Teimlid bod y cynllun blaenorol yn ddiogelach.

Derbyniwyd cais oddi wrth y Cynghorydd Sir, Huw P. Hughes am gyfraniad ar gyfer lle parcio caled ar y llain tir ym mynedfa 'Stâd y Rhos, Bethel. Gwyntyllwyd yr un pryd amryw o leoliadau eraill o fewn y gymuned sydd angen gwelliannau. Penderfynwyd trosglwyddo'r cais i'r Grwp Cymunedol gyda'r gobaith y gellir sicrhau cyllid o ffynonellau eraill. Awgrymwyd paratoi rhestr blaenoriaethau, maes o law, fel bod cyfraniad cyfartal i bob pentref o fewn y gymuned.

Cyflwynwyd llythyr Mr Glyn Tomos ynghyd â rhestr o *gwestiynnau ynglŷn â'r cynllyn* arfaethedig yng Nglyn Rhonwy.

Penderfynwyd hysbysu Cyngor Gwynedd o'r diffygion canlynol:

Tai Arthur, Penisa'rwaun – ceir yn rhwystro mynedfa i'r Waun. Wal ar fin disgyn i'r lôn rhwng Afallon a Ty'n Fawnog, Dinorwig.

Peiriant gwagio carthffosiaeth y contractwyr yn rhy fawr i fynd at rai eiddo.

Rêfs yn cael eu cynnal yn y Barics, Dinorwig ac o'r herwydd ceir yn cau lôn Hafoty.

Angen cywiro arwydd o 'Carreg y Garth' i 'Carreg y *Gath*', Rhiwlas.

Atgoffa Gwynedd o'u haddewid i wneud llwybr troi i'r dde ar gyffordd y B4547 a lôn Winllan (Groesffordd Uchaf)

Gwnaed y sylwadau canlynol ynglŷn â llwybrau cyhoeddus a phenderfynwyd danfon cwynion i Gyngor Gwynedd:

Ty'n Llidiart, Rhiwlas – angen troi dŵr wyneb oddi arno.

Ger Siop Treflan, Bethel – eisiau ei oleuo a chlirio sbwriel.

Llwybr Sinc, Clwt y Bont – cerrig mawrion angen eu codi yn ôl i'r wal.

Pen yr Olchfa, Clwt y Bont – eisiau clirio draen.

Cae Corniog, Penisa'rwaun – atgoffa o'r cwynion blaenorol.

Dublin House i Pen'rallt, Dinorwig – traen wedi llenwi ger y domen lechi.

Adroddodd y Cadeirydd ar y fandaliaeth ddiweddar yn Stryd Fawr, Pentre Helen a Phorth y Gogledd, Deiniolen. Bwriedir gwahodd Prif Arolygydd yr Heddlu i gyfarfod y Cyngor.

Cynhelir y Cyfarfod nesaf ar 7 Mai.

Mis Mai

Cyfarfu'r Cyngor ar y 7 Mai. Cadeiriwyd gan y Cynghorydd Len Jones ac offrymwyd y weddi gan y Cynghorydd Richard Llwyd Jones. Cyfetholwyd y Cynghorydd Huw Pierce Hughes yn aelod dros ward Bethel. Cyflwynwyd dogfennau *Datgan Buddiant Achlysurol a Chyffredinol* yn ôl y Côd Ymddygiad. Derbyniwyd cofnodion y 9 Ebrill fel rhai cywir.

Penderfynwyd derbyn pris Mri G. L. Jones, Bethesda i atgyweirio'r cysgodfannau bwsiau yn Rhydfadog, Deiniolen â'r ddau leoliad ym Methel. Penderfynwyd danfon cerydd i'r Cynulliad am safon ieithyddol llythyr a dderbyniwyd ynglŷn â'r ffordd newydd o Archwilio Llywodraeth Leol. Dechreua'r y llythyr, "Ymhellach i ar y pryd

(Parhad ar dudalen 14)

DINORWIG

Miss Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig. Ffôn: 870292

CYMDEITHAS Y BEIBLAU. Cynhelir gwasanaeth Cymdeithas y Beiblau nos *Sul, 30 Mehefin am 6.00* o'r gloch yng Nghapel Cefnywaun, Deiniolen. Gwneir casgliad at yu Gymdeithas yn y cyfarfod. Trefnir bws i gychwyn o Ddinorwig am *5.30* ac yna i Benisarwaun.

DIOLCH. Dymuna Mr Andrew Griffith, Tan y Bwlch, ddiolch yn gynnes i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad ag ef ar farwolaeth ei chwaer, Mrs Sass Wiliams.

Diolch i Staff Cartref Foelas, Llanrug am y gofal a'r cariad a dderbyniodd Sass tra bu yn y cartref. Diolch yn fawr i bawb.

CYMANFA. Cynhaliwyd Cymanfa Dosbarth Padarn eleni yn Rehoboth, Nant Peris. Arweinydd y gân oedd Mr Arwel Jones, Penisarwaun; Llywydd y prynhawn oedd Mrs Valmai Pritchard, Llanberis a Llywydd yr hwyr oedd Mr Geraint Elis, Bethel. Wrth yr organ yr oedd Mr Gareth Jones, Llanberis. Cymerwyd y rhan agoriadol yn y ddwy oedfa gan blant ac aelodau Eglwys Rehoboth.

Llongyfarchiadau i'r canlynol: Lliwen Morris, Derry Jane Sinclair, Gwenno Morris, Sioned Mair Phillips a Donna Phillips, i gyd wedi dod i'r dosbarth cyntaf hefo marciau llawn. Rwyf yn siwr bod ein diolch yn fawr i Mrs Katie Lloyd Hughes am gynnal yr Ysgol Sul yn ei chartref a chymryd yr amser i ddysgu'r plant. Diolch yn fawr Mrs Hughes a llongyfarchiadau i chwi blant. Daliwch ati.

TIPYN O STAD. Llongyfarchiadau i Anna Medi, merch fach Mr a Mrs Dylan Lewis, 3 Bro Elidir am gael ei dewis i ymddangos ar y rhaglen uchod, sydd ar S4C ar hyn o bryd.

Y GANOLFAN. Ers y cyfarfod olaf o Bwyllgor y Ganolfan, pryd y cafwyd dipyn o drafodaeth am rai pethau sydd wedi cymryd lle, ac hefyd am bethau sydd i ddod, pasiwyd yn eithaf pendant fod yn rhaid i bob aelod o'r pwyllgor gadw at y set o allweddau oedd ei angen; a thrwy bleidlais pasiwyd fod un set yn ddigon.

Mae'r newidiadau yn fawr ond ni allaf ddatgelu mwy ar hyn o bryd.

Fe fydd y cyfarfod nesaf o'r pwyllgor yn y Ganolfan am 7.30 o'r gloch, nos Iau, 30 Mai. Erbyn y rhifyn nesaf o'r Eco gobeithio y gallaf ddatgelu mwy o'r newidiadau.

GARTREF O'R YSBYTY. Da deall for Mr Robert Williams, gynt o 3 Maes Eilian wedi cael dod adref o'r ysbyty yn Llandudno ar ôl derbyn llawdriniaeth. Da deall ei fod yn gwella.

Hefyd da deall fod Mrs Katie Lloyd Hughes, 2 Maes Eilian yn gwella ar ôl llawdriniaeth i'w llygaid. Brysiwch wella eich dau.

YN YR ARDD!
WIL G. ROBERTS
Bod Gwilym, Cwm-y-glo
Ffôn: (01286) 870674
GWASANAETH PENIGAMP AM BRIS RHESYMOL

Am Offer Tŷ a Gardd...
FORMAG
41A STRYD FAWR, LLANBERIS
Ffôn: (01286) 872501

Dewch i'r ganolfan newydd
am fargeinion dodrefn
CM DISCOUNTS
LLANRUG
yng Nghapel Mawr
LLANRUG
Ffôn: 674141
Ar agor: Llun – Sad 10-6; Sul 10-4
Rygiau, Cabinets, Byrddau, Cypyrddau dal llyfrau, Desgiau, Cadeiriau, Soffas, Gwelyau ayyb

CASTELL BOWNSIO
AR GYFER
POB ACHLYSUR
Down â fo atoch
a'i nôl wedyn
Ffôn: 871782

GORS BACH
PANEL
BEATING
SERVICE
yn LLANRUG
ar gyfer eich
holl anghenion
- Trin cyrff ceir
- Gwaith Mecanyddol
- Gwasanaeth/Service
- *Valleting*

(01286) 870814

LAWN i'r Ardal

Iwan ac Alan yn codi'r Cwpan

Tîm Bethel:
Nigel Griffith, Owain Sion Williams, Shaun Davies, Jonathan Newell, Alan Williams, Andrew Davies, Dewi Williams, Iwan Trefor Jones, Barry Lund, Gavin Edwards, Paul Smith.
Eilyddion: Alwyn Williams, Ricky Williams, Mathew Gosett, Sion Stokes a Gavin Roberts.
Am ddiwedd i'r tymor cyntaf!

Y Daith i'r Oval
v Sychdyn (ff) 6-4
v Caergybi (ff) 4-0
v Cricedwyr Llandudno (ff) 6-2
v Point of Ayr (g) 5-0
Gyn-derfynol
v Amlwch (yn Llangoed) 1-0

Unig siom y noson: Rhaglen swyddogol yn hollol uniaith Saesneg.



dros ben y
2-0 a'r
realiti.
yw 2-0. Yn
drian Jones
5 llath. Ai
hi i fod?
ntro mwy
y peryglus
rofiad Paul
ms yn gallu
bêl yn
yddwyd i
wards sawl

yn gweld
Port yn
ogia Bethel
Nigel, fel
nwi'r gôl;

ac Andrew Davies yn ennill popeth yn yr awyr.

Yna, pum munud da i Fethel. Alan Williams yn taro'r trawst o beniad o gic cornel, ac Owain Sion, yn anffodus, yn gweld ei 'gôl' yn cael ei gwrthod. Buasai hyn wedi coroni'r achlysur i 'fabi'r tîm', sydd wedi chwarae ac aeddfedrwydd trwy'r tymor. Yn wir, wedi 81 munud, pas hir Owain dros yr amddiffyn yn rhyddhau Gavin Edwards, ac yntau yn rhwydo. O bosib roedd hyn yn ddigon.

Yn ôl y daeth Port a chafwyd wyth munud olaf rhyfeddol. Anfonwyd Jonathan Newell o'r cae a llifodd Port ymlaen yn donnau. Irfon Hughes, un o hogiau Llanddeiniolen, yn rhywdo yn erbyn ei 'fêts'. Adrian Jones yn crafu'r trawst o gic rydd a Nigel yn coroni perfformiad gwych gydag arbediad campus o daran o ergyd Michael Moore. Yna'r chwiban olaf.

Roedd bechgyn y pentref ar ben eu digon. Gyda balchder aeth Alan Williams ac Iwan Jones – bachgen o Port – i fyny'r grisiau i dderbyn y tlws. Derbyn y tlws ar ran y tîm, y swyddogion a'r ardal. Pob un yn arwr, ac ennill y Cwpan yn rhoddi sylfaen i'r clwb uchelgeisiol hwn symud ymlaen yn hyderus.



Gôl a Chwpan – Frankie wrth ei fodd.

Rhagflas Gwych

Tîm dan 11 Bethel

Cafwyd arbrawf llwyddiannus cyn y 'gêm fawr'. Trefnwyd gêm rhwng timau dan 11 Bethel a Phorthmadog a chafwyd gêm safonol iawn, gyda lefel sgiliau i'w canmol. Gwelwyd defnydd da o basio a chreu lle. Braf gweld hefyd nifer o'r chwaraewyr yn barod i geisio curo gwrthwynebydd drwy 'driblo'. Yr oedd yn amlwg hefyd fod cyflymdra erbyn hyn yn elfen bwysig yn y gêm fodern. 2-2 oedd y sgôr derfynol gyda Gruffydd John yn rhwydo ddwy waith i Fethel, a Jack Jones a Guto Davies yn ymateb i Port. Rhaid canmol pob un, a'r hyfforddwyr, am eu hagwedd iach. Diolch i'r dorf hefyd am greu awyrgylch gadarnhaol, gefnogol i'r bechgyn. Gyda llaw, un i'w wylio: Aled Griffiths o Fethel – chwim, dwy droed, cyfforddus ar y bêl a gwên lydan ar ei wyneb. Diolch blant am osod sylfaen wych i noson gofiadwy.

Cyngor Cymuned Llanddeiniolen

(Parhad o dudalen 13)

hwnnw ymarfer ymgynghoriad diweddar ar y diwygio....." a gorffennir, "Unwaith i'r fersiwn HMSO o'r Rheoliadau wedi cael ei greu bydd yn cael ei flaenyrru am eich gwybodaeth", rhywbeth yn debyg yw'r cnewllyn hefyd!

Trafodwyd cynnwys llythyr Mr Dafydd Wigley A.C. o ganlyniad i gyfarfod gydag Adran Priffyrdd Gwynedd ynglŷn â Ffordd Rhôs Wian, Penisa'rwaun. Amlygwyd amryw leoliadau eraill sydd angen eu gwella fel Ystad y Rhos, Bethel a llwybr cefn Rhes Marian, Deiniolen. Penderfynwyd i gynrychiolaeth o'r Cyngor gyfarfod â Swyddogion Gwynedd ar y safleoedd, holi ymhellach pa gyfraniad a ddisgwylir gan Gyngor Llanddeiniolen a pha grantiau neu gyllid cyfartal sydd ar gael at welliannau.

Penderfynwyd cefnogi'r ddeiseb oddi wrth drigolion Trem Eryri, Bryn'refail, i Wynedd am dawelyddion trafnidiaeth ym mynedfa'r Ystâd. Cyhoeddwyd cyfarfod Rhanbarth Gogledd Cymru o'r Cynulliad a gynhelir rhwng deg ac un o'r gloch ddydd Gwener y 24 Mai, penderfynwyd cwyno eto bod hwn yn amser anghyfleus i'r rhai sy'n gweithio.

Cyfeiriwyd at lwyddiant yr Amgueddfa Lechi, Llanberis a phenderfynwyd gofyn a fuasai modd cynnwys *Craig yr Undeb* fel rhan o'r Amgueddfa.

Cyfeiriwyd at leoedd sy'n rhy gul i gerbydau arferol y gwasanaethau brys. Dywedodd y Cadeirydd bod rhestr o'r lleoliadau yma ym meddiant y gwasanaethau eisioes, ar gyfer danfon cerbydau llai ond buasai'n barod i ychwanegu ati lle bo angen.

Penderfynwyd dwyn sylw Gwynedd at y canlynol:
Cyffordd, Ffordd Califfornia/ Allt Sam, Clwt y Bont – polyn trydan mewn safle peryglus a chebl yn rhydd arno.
Rhiwen – polyn goleuo/ffôn/ trydan yn gwyro.
Eu hatgoffa o gyflwr llwybr Cae Corniog a Rhos Wian/Waun Penisa'rwaun.
Cwter wedi cau ger Tal y Waun, Deiniolen.

Trafodwyd yn helaeth brisiau tai â'r effaith ar ieuenctid lleol sy'n awyddus i brynu ac aros yn yr ardal a sgîl effaith hyn ar y Iaith. Penderfynwyd neilltuo rhan o gyfarfod y dyfodol at drafodaeth bellach pan ddaw dogfen gynllunio Gwynedd i law.

Adroddiadau
Grŵp Cymunedol
Ymholiadau ar y gweill am gymorth ariannol at amryw o gynlluniau arfaethedig
Adfywio Deiniolen
Disgwylir brîff ar y Neuadd Gymunedol cyn diwedd Mehefin.
Tîm Pêl-Droed Iau, Bethel
Adroddwyd ar eu llwyddiant yn ennill Cwpan Iau Arfordir Gogledd Cymru. Penderfynwyd danfon gair i'w llongyfarch ar ran y gymuned gyfan.

PRYD I BAWB

Bwffe blasus o safon at bob achlysur

CINIO BUSNES

BEDYDD

PEN-BLWYDD

TE ANGLADDAU

CERID MACKINNON
(01286) 673190

Ffilmio yn Eryri



Dyma lun diddorol o'r 'set' a adeiladwyd yng nghyffiniau Beddgelert ar gyfer y ffilm 'Inn of the Sixth Happiness'. Oes rhywun yn gallu cofio pryd y gwnaed y ffilm? Gwell byth – a oes rhywun yn barod i adrodd stori neu ddwy am eu hanes yn gweithio fel 'extras'? Gwyddom fod llawer un o ardal yr Eco wedi gwneud hynny.

Cyngor Cymuned Llanberis

Cynhaliwyd cyfarfod o'r Cyngor ar nos Iau, 16 Mai yn 'Angorfa', Llanberis. Etholwyd y Cynghorydd Dei Tomos yn Gadeirydd am y flwyddyn 2002-2003 a'r Cynghorydd Helen Sharp yn Is-gadeirydd. Cyflwynwyd y Fantolen Ariannol am y flwyddyn 2001-2002 ac fe'i derbyniwyd fel cofnod cywir o dderbyniadau a thaliadau'r Cyngor am y flwyddyn ariannol.

Adroddwyd fod y gwaith o beintio Amgueddfa T. Rowland Hughes wedi ei gwblhau, a llongyfarchwyd Iwan Morris am waith graenus a glanwaith.

Derbyniwyd adroddiad gan y Clerc am gyfarfod cyhoeddus a gynhaliwyd yng Nghwm y Glo ynglŷn ag ymestyn Lôn Las Peris, ac adroddwyd y byddai'r cyfarfod cyntaf o'r grwp gweithredol newydd yn cyfarfod ar nos Iau, 23 Mai.

Diolchwyd i'r Cynghorydd Derek Jones am gyfarfod â swyddog o Gyngor Gwynedd i drafod gosod arwyddion ar stadau tai'r pentref. Disgwylir y bydd chwe wythnos o amser cyn y dechreuir eu gosod.

Penderfynwyd cysylltu â Chyngor Gwynedd ynglŷn â phroblem *Japanese Knotweed* ar Gae Chwarae Frondeg, gyda'r gobaith o'i glirio o'r safle cyn iddo gael gafael yn ystod y tymor tyfu.

Derbyniwyd ateb ynglŷn â dŵr gorlif ym Mhentre Castell, a gobeithir datrys y sefyllfa yn weddol fuan.

Ystyriwyd dau gais cynllunio. Nid oedd gwrthwynebiad i gais am adeiladu dau dŷ ar libart Sŵn y Gwynt, ond penderfynwyd gwrthwynebu'r cais am godi tŷ yng ngerddi Castle View, yn unol â phenderfyniad blaenorol ar sail diogelwch trafnidiaeth ar ffordd a chyffordd gul ger Ysgol Dolbadarn.

Penderfynywd cysylltu unwaith yn rhagor â Chyngor Gwynedd ynglŷn â gwaith adfer y llwybr cyhoeddus ger Pont y Meibion, Nantperis, yn dilyn erydu difrifol gan yr afon.

Etholwyd y Cynghorydd Douglas Pritchard i fod yn bwynt cyswllt i'r Cyngor ynglŷn â llwybrau cyhoeddus. Penderfynwyd hefyd ofyn i Gymdeithas y Cerddwyr ohebu yn Gymraeg â'r Cyngor o hyn allan.

Derbyniwyd llythyr yn pryderu am ddifrod i eiddo gan y geifr gwyllt yng nghyffiniau Nantperis. Cytunwyd fod y geifr eleni yn crwydro llawr y dyffryn yn amlach na'r blynyddoedd a fu, yn hytrach na chadw i'w cynefinoedd ar y tiroedd mynyddig. Penderfynwyd cysylltu â'r Parc Cenedlaethol, y Cyngor Cefn Gwlad a Chyngor Gwynedd i fynegi pryderon ynglŷn â hyn.

Gofynnwyd i'r aelodau baratoi rhestr o bryderon yr hoffent eu trafod â'r Heddlu, a'u cyflwyno i'r Clerc erbyn y cyfarfod nesaf. Gobeithir trefnu cyfarfod arbennig gyda swyddogion yr Heddlu yn ystod diwedd Mehefin neu ddechrau Gorffennaf.

Unwaith yn rhagor, apelir ar i siopwyr y Stryd Fawr beidio â gosod rhwystrau ar y palmant, a chysylltir â'r swyddog perthnasol ar Gyngor Gwynedd ynglŷn â hyn.

Bydd y cyfarfod nesaf o'r Cyngor yn cael ei gynnal ar nos Iau, 20 Mehefin yn 'Angorfa' am 7.00 o'r gloch.

PENISARWAUN

Mrs Ann Evans, Sycharth. Ffôn: (01286) 872407

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263

YR YSGOL GYNRADD.
Ar Fai 1, cafodd y plant y profiad ardderchog o gael perfformio i Neuadd lawn a hynny yng nghwmni aelodau'r Urdd a John Eifion a Marina. Diolchir i Einir Griffith am eu hyfforddi mor dda ac i Marina am hyfforddi aelodau'r Urdd.

Codwyd y swm anrhydeddus o £509 drwy Liwio Noddedig yng ngofal Cyfeillion yr Ysgol. Diolchir i'r Cyfeillion am eu gwaith caled a'u parodrwydd i godi arian er budd yr ysgol.

Bu Blwyddyn 3 a 4 ar ymweliad â Chapel Bosra ac Eglwys Santes Helen yn dilyn y thema, 'Fy Mro'. Mawr ddiolch i Anti Meri a Mr Evie Jones am sgwrsio â'r plant. Bu'r ymweliadau yn fendithiol iawn.

Fe dreuliodd Blwyddyn 5 a 6 amser difyr yn Oriel Bangor yn gwneud 'Collage' am eu 'Bro – Ddoe a Heddiw'. Bu'n drip Celf a Hanes arbennig o dda.

Fe fwynhaodd CAI stori ddifyr gan Catrin Aran.

Anfonir dymuniadau gorau am wellhad buan i Mr Robat Humphreys.

Anfonir dymuniadau gorau hefyd gan holl staff a phlant yr ysgol i Jên Jones sy'n priodi ar dydd Sadwrn, 24 Mai.

TRIP Y PENSIYNWYR. Trefnir trip o gwmpas Pen Llŷn a chael te yng Nghricieth, ddydd Sadwrn 15 Mehefin. Bydd y bws yn cychwyn o giât yr ysgol am 1 o'r gloch. Telir holl gostau'r trip o Gronfa Pensiynwyr Penisarwaun.

PROFEDIGAETH. Cydymdeimlir yn ddwys iawn â Mrs Gwyneth Jones, 6 Llys y Gwynt ar golli ei brawd, Mr Idris Roberts o Fangor.

UN AR HUGAIN OED. Pob dymuniad da i Siôn Jones, Perthi ar achlysur ei ben-blwydd yn 21 ar 22 Mai. Pob lwc i'r dyfodol Siôn.

GWELLHAD. Rydym yn anfon ein cofion a'n dymuniadau gorau i bawb sy'n sâl yn y pentref. Gobeithio fod Mrs Jennir Williams, Cae Corniog yn gwella wedi'i arhosiad yn yr ysbyty.

MERCH FACH!
Llongyfarchiadau i Marc a Ffiona, Tan y Ffordd ar enedigaeth eu merch fach, Catrin Elen, yn ddiweddar, chwaer fach i Ianto. Llongyfarchiadau hefyd i nain a taid, Pat ac Arnold. Pob hapusrwydd i chwi fel teulu.

DIOLCH. Dymuna Mrs Nan Evans, 26 Bryntirion, ddiolch o galon i'w theulu, ffrindiau a'i chymdogion am y toreth cardiau ac anrhegion a dderbyniodd ar achlysur ei phen-blwydd yn 80 yn ddiweddar.

Yr un modd, dymuna Mrs Ethel Jones, 6 Bryn Tirion ddiolch o galon i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am bob arwydd o garedigrwydd ar achlysur ei phen-blwydd yn 90 yn ddiweddar.

DYMUNA Dafydd a Manon Dafis, Golygfa'r Wyddfa, ddiolch i holl dirgolion Penisarwaun a'r cyffiniau am eu croeso a'u caredigrwydd dros y blynyddoedd.

Ein dymuniadau gorau ninnau i'r ddau ohonoch yn eich cynefin newydd. Gobeithio na fyddwch yn mynd ymhell a chofiwch fod croeso o hyd yma i chwi, unrhyw adeg. Pob lwc Dafydd a Manon.

CROESEWIR yn gynnes iawn Elen Wyn Jones i Golygfa'r Wyddfa. Byddwch yn siwr o setlo'n fuan yma, achos mae'n lle cartrefol a byrlymus iawn.

CROESO hefyd i Rhian, Llinos a Meinir i 4 Tai Bryn Hyfryd. Llongyferchir Rhian sy'n gweithio i'r Cylchgrawn *Golwg*, ar ennill Tystysgrif a Thlws BT am ei gwaith gyda *Golwg*.

CROESO hefyd i Mr Gareth Pritchard sydd wedi ymgartrefu yn 2 Tai Bryn Hyfryd.

Rydym mor falch o gael croesawu Cymry ifanc i'n plith. Cofiwch ymuno â'n hamrywiol weithgareddau.

FFARWELIO. Ffarwelir â Dr Jim Perrin, mynyddwr ac awdur llawer o lyfrau a cholofnydd i'r *Daily Telegraph*. Pob dymuniad da iddo yn ei gynefin newydd.

YSGOL SUL BOSRA. Dyma adeg prysur i'r aelodau a'r athrawon. Y maent eisoes wedi cyfrannu yng Nghymanfa'r Annibynnwyr yn Ebeneser a byddant yn cymryd rhan yng Nghymanfa'r Methodistiaid yng Nghapel Hirael, Bangor ar y Sul, 30 Mehefin am 2.00 o'r gloch. Fe drefnir bws.

Dymunir yn dda i Rhys Jones, Cae Corniog a llongyfarchwn ef am gael ei ddewis i arwain y gweithgareddau yn y Gymanfa. Pob hwyl, Rhys.

Gyda'r nos, 30 Mehefin, bydd y plant yn gymryd rhan yng Ngwasanaeth Cymdeithas y Beiblau yng Nghapel Cefnywaun, Deiniolen am 6.00 o'r gloch. Fe drefnior bws i gludo'r plant.

TRIP YR YSGOLION SUL. Bydd y Trip yn mynd i'r 'Blue Planet Aquarium' yn Cheshire Oaks a gorffen am rhyw awr yn y Ffair yn Rhyl, ar Sadwrn, 13 Gorffennaf. Cychwyn o groesffordd King am 8.30 y bore. Pris fydd Oedolion £8 a £4 i blant nad ydynt yn aelod o'r Yswgol Sul. Enwau rhag blaen os gwelwch yn dda i Elizabeth Jones. Ffôn 872421 neu Ann Pagterson, ffôn 872405.

SBRI'R YSGOL SUL. I gloi gweithgareddau'r Ysgol Sul, bydd cyfle i'r aelodau, unwaith yn rhagor eleni, ymuno yn y sbort a'r sbri a ddarperir iddynt yn Ysgol Brynrefail, dan ofal Henaduriaeth Arfon. Bydd cyfle i'r plant gymdeithasu, dawnsio llinell, gwaith llaw, canu, cwis, stori ac actio ynghyd â Helfa Drysor. Byddwn yn cychwyn o giât yr Ysgol Gymuned am *1.15* i fod yno erbyn *1.30* ar *ddydd Sul, 14 Gorffennaf* a dychwelyd am *4.30*.

CYMDEITHAS Y BEIBLAU. Cynhelir gwasanaeth Cymdeithas y Beiblau nos *Sul, 30 Mehefin am 6.00* o'r gloch yng Nghapel Cefnywaun, Deiniolen. Gwneir casgliad at yu Gymdeithas yn y cyfarfod. Trefnir bws i gychwyn o Ddinorwig am *5.30* ac yna i Benisarwaun.

EGLWYS SANTES HELEN
CYSTADLEUAETH YSGRIFENNU GWEDDÎAU. Yn 'Hwyl Bob Sul', roedd gweddïau plant yr Ysgol Sul wedi eu danfon i gystadleuaeth a gynhaliwyd gan Ficer Aberdaron a'r enillwyr oedd Ysgol Sul Santes Helen. Bydd y gweddïau buddugol yn cael eu hargraffu mewn llyfr arbennig fydd ar gael i Bererinion sy'n croesi i Ynys Enlli. Llongyfarchiadau. Fe fydd y plant yn derbyn Tystysgrif a siec i gronfa'r Ysgol Sul.

DYDD GWEDDI A RHODD. Dydd Sul, 14 Gorffennaf am 10.30 o'r gloch gweinyddir y Cymun Bendigaid ac am 4.30 o'r gloch bydd Gosber a Phregeth.

CRONFA'R FYNWENT. Eisoes mae toriad cyntaf y gwair wedi'i gwblhau ac fe fydd yn cael ei dorri eto yn y wythnosau nesaf. Fe werthfawrogir unrhyw rodd tuag at y gost o gadw'r fynwent yn daclus.

BEDYDD. Fore Sul, 12 Mai am 10.30 o'r gloch bedyddiwyd Erin, merch fach Dylan a Bethan Williams, chwaer fach i Siôn a Rhys ac wyres Avril a Geraint Williams a Mr a Mrs Powell, Llanrug. Gweinyddwyd y bedydd gan y Parch Tegid Roberts.

WYTHNOS Y CARNIFAL. Cynhelir y gweithgareddau eleni o 12 Awst hyd 18 Awst. Bydd manylion llawn yn y rhifyn nesaf.

PWYLLGOR NEUADD. Ar 1 Mai cafwyd noson hynod o lwyddiannus yn y Neuadd Gymuned gyda chynulleidfa dda dros ben. Noson o Frethyn Cartref oedd hi gyda holl blant yr ysgol yn canu, a hynny'n hynod o ddisgybledig, dan hyfforddiant Einir Griffith. Cafwyd eitemau ardderchog hefyd gan Aelodau'r Urdd, dan hyfforddiant Marina. Swynwyd pawb gyda datgeiniadau John Eifion a diolchir iddo am ei barodrwydd bob amser. Arweinydd y noson oedd yr amryddawn Arwel Jones a llywiwyd y noson yn gartrefol braf ganddo ef a Phyllis. Diolchir i athrawon yr ysgol am eu cefnogaeth a'u presenoldeb ac i Marina am gyfeilio.

Enillwyr y raffl oedd Ann Paterson, Mrs Mathews, Avril Williams, Elen Lewis, Garys Williams, Sophie Hughes, Marina Jones a Rebecca Snowdon.

Enillwyr Clwb Cant mis Mai oedd 1. Elen Lewis, Penpwll Coch; 2. Elinor Jones, Gwyrfai, Bron y Waun; 3. Eirlys Jones, Gwynant, 5 Bryn Hyfryd.

Gobeithir trefnu Taith Gerdded Llwybrau yn y dyfodol agos.

DYMUNA aelodau'r Pwyllgor bob hapusrwydd i Jên Jones, Athrawes Bl. 5 a 6 ar achlysur ei phriodas ddydd Sadwrn, 24 Mai yng Ngwesty Fictoria, Llanberis. Gobeithio y bydd yr haul yn tywynnu ar y fodrwy. Bydd rhaid i'r plant ddygymod â'r newid o Miss Jones i Mrs Morris ar ôl hyn. Pob dymuniad da Jên a Richard.

AR WERTH

6 mainc festri a tua 6 metr sgwar o flociau llawr derw mewn cyflwr da.

Cysylltwch â:

(01248) 670 302.

Pa un o'r rhain sydd bwysicaf?

YSWIRIO EICH TŶ
(i arbed colled i chi);
YSWIRIO EICH CAR
(i arbed colled i chi); neu
YSWIRIO EICH BYWYD
(i arbed colled i'ch teulu)

Cysylltwch â'r isod i weld mor rhad yw cost yswiriant gyda **CDH**

Andre (Bethel/Llanberis)
Bryn (Môn)
Euryn (Caernarfon a'r cylch)
John Eifion (Penisarwaun)

CDH

Ymgynghorwyr Ariannol
Annibynnol Lleol (sefydlwyd 1974)
Ffôn: (01248) 355055

Gwasanaeth o'r Safon Uchaf am Brisiau Rhesymol

Gwasanaeth Trylwyr
gan y bobl **BROFFESIYNOL**
Gwasanaeth Personol Cyfeillgar i **CHWI**
Y Gwasanaeth Technegol Gorau
i'ch **CAR.** Cystal â
Gwasanaeth Prif Ddeliwr
Felly, pa gar bynnag ydych
CHWI yn ei yrru,
o Audi i Zastava

MOT · AA Specialist · Retail Motor Industry Federation · RAC Selected

GEMINI

Car neu Fan
Petrol neu Disel
Carb. neu Chwistrelliad

bydd ein Gwasanaeth ni yn arbed £ £ £ ichwi ac yn ymestyn oes eich car

AVW YSTAD CIBYN
CAERNARFON (01286) 673559
BOSCH SERVICE

Wavell Roberts
CIGYDD
London House
LLANRUG
Ffôn: (01286) 673574
PEN CIGYDD Y FRO
Yrŵyn lleol mwyaf blasus
Selsig cartref
Cigoedd parod i'w bwyta
Archebion ar gyfer y rhewgist
MYNNWCH Y GORAU
DEWCH ATOM NI!

Ysgol Brynrefail

Taith Gerdded Noddedig

Jonathan, Bryn, Lowri, Danny a Lisa hefo Mr P. Holland.

Ar brynhawn Gwener y 12fed o Ebrill aeth disgybion blwyddyn 7, 8 a 9 i gerdded ar ran o Lôn Eifion.

Cychwyn o Chwarel Graeanog ger Bryncir gyda 300 o blant ac ugain athro yn llawn hwyl ac egni. Diolch byth fod y tywydd wedi dal yn braf iawn a phawb yn mwynhau bod allan yn yr awyr agored.

Ymhen hir a hwyr cyrraedd safle Inigo Jones ble roedd y bwsiau yn ein cyfarfod i'n cludo'n ôl i'r ysgol mewn pryd i gychwyn am adre.

Aeth y plant ati wedyn i gasglu'r arian, a Mr P. Holland, oedd wedi trefnu'r daith, yn synnu wrth weld cymaint o arian yn dod i law. Cyfanswm anrhydeddus iawn o £4,000.

Diolch yn fawr iawn am yr holl gefnogaeth a gawsom gennych, yn rieni, yn deuluoedd a chyfeillion. Unwaith eto rydych wedi bod yn gefn i'r ysgol trwy eich haelioni a bydd hyn yn ei gwneud yn bosibl i fynd a'r disgyblion ar ymweliadau a chystadlaethau chwaraeon.

Y dosbarth wnaeth gasglu y mwyaf o arian oedd 7N gyda £535.87 yn dod i law. Wrth gwrs roedd yn help bod Jonathan Cyster (Deiniolen) a gasglodd £90.51 a Lisa Williams (Llanrug) a gasglodd £87.10 yn y dosbarth!

Roedd disgyblion eraill wedi casglu'n dda iawn hefyd, Lowri Jones 7E £63.70, Bryn Hughes 7E £61.50, a Daniel Williams 8I £59.00, a lluoedd eraill oedd yn dynn iawn wrth eu sodlau.

Llongyfarchiadau iddynt, a gobeithio iddynt fwynhau'r gwobrau am eu hymdrech. Gwobrwywyd y dosbarthiadau i gyd gyda siocled a da-da am yr ymdrech ardderchog ac fe wnaeth pawb fwynhau'r bwyta!

Diolch i'r athrawon hefyd am gasglu'r arian a cherdded gyda'r plant. Rydym yn gwerthfawrogi eu hymdrechion hwy hefyd. Diolch byth bod yna staff ffit yn yr ysgol!!!

Noddwyd y daith gan yr Abbey National ac fe gerddodd rhai o'u haelodau gyda'r plant. Diolch yn fawr iawn am eu cefnogaeth a'u nawdd.

Mwy am hyn yn y rhifyn nesaf.

Her Fathemategol

Marc, Lowri, Ceri, David, Guto a Huw.

Llongyfarchiadau mawr i rai o fathemategwyr blwyddyn 10 a gafodd gryn lwyddiant yn yr *'UK Mathematical Challenge'* cystadleuaeth a oedd yn agored i ddisgyblion blwyddyn 10 a 11. Cymerodd 2,614 ysgol ran yn y gystadleuaeth.

Enillwyr y tystysgrifau oedd:

Aur: Mark Pitts.

Arian: Lowri Hughes, Ceri Davies.

Efydd: David Nicholas, Guto Wynne, Huw Foulkes.

Gŵyl Gemeg 'Salters'



Mathew, Eifion, Hannah ac Alice gyda'u athrawes.

Aeth Mathew Powell, Alice Lanceley, Eifion Griffiths a Hannah Thomas blwyddyn 8 i Brifysgol Bangor ar y trydydd ar hugain o Ebrill i gymeryd rhan mewn cystadleuaeth a noddwyd gan 'Salters.'

Roedd timau o 9 o ysgolion Gwynedd yn cymeryd rhan, a'r peth cyntaf i wneud oedd darganfod y safle gorau i leoli ffatri!

I wneud hyn roedd rhaid anweddu dŵr heli. Cawsom samplau gwahanol i weithio gyda nhw, ac wedi i'r pedwar ohonom chwysu darganfyddwyd mai sampl X oedd y llc gorau.

Wedi cael cinio blasus yn ôl at yr arbrofion. Y tro yma chwilio am sylwedd oedd yn niwtraleiddio asid ac alcali.

Yna cael mynd i'r Neuadd Ddarlithio ac roedd yn union fel y rhai a welias ar y ffilmiau! Rhesi o gadeiriau a byrddau yn edrych i lawr ar y gwyddonwyr! Y rheini wedyn yn dangos i ni sut oedd gwneud hufen iâ gyda 'liquid nitrogen' a darnau o fefus.

Ar ddiwedd y dydd fe wnaeth y gwyddonwyr falwn a wnaeth ffrwydro i ddod â'r diwrnod i ben.

Daeth ein tîm ni yn ail yn y gystadleuaeth ac ennill £50 i'r ysgol. Diolch i Miss Sioned Williams ein hathrawes wyddoniaeth am fynd a ni yno.

Mathew Powell 8N

Athletau

Mae'n dymor athletau eto ac fel arfer mae ein disgybion yn cadw'r safon uchel unwaith eto.

Dyma ganlyniadau tîm y genethod fu yn cystadlu yng Nghyfarfod Gogledd Gwynedd yn ddiweddar.

Dan 15 oed:

Rhiannon Jones B.9 – 1af Picell, Sarah Woodcock Bl.8 – 2il 200m, Nikki Hill Bl.9 – 2il 1500m, Alaw Ceris, Ceri Roberts a Michelle Allsup Bl.9 a Caryl Wood Bl.8 yn perfformio yn dda iawn hefyd.

Dan 17 oed:

Sarah Perrin Bl.10 – 1af Naid driphlyg gan dorri'r record. Go dda wir Sarah ac yn ail yn y naid hir. Katrin Cullen Bl. 10 – 2il 300m, Ruth Edge Bl.10 – 2il 1,500m, Nia Wakeham Bl.10, 2il naid uchel, gyda Yasmin Allen a Iona Hughes yn dod yn agos iawn hefyd.

Canlyniadau tîm y bechgyn:

Dan 15 oed:

Yn gyntaf, Joseph Simpson 200m ac 300m gan dorri'r record yn y ddwy ras. Ardderchog Joseph. Jo Potter clwydi uchel, Robin S. Smith pwysau a disgen. Yn ail, Gareth Jones 100m, Dafydd Williams naid uchel a Joseph Simpson picell. Yn drydydd, Guto Llewelyn 100m ac 200m, Gareth Jones naid hir, John Taylor pwysau, Ifan Dafydd disgen a Robin S. Smith picell. Y bechgyn yma i gyd o flwyddyn 9.

Dan 17 oed:

Yn gyntaf, Iwan Morris pwysau. Yn drydydd Mathew Phillips – clwydi uchel a picell, gyda Sam Hughes, Michael Hughes a Josh Green yn dod yn agos iawn hefyd. Y bechgyn yma i gyd o flwyddyn 10.

Llongyfarchiadau iddynt i gyd a bydd y rhai ddaeth yn gyntaf ac ail yn mynd ymlaen i fabolgampau'r Sir ar Fehefin 15fed. Pob lwc iddynt.

Eisteddfod Yr Urdd

Pob lwc i'r disgyblion canlynol yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yng Nghaerdydd.

Rhys Hughes Bl.9 yn chwythu'r corn.

Lois Hughes Bl.11 a Ffion Owen Bl.12 yn yr ymgom a pharti dawnsio disgo'r ysgol.

Mwynhewch y profiad a dymuniadau gorau i chwi i gyd.

LLANBERIS

Gwyneth ac Eifion Roberts, Becws Eryri. Ffôn: 870491

Camera yn ngofal John Pritchard, Cilfynydd, Llanberis. Ffôn: 872390



Mr Alwyn Owen a'r offer meddygol a gyflwynwyd i feddygfa Llanberis er cof am ei wraig Mrs Iola Owen.

LLONGYFARCHIADAU i Lowri-Elenid Davies, Bryn Tirion, Llanberis am ddod yn gyntaf gyda'i Llefaru 8-10 oed yn Eisteddfod Cylch Arfon ac hefyd am ddod yn ail yn Eisteddfod Rhanberth Eryri. Pob lwc i ti i'r dyfodol, Lowri-Elenid.

DYMUNA Meinir Roberts ac Alun Edwards, Merches Gardens, Caerdydd (gynt o Stryd y Ffynnon) ddiolch i'w teulu a ffrindiau am y cardiau, arian ac anrhegion a dderbyniwyd ganddynt ar achlysur eu dyweddïad. Diolch o galon.

CYMDEITHAS YR EGLWYS. Cynhaliwyd cyfarfod mis Ebrill ar nos Iau, y 5ed, yn Angorfa. Dechreuwyd trwy weddi gan Mrs Sandra Hughes. Croesawodd Mrs A, Parry Jones y gŵr gwadd, Dr John Perkins, Porthaethwy a chafwyd sgwrs ddiddorol ganddo ar ei daith i Pakistan gyda phroject addysgiadol, ac hefyd ar ei waith gyda Chymorth Cristnogol. Mae ef a'i wraig yn gweithio'n galed iawn gyda'r mudiad hwn. Erbyn hyn mae ei wraig wedi ymddeol o'i gwaith llawn amser ac wedi agor siop Masnachu Teg yng Nghonwy. Fe ddaeth ac amrywiaeth o'r cynnyrch gydag ef i'w dangos ac fe brynodd rhai aelodau siocledi, bisgedi, te a choffi. Diolchwyd i Dr Perkins ac hefyd i'r merched wnaeth y te a rhoi'r raffl, sef Mrs Buddug Hughes a Mrs Betty Humphreys gan Mrs Clare Roberts. Enillydd y raffl oedd Mrs Moreen Lennon.

DIOLCH. Dymuna Jackie, Ceril, Sioned a Meriel ddatgan eu diolch diffuant i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad tuag atynt yn eu profedigaeth o golli gŵr a thad annwyl, Tom Eilian Jones, Llainwen Isaf. Mae Ralph, Cyril a Margaret yr un mor ddiolchgar am y llu cardiau, galwadau ffôn ac ymweliadau a dderbyniasant hwythau ar yr achlysur trist yma. Yr oedd yn gysur ac yn gymorth i'r teulu oll gael cefnogaeth cynulleidfa gref yng Ngwasanaeth Diolchgarwch am fywyd a doniau Tom ar Sadwrn, 16 Mawrth yn Eglwys St Padarn a gwerthfawrogir y rhoddion hael er coffâd amdano, a rennir rhwng yr Eglwys a'r timau meddygol a fu mor ofalus ohono cyhyd.

LLEISIAU LLIWEDD. Ar ôl cyngerdd a gynhaliwyd ar 26 Ebrill yn Ysgol Brynrefail Llanrug i gefnogi plant Deiniolen yn eu hymgyrch i gasglu arian ar gyfer eu taith i Eisteddfod yr Urdd Caerdydd yn ddiweddar, rhoddodd y Côr gyfraniad o £120 at Adran yr Urdd Bethel hefyd. Mae'r Côr yn dymuno pob llwyddiant i'r ddwy adran yng Nghaerdydd.

Bydd y Côr yn ymddangos unwaith y mis trwy gydol yr haf yng Ngwesty Victoria, Llanberis.

DIOLCH. Dymuna Beryl Ellis, 7 Rhes Efrog a'r teulu, ddiolch yn ddiffuant am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a amlygwyd tuag atynt yn eu profedigaeth o golli mam, nain a hen nain yn ddiweddar.

Hefyd i Mrs Meirwen Thomas a staff y Foelas am eu gofal tyner a chariadus.

DYMUNA Gwyneth (Becws Eryri gynt) ddiolch i'w theulu, cymdogion a ffrindiau am y dymuniadau da traq roedd yn yr ysbyty'n ddiweddar.

PLAS PENGWAITH. Wedi dod adref o'r ysbyty mae Mrs N. M. Owen a Mrs E. Williams. Dymunwn groeso'n ôl iddi. Yn yr ysbyty ar hyn o bryd mae Mr R. H. Jones ac mae pawb yn dymuno gwellhad buan iddo.

Rydym yn estyn ein cydymdeimlad at deulu Mrs Clara Jones, Fairview yn ei phrofedigaeth trwy farwolaeth Mrs Jones ym Mhlas-y Bryn, Bontnewydd. Fe fu yma am gyfnod ond yn anffodus, oherwydd gwaeledd, gorfu iddi symud i Blas y Bryn.

Estynnwn ein cydymdeimlad hefyd i deulu Mrs M. E. Thomas o Lanrug yn dilyn ei marwolaeth yn Ysbyty Bryn Seiont ar 16 Mai. Bu Mrs Thomas yma am gyfnod reit hapus ond yn annisgwyl bu'n rhaid iddi fynd i'r Uned Gofal yn Bryn Beiont.

Dathlu eu pen-blwydd yn mis Mehefin bydd Mrs Mair Williams, Mrs Elisabeth Williams a Mr J. E. Williams.

Cafwyd arwerthiant dillad yma ar 20 Mai a chafwyd cyfle i ddewis a phrynu dillad.

DIOLCH i Mrs Vera Griffith am ddosbarthu'r Eco yn Nôl Elidir am nifer o flynyddoedd. Pob dymuniad da iddi yn ei chartref newydd a diolch i Gareth Jones am gymryd drosodd y gwaith. Mae angen dosbarthwr newydd ar gyfer rhan o Faes Padarn hefyd. Enwau i Gwilym Evans, Tŷ Crwn os gwelwch yn dda. (Ffôn 872034).

CONFFIRMASIWN. Bore Sul, 14 Ebrill gweinyddwyd gwasanaeth Conffirmasiwn yn Eglwys St Padarn gan Esgob Saunders, y Parchedig Philip Hughes, y Ciwrat Vittoria Hancock a Mr Derek Jones gyda Susan Williams ar yr organ. Derbyniwyd 11 o blant yr eglwys: Kenny Jones, Stephanie a Nicholas Welsby, Jade Roberts, Angharad Fisher, Ian a Ffion Parry, Louise Price, Elin Mai Jones a Jonathan ac Andrew Jones.

DIOLCH. Dymuna Nia Gwyn Griffiths ddiolch o galon i bawb a gyfranodd arian i '*Race for Life*' ar y 12ed o Fai yn Rhyl. Casglwyd cyfanswm o £250.35 i *Cancer Research*.

NANT PERIS

Llinos Jones, 6 Nant Ffynnon
Ffôn: (01286) 871820

POB LWC i Stephanie Welsby, aelod o Grŵp Dawnsio Disgo 15-19 sydd yn cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd Caerdydd ym mis Mehefin.

YSGOL DOLBADARN
PLANT ADRAN YR URDD

Fe fu plant Adran yr Urdd, Ysgol Dolbadarn yn mwynhau Helfa Drysor, er gwaetha'r unig ddiwrnod gwlyb dros y Pasg. Yn dilyn hyn fe gafwyd cystadleuaeth 'Hetiau Pasg'. Enillwyd yr Helfa Drysor gan Gwion Jones ac Iwan Williams. Enillydd y gystadleuaeth Hetiau oedd Sara Parry. Diolch i Mr John Hugh Hughes am wasanaethu fel beirniad yr hetiau.

Cafodd plant yr adran hefyd y cyfle i ymweld â Deorfa Crawiau yn ddiweddar. Diolch i Mr Bert Parry a'r Gymdeithas Bysgota.

Plant yr Adran efo'r hetiau Pasg.

Plant yr Urdd a Mr Bert Parry yn ymweld a Deorfa Crawia.

G. EVANS

ARBENIGWYR TRWSIO CYRFF CEIR

Uned 4, Stad Ddiwydiannol Brynafon, Llanrug

(01286) 678030

LLYSIAU, FFRWYTHAU, BWYDYDD AC ANGHENION ANIFEILIAID ANWES

GARTH MAELOG

51 Stryd Fawr, Llanberis

Ffôn: **870840**

LLANRUG

Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn. Ffôn: (01286) 675384

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263

YSGOL LLANRUG

Erbyn hyn mae disgyblion Bl.2 a Bl.6 wedi cwblhau y TASAU ac yn cael amser i fwynhau gweddill thema'r tymor.

Gan eu bod yn dilyn thema 'Cestyll a Bywyd Erstalwm' aeth disgyblion Bl.5 ar ymweliad â'r Castell a Phlas Mawr, Conwy.

Cafodd disgyblion Blwyddyn Derbyn ddiwrnod gwerth chweil ym Mhenmon a'r Sŵ Fôr ar Ynys Môn. Maent yn awr yn disgwyl am ateb i'r neges a daflwyd mewn potel i'r môr.

Amharodd y glaw ddim ar ddiddordeb a mwynhad disgyblion Bl.1 a 2 tra buont yn y Gelli Gyffwrdd yn sylwi ar wahanol goed ac yn adeiladu eu 'den' eu hunain.

GYMDEITHAS CYFEILLION YR YSGOL. Bydd pwyllgor y Gymdeithas yn paratoi paned a chŵn poeth, stondin greision a melysion ar Noson Chwaraeon Eco'r Wyddfa ar nos Iau, 20 Mehefin.

LLONGYFARCHIADAU. Dymunwn longyfarch Delyth Medi, Rhostlan, Ystad Minffordd am gael ei derbyn i swydd athrawes yn yr Adran Gymraeg, Ysgol Berwyn y Bala. Bydd yn cychwyn ar ei gyrfa ym mis Medi.

DIOLCHIADAU.

Ymddiheurwn yn llwyr am nad oedd y canlynol wedi ei roi yn yr Eco diwethaf. Drwg iawn gennym Mrs Thomas.

DYMUNA Mrs Sally Thomas, Min y Rhos, Ffordd yr Orsaf ddiolch yn arw i bawb am y cardiau, anrhegion a dymuniadau da a dderbyniodd ar achlysur ei phen-blwydd ar 9 Mawrth yn 97 mlwydd oed. Llongyfarchiadau mawr i chwi.

PEN-BLWYDDI. Llongyfarchion i Mrs K. Griffiths, 22 Hafan Elan ar ei phen-blwydd yn 80 oed ar 2 Mai. Gobeithio eich bod wedi mwynhau y dathlu.

Hefyd i Tom Hastings, Penlan, Lôn Groes, yntau yn dathlu ei ben-blwydd yn 21 oed.

PRIODASAU. Pob dymuniad da i Charlotte Hastings, Penlan, Lôn Groes ar ei phriodas â Jason ar 6 Mai, yn Nyfnaint.

Hefyd i Sharon Michelle Jones, Rhes Crawia, ar ei phriodas hithau ar 8 Mehefin.

DIOLCH. Dymuna Mrs Katie Griffiths, 22 Hafan Elan, ddiolch i'w theulu, ffrindiau a chymdogion Hafan Elan am ddymuno yn dda iddi ar achlysur ei phen-blwydd yn 80 oed. Diolch yn arbennig i Mrs Dilys Jones, Mrs Fisher, Mrs Katie Davies a Mrs Dorothy Carter am drefnu lluniaeth yn y Ganolfan. Diolch yn fawr i bawb.

DIOLCH – APÊL BANGLADESH CAPEL Y RHOS. Yn ystod yr wythnos gyntaf o Fai fe gynhaliwyd 'Eisteddfod Mewn Distawrwydd'. Diolch i bawb a gymerodd ran yn y gweithgaredd. Mae penawdau'r cyfryngau'n aml yn sôn am dlodi ac argyfyngau Bangladesh. Ond, er fod Bangladesh yn un o wledydd tlotaf y byd, sy'n dioddef yn sgil llifogydd a chorwyntoddd yn aml, mae ei phobl yn brwydro yn eu herbyn. Mae cymunedau ac unigolion yn breuddwydio am well dyfodol ac yn gweithio'n galed i wireddu eu breuddwydion.

CYMORTH CRISTNOGOL. Yn ystod wythnos Cymorth Cristnogol eleni, Mai 12-19 2002, bu mwy nac erioed o wirfoddolwyr yn mynd o gwmpas Llanrug i gasglu arian tuag at gynorthwyo gwledydd tlawd y byd. Llwyddwyd i gasglu cymaint â £1041.81, heb gyfrif ad-daliad treth incwm y rhai oedd yn barod i gyfamodi. Diolch i bawb am roi eu hamser i gasglu, ac i bobl Llanrug am gyfrannu mor hael tuag at yr achos.

PLAID CYMRU. Eleni trefnwyd yr Helfa Drysor gan Rhodri ac Esyllt Llwyd gyda Macsen yn cynorthwyo a Gwion a Meinir yn goruchwylio. Cafwyd noson arbennig o ddifyr gan gychwyn o'r safle bws ger Ysgol Brynrefail am 6.15 – 6.30. Daeth 11 car llawn yno yn eiddgar i gyflawni'r gamp ar noson braf o Fai.

Wedi crwydro'r ardal cafwyd swper yn nhafarn gartrefol Y Gors Bach, Llanddeiniolen lle dyfarnwyd y marciau gan Rhodri.

Yn gyntaf roedd Gwyndaf a Cemlyn, fydd yn derbyn y clod a'r cyfrifoldeb o drefnu Helfa Drysor 2003. Y wobr oedd bag picnic.

Yn ail yr oedd Lisa a Bedwyr a

Tenis-Bwrdd yn y Ganolfan



Mae cyfleusterau tenis-bwrdd newydd sbon bellach ar gael yn y Ganolfan. Am fwy o wybodaeth am pryd y gellir chwarae, cysylltwch a Goronwy Hughes ar (01286) 674839.

chawsant focs siocled. Ac yn drydydd, Sioned, Luned a Catrin a chawsant hwythau focs siocled.

Yn olaf, ond bob amser yn ffyddlon, yr oedd Marian, Veronica, Valmai, Catherine a Ceinlys. Pegiau oedd y wobr a gobeithio eich bod wedi eu rhannu yn deg.

Dymuna'r pwyllgor ddiolch i bawb am wneud y noson mor hwyliog, yn arbennig Rhodri, Esyllt, Macsen, Gwion a Meinir am drefnu.

Nos Fercher, 19 Mehefin fe gynhelir Cyfarfod Blynyddol Cangen Llanrug a'r Cylch. Croeso i'r holl aelodau i ddod i Sefydliad Coffa Llanrug erbyn 7.30 i ethol swyddogion ac i drefnu rhaglen y tymor nesaf.

MERCHED Y WAWR. Cynhaliwyd cyfarfod o Ferched y Wawr yn y Ganolfan Gymunedol nos Fawrth, 14 Mai. Dyma'r Cyfarfod Blynyddol a derbyniwyd ymddiheuriadau gan Mena, Julie, Helen a Carys. Dymunodd y Llywydd, Megan Roberts, yn dda i Morgan, mab Bethanne a fydd yn priodi yn y dyfodol agos.

Cadarnhawyd cofnodion y Cyfarfod Blynyddol a gynhaliwyd ar 8 Mai 2001. Etholwyd y swyddogion canlynol ar gyfer y flwyddyn 2002-2003. Is-lywydd: Meirwen Lloyd; Is-ysgrifennydd: Gwenda Roberts; Is-drysorydd: Pat Jones; Aelodau newydd y pwyllgor: Margaret Jones, Olwen Huws ac Ann Lloyd; Cynrychiolwyr ar yr is-bwyllgorau rhanbarthol fydd, Anabl: Beryl Thomas; Celf a Chrefft: Julie Jones; Dysgwyr:

Mae Alwena wedi cwblhau cyfnod fel arweinydd y Clwb. Diolch o galon iddi am ei chyfraniad gwerthfawr dros y blynyddoedd diwethaf.

Phyllis Ellis; Gohebwyr y Wasg: Gwenda a Mary; Dosbarthwraig y Wawr: Olwen Huws. Rhoddodd Jean, Trysorydd y gangen a gwahanol gynrychiolwyr yr is-bwyllgorau, adroddiadau ar y gweithgareddau.

Cyhoeddwyd fod Rhanbarth Arfon yn cynnal noson o Goginio a Blasu yng Ngwesty'r Celt ar 5 Gorffennaf a bod tocynnau ar gael am £5 yr un.

I gloi mwynhawyd gwledd ardderchog wedi ei pharatoi gan aelodau'r gangen.

Y wibdaith flynyddol fydd ein cyfarfod nesaf ar nos Wener, 14 Mehefin. Bydd y bws yn cychwyn o Lanrug am 6.340 a'n cyrchu i Blas ar Fwyd, Llanrwst. Enwau i Bethanne os gwelwch yn dda.

E. W. Pritchard
CENTRAL GARAGE
Llanberis

Ffôn: (01286) 870202

TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU

FINE ART TRADE GUILD
ORIEL CWM
Cwm y Glo
Ffôn/Ffacs: (01286) 870882
Gwasanaeth Fframio
Lluniau o bob math
ar gael ar y safle
Prisiau Rhesymol
Arddangosfa o luniau
gwreiddiol gan
Artistiaid Lleol
Richard S. Humphreys

NOSON CHWARAEON YR ECO
Pwyllgor Cymdeithas
Cyfeillion Ysgol
Gynradd Llanrug
yn paratoi
Paned
Cŵn Poeth
Stondin Creision
a Melysion
ar fuarth yr ysgol

CWM Y GLO

Mrs Iris Rowlands, Glanrafon. Ffôn: (01286) 872275

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263

Plant yr ysgol a fu'n rhedeg trawsgwlad yng Nglynllifon.

LLONGYFARCHIADAU i Marc a Non Roberts, 3 Tan y Ffynnon ar enedigaeth eu mab, Owain Cynfab, brawd bach i Beca.

CYDYMEIMLAD. Estynnir ein cydymdeimlad dwysaf â Mr Elrwyn Williams, Llwyncoed yn ei brofedigaeth o golli ei frawd, Mr Glyn Williams, mewn ychydig wythnosau ar ôl colli ei frawd, Noel.

UNDEB Y MAMAU. Cyfarfu'r gangen yn Ysbyty Dinorwig, Llanberis nos Lun, 13 Mai lle'r oedd Ken Latham a Paul Sivyer yn disgwyl amdanom. Cawsom fynd o gwmpas yr Ysbyty a gweld yr offerynnau a ddefnyddiwyd flynyddoedd yn ôl. Wedyn cafwyd paned a bisgedi tra'n gwylio fidio o Barc Gwledig Padarn. Yr oedd cwis wedi ei baratoi ar ein cyfer ac, i ddiweddu'r noson, cafwyd lluniaeth ysgafn. Mwynhawyd y noson yn fawr iawn gan bawb.

Diolchwyd i Ken a Paul gan Mrs Joyce Ransom.

Ar 14 Mai aeth rhai o'r aelodau i Wasanaeth y Ddeoniaeth yn y Gadeirlan ym Mangor.

Bydd y cyfarfod nesaf yn Hafan Elan, Llanrug, nos Lun, 10 Mehefin.

YSGOL CWM Y GLO

Yn y lle cyntaf, diolch o galon i bawb a anfonodd y talebau Tesco i ni ar gyfer cael cyfrifiadur i'r ysgol. Roedd gennym 4,500 wedi eu cadw ers llynedd a'r nod oedd cyrraedd 12,000. Wel, rydym wedi llwyddo. Casglwyd 12,600 gyda diolch i lawer iawn o bobl y fro a gwahanol fudiadau lleol wnaeth ymdrech arbennig iawn.

Fel ysgol, rydym yn dymuno'r gorau i Mrs Rhian Jones ar achlysur ei hymddeoliad fel gofalwraig yr ysgol. Oherwydd salwch, ni fu Mrs Jones gyda ni ers peth amser bellach ond, carem ddiolch iddi am ei gwasanaeth gwerthfawr i'r ysgol ar hyd y blynyddoedd a dymuno seibiant braf iddi nawr. Croeso hefyd i Mrs Kath Green fel ein gofalwraig newydd.

Rydym am ddymuno'r gorau i ddwy eneth o'r ysgol fydd yn cystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yng Nghaerdydd. Pob hwyl i Laura Thornton yn y Llefaru i Ddysgwyr dan 8 oed ac i Karon Williams ar yr Unawd Piano dan 12 oed. Llongyfarchiadau mawr i Laura yn barod ar ennill y Fedal Arian am waith tri-dimensiwn dan 8 oed yn yr Adran Celf a Chrefft.

Diolch i Mrs Jen Roberts am fynd a nifer o blant yr ysgol i redeg traws gwlad a drefnwyd gan yr Urdd yng Nglynllifon y mis diwethaf. Da iawn bawb am wneud eu gorau.

Enillwyr Clwb yr Ysgol mis Mawrth oedd Alison Jones, Llanrug; Jason Jones, Bod Elan a Keith Williams, Bryn, o Gwm-y-glo. Aeth gwobrau mis Ebrill i Mrs Nancy Jones, Maes Padarn, Llanberis; Mrs Gwyneth Roberts, Bod Gwynedd a Mrs Alison Jean Jones, Dolafon – y ddwy o Gwm-y-glo.

Carem ddiolch i bawb ddaeth i gefnogi yr Ocsiwn Addewidion a drefnwyd gan y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon a gynhaliwyd yn y Fricsan, Cwm-y-glo ar 23 Mai dan ddwylo medrus Dafydd Hardy a'i gwmni.

CAEATHRO

Clive James, Hafan, Bryn Gwna.
Ffôn: (01286) 679501 (gwaith). 677438 (cartref)

CYNGOR CYMUNED. Cynhaliwyd cyfarfod o'r Cyngor Cymuned ar 24 Ebrill yn y Ganolfan, Waunfawr gyda'r Cyng Clive James yn bresennol a'r Cyng Vera Roberts yn ymddiheuro am absenoldeb.

Nid oedd ymateb oddi wrth Gwmni MacDonald ynglŷn â gollwng sbwriel rhwng Pen-y-bryn a Chefn Gof. Byddwn yn cysylltu â Chyngor Gwynedd ynglŷn a pheidio a chodi sbwriel (poteli, caniau, cwpanau, ayyb.) ar ochr y ffordd i Peblig ar ôl sgubo'r lôn a'r sbwriel sy'n ymgasglu heibio'r cilfan ger y sgwâr. Rhoir pwysau ar Gyngor Gwynedd ynglŷn â'r oedi cyn codi arwydd 'Dim chwarae gemau pêl' ar y polyn lamp ym Mryn y Gof.

Mae'r Heddlu wedi sgwennu i Gyngor Gwynedd yn cefnogi cais y Cyngor i godi safon y tawelyddion traffig trwy'r pentref at safon y rhai rhwng Pont Peblig a Gallt y Sil.

Bydd y Cyngor yn cysylltu â Chyngor Llanrug ynglŷn â'r adeilad sydd wedi ei godi, heb ganiatad cynllunio, ar draws llwybr cyhoeddus rhif 83 yng Nghae Rhydau yn gofyn iddynt bwyso ar Gyngor Gwynedd i unioni'r cam.

GWASANAETH BWS.

O 2 Mehefin ymlaen bydd mân newidiadau yn yr amserlen bws. Yn dod adref o Gaernarfon bydd y bws yn gadael Penllyn am 4.30 y pnawn (5 munud yn gynt); ac am 7.15 yr hwyr (10 munud yn gynt). Ar y ffordd i Gaernarfon bydd y bws yn gadael am 5.05 (5 munud yn hwyrach) ac am 7.10 yr hwyr (10 munud yn gynt).

NEWYDDION Y CAPEL. Mae'r gwaith adnewyddu ac addasu wedi cyrraedd cyfnod allweddol. O'r diwedd, mae ffrwyth y llafur a'r codi arian wedi dechrau dangos silap y dyfodol. Fodd bynnag, ar gyfer y mis nesaf cynhelir y gwasanaethau canlynol yn Ystafell y Bwrdd, Garej Gwalia:

2 Dim Ysgol Sul; 2.00 Parch Trefor Jones;
9 Dim Ysgol Sul na Gwasanaeth;
16 11.00 Ysgol Sul;
23 10.00 Parch Geraint Hughes; 11.00 Ysgol Sul;
30 11.00 Ysgol Sul.

Croeso i bawb.

TYNFA MISOL. Enillwyr Tynfa Misol Cymdeithas y Cae Chwarae ar gyfer mis Mai oedd:
£40: (77) Mair Roberts, Swˆn y Gwynt; £25: (03) Eryl a Gwenno Jones, Bryn Mair; £15: (19) Karen, Cefn Plas, Glangwna; £5: (39) Dic Jones, Gregws.

CHWARAEWR ADDAWOL. Llongyfarchiadau i Gwion, Bryn Mawr, gan ei fod wedi derbyn gwobr fel yr unigolyn yn y garfan dan 8 oed, Clwb Rygbi Caernarfon, sydd wedi dangos yr ymrwymiad gorau i ymarfer a hyfforddiant.

CODI ARIAN I'R GANOLFAN. Cynhelir noson yn Llain Meddygon ar nos Wener, 21 Mehefin gyda BBQ, adloniant, raffl a bar. Bydd tocynnau ar gael trwy aelodau'r Pwyllgor a siopau lleol. Hefyd bydd stondinau ar y Cae Chwarae adeg diwrnod Miri Mawr ar ddydd Sadwrn, 27 Gorffennaf.

TÎM DARTIAU. Llongyfarchiadau i dîm dartiau hogia Tafarn Bryn Gwna. Dros y tair blynedd ers i Willie a Brenda ail-agor y ffynnon, mae'r tîm wedi codi o'r drydedd i'r adran gyntaf. Eleni mae'r tîm wedi ennill y Cynghrair. Hefyd maent wedi curo tair cwpan – Cwpan Bob Jones, Cwpan Burtonwood a Chwpan Dave Wilkes. Da iawn, hogia.

Fframia Gwasanaeth Fframio Lluniau

Arbenigwyr ar fframio gwaith edau a nodwydd

Nifer helaeth o luniau ar werth • Dewis eang yn cynnwys:
IVOR STUBLEY • KEITH ANDREW
KEITH BOWEN • ROB PIERCY

PARC PADARN, LLANBERIS (870922)
(Ar gau dydd Sul a dydd Llun yn ystod y gaeaf)

CLWB GARDDIO
Tŷ Gwydr, Cwm-y-glo

Nos Iau, 13 Mehefin, 7.00 o'r gloch
Siaradwr gwâdd
KATH TURNER (Garddio Organig)
Croeso i bawb! – o bell ac agos
Manylion pellach: (01286) 872014
gofynnwch am Keith

menter Fachwen

LLEUFER O. ac N. PRITCHARD
CANOLFAN CARPEDI
WAUNFAWR
Ffôn/Ffacs: (01286) 650291

Ar Agor
9-7 pm
9-5 pm Sadwrn
Ar Gau
Sul a Mercher

Dewis eang o Welyau a *3P/Suites.* Llenni *Venetian* a Llenni *Roler.* 5,000 llathen sgwâr o garpedi mewn stoc – allwch chi fforddio prynu o batrymau?

GLANHAU CARPEDI GYDA STIMVAK

DEINIOLEN

W. O. Williams, 6 Rhydfadog. Ffôn: (01286) 871259

GWASANAETH DEON GWLAD. Nos Fercher, 8 Mai, yn Eglwys Crist, Llandinorwig cafwyd gwasanaeth comisiynu y Canon Idris Thomas, Trefor fel Deon Gwlad Arfon. Dyma'r eildro i Canon Thomas ddod yn Ddeon Gwlad Arfon, bu'n Ddeon am saith mlynedd o 1993 hyd y flwyddyn 2000. Daeth tyrfa dda o gynrychiolwyr y Ddeoniaeth i'r gwasanaeth, yn cynnwys Archddiacon Bangor, Offeiriaid y Ddeoniaeth, Darllenwyr Lleyg, aelodau y Gynhadledd Ddeoniaethol ac eraill. Gwnaethpwyd y comisiynu gan Esgob Bangor, Y Gwir Barchedig Saunders Davies.

Cymerwyd rhannau yn y gwasanaeth gan Mr Richard Jones, Clynnog; Miss C. Poyner, Clynnog; y Parchedigion Jeffrey Hughes a Roger Donaldson, Caernarfon ac Emlyn Williams, Llandinorwig.

Yr organyddes oedd Mrs Gwen Griffith a'r gwas allor oedd Sophia Williams. Roedd y casgliad er budd cronfa Ysgol Sul Llandinorwig. Ar ôl y gwasanaeth cafwyd lluniaeth ardderchog a oedd wedi ei baratoi gan ferched caredig Eglwys Crist a diolchir iddynt hwy ac i swyddogion ac aelodau'r Eglwys am eu holl drefniadau trylwyr. Cafwyd noson Ddeoniaethol hapus iawn.

DYMUNA Gracie a Richard (Cwm gors, Dyfed), ddiolch i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad â hwy ym marwolaeth ei mam, Mrs Sass Williams, gynt o 25 Rhydfadog.

Diolch am y cardiau, y galwadau ffôn a'r rhoddion a dderbyniwyd at Gartref Gofal Foelas, Llanrug. Diolch i bawb a fu'n ymweld â'i mam tra bu yn Foelas. Swm y rhoddion a gyflwynwyd i'r Foelas oedd £380.

DIOLCHIADAU.

Dymuna Michael D. Thomas, 5 Rhydfadog, Deiniolen ddiolch yn fawr iawn i'w rieni, sef Buddug a Barry; i Kelly am roi ei hamser di-ben-draw; i Paula a Linda, ei ddwy chwaer; i'w deulu; ffrindiau a'i gyd-weithwyr a phawb arall ddaeth i edrych amdano tra bu yn glaf yn Ysbyty Glan Clwyd.

Hefyd am yr arian hael, y rhoddion a'r cardiau a dderbyniodd tra roedd yn yr ysbyty ac ar ôl iddo ddod adref, gan ei deulu, ffrindiau, ei gyd-weithwyr yn Ffatri DMM Llanberis, cymdogion yr ardal a phawb gymerodd ran mewn gêm (pool) yn y Wellington ac am y galwadau ffôn.

DIOLCH. Dymuna Mrs Gwladys Jones, 18 Hafod Oleu ddiolch i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am yr anrhegion, blodau, cardiau a'r arian a gafodd ar achlysur ei phen-blwydd yn 80 oed ar 21 Ebrill.

MARWOLAETH. Ar 25 Ebrill cynhaliwyd angladd Mrs Jane Jones, 24 Rhydfadog a oedd yn 83 mlwydd oed. Treuliodd gyfnod o waeledd ar ddechrau'r flwyddyn mewn amryw o wardiau Ysbyty Gwynedd, Bangor ac yna gyfnod byr yn yr Uned Macmillan, Ysbyty Bryn Seiont, Caernarfon, lle bu farw ar 19 Ebrill yng nghwmni ei theulu.

Yn enedigol o Sir Fôn, symudodd pan yn bedair oed i Ddeiniolen ac yno y bu ar hyd ei hoes wedyn. Roedd yn wraig i'r diweddar John H. Jones, Stryd Newydd, lle bu'r ddau yn byw hyd ei farwolaeth ef yn 1979, a lle parhaodd hi i fyw tan 1991 cyn iddi symud i Rydfadog.

Cynhaliwyd y Gwasanaeth i Ddathlu ei bywyd yng Nghapel Ebeneser dan ofal y gweinidog, y Parchedig John Pritchard, gyda chymorth y Parchedigion John Gwilym Jones, Bangor a Trefor Lewis, Porthaethwy, cyn i'r gynulleidfa niferus gerdded i Fynwent Macpela. Rhoddwyd teyrnged arbennig iawn iddi gan y Parchedig John Pritchard a nododdd ei chymeriad hynaws, ei phoblogrwydd a'i diwydrwydd ar hyd y blynyddoedd yn y capel a'r ardal.

Yn methu bod yn bresennol roedd ei chwaer, Mary Roberts o Fangor, a oedd wedi ei chipio i Ysbyty Gwynedd fore'r angladd.

Y cludwyr oedd Barry, Bedwyr, Iwan, Gareth, Tim a Joe, aelodau o'r teulu agosaf a chyfeillion hoff. Cymerwyd rhan wrth yr organ gan Mr John Jones, Deiniolen.

Roedd llu o alarwyr yn bresennol yn cynnwys y teulu, cymdogion a chyfeillion o bell ac agos. Roedd yn wraig gyfeillgar a phoblogaidd fel y dangoswyd yn y nifer yn y capel a'r fynwent.

Rhoddwyd blodau gan y teulu yn unig a hefyd derbyniwyd rhoddion tuag at Ymchwil Cancr. Paratpowyd te yn y festri gan wragedd o fysg aelodau'r capel fel arwydd o'u hedmygedd a'u diolchgarwch iddi am ei chyfraniad tros y blynyddoedd. Gwnaed trefniadau'r angladd yn drylwyr iawn gan E.W. Pritchard, Llanberis.

Dymuna Alwena a'r teulu ddiolch i chwi i gyd am eich caredigrwydd a'ch cyfeillgarwch tuag at mam tra bu'n wael ac i ninnau, wedi ei marwolaeth.

EGLWYS CRIST LLANDINORWIG. Yng nghyfarfod o Gymdeithas Eglwys Crist y mis diwethaf, y wraig wadd oedd Mrs Diana Davies, Llanberis. Cafwyd noson hynod o ddiddorol a hwyliog ganddi. Soniodd Diana am ei gyrfa, wedi ymadael ag Ysgol Brynrefail a dechrau yn y Co-op yn Neiniolen yn niwedd y pumdegau ac ymlaen i'r chwedegau. Roedd yn y Co-op tua saith gant o aelodau, ac roedd yn gyfrifol am anghenion ardal eang. Disgrifiodd y cymeriad o Dde Cymru, sef Mr Morgan y Rheolwr, ei hanes yn dysgu cadw cyfrifon, cyn bod na chalciwletor, heb sôn am gyfrifiadur.

Mawr yw ein dyled i Diana am roi ar bapur gofnod o gymdeithas bentrefol sydd erbyn hyn wedi diflannu.

Bydd Cyfarfod Blynyddol y Gymdeithas yn cael ei gynnal nos Fercher, 5 Mehefin am 7 o'r gloch.

CYDYMDEIMLO. Ar yr un diwrnod yn Ebrill, bu farw dwy a fu'n gymdogion yn Rhydfadog.

Yn gynnar ar 19 Ebrill, yng Nghartref Foelas, Llanrug, lle'r ymgartrefodd ers nifer o flynyddoedd, bu farw Mrs Sass Williams, gynt o 25 Rhydfadog. Yn 97 oed, hi oedd un o drigolion hynaf ardal Deiniolen, a chofir amdani fel cymeriad hwyliog a siriol.

Cyn i'r dydd ddod i ben, bu farw Mrs Jane Jones, 24 Rhydfadog yn Ysbyty Bryn Seiont. Bu hi'n aelod ffyddlon a gweithgar o sawl mudiad a chymdeithas yn Neiniolen a Dinorwig a theimlir y chwithdod o'i cholli o'r gwahanol gyfarfodydd.

Bylchwyd Rhydfadog unwaith eto pan ddaeth y newydd, ar fore 7 Mai, am farw annisgwyl Mrs Betty Williams, 25 Rhydfadog yn Ysbyty Gwynedd. Treuliodd hithau ei hoes yn Neiniolen, ac roedd wedi cartrefu yn dda yn Rhydfadog ers tua dwy flynedd.

Cydymdeimlir yn ddwys iawn â theuluoedd y tair yn eu colled a'u hiraeth.

CRONFA YMDDIRIEDOLAETH DEINIOLEN. Gwahoddir ceisiadau gan fudiadau a chymdeithasau lleol am roddion ariannol o'r gronfa uchod. Dylai pob cais gynnwys mantolen ariannol gyfredol wedi ei harchwilio, ac yn dangos enw llawn, cyfeiriad a rhif ffôn yr archwilydd. Dylid anfon ceisiadau at Miss Jean Parc Jones, Ysgrifennydd Cronfa Ymddiriedolaeth Deiniolen, Cesail y Mynydd, Deiniolen, Gwynedd LL55 3NF. Dyddiad cau: 30 Mehefin 2002.

CYMANFA YSGOLION SUL DOSBARTH PADARN. Cynhaliwyd y Gymanfa eleni yng Nghapel Rehoboth, Nant Peris ar Sul, 5 Mai. Trefnwyd bws o Ddinorwig i'r cyfarfodydd am 2 a 6 o'r gloch, a chafwyd cwmni nifer dda o aelodau a phlant yr ofalaeth ar y daith. Yn y pnawn gwobrwywyd y plant am ddysgu'r Maes Llafur.

Yr arweinydd oedd Mr Arwel Jones, Penisarwaun a'r Organydd oedd Mr Gareth Jones, Llanberis gyda Mrs Falmai Pritchard, Llanberis yn llywyddu yn y pnawn a Mr Geraint Elis, Bethel yn yr hwyr. Diolch i'r pedwar am sicrhau Cymanfa hapus a chartrefol.

CYFARFOD PREGETHU. Ar Sul, 12 Mai, cynhaliwyd Cyfarfod Pregethu Ebeneser. Cafwyd dwy oedfa fendithiol dan arweiniad y Parchedig Huw John Hughes, Porthaethwy.

WYTHNOS CYMORTH CRISTNOGOL. Ar nos Lun, 13 Mai, dan nawdd Cyngor Eglwysi Deiniolen a'r Cylch, cynhaliwyd gwasanaeth arbennig yng Nghapel Libanus i gychwyn Wythnos Cymorth Cristnogol. Arweiniwyd gan y Parchedig John Pritchard a chymerwyd rhan gan nifer o aelodau eglwysi'r ardal.

DYMUNA Alun Rowlands o 39 Pennant, Llangefni, ddatgan ei ddiolch diffuant i deulu, ffrindiau a chydnabod ym mro'r Eco am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd iddo yn ei brofedigaeth o golli ei briod, Kathleen (gynt o 12 Deiniol Road). Gwerthfawrogwyd presenoldeb cymaint o'i chydnabod yng ngwasanaeth ei hangladd. Cyflwynwyd y cyfanswm anrhydeddus o bron i £2,000 i Ward Alaw, Ysbyty Gwynedd er cof annwyl iawn amdani. Diolch i chi, un ac oll, am eich caredigrwydd.

DIOLCH. Dymuna Mrs Mary Roberts, 15 Minafon, Bangor, ddiolch yn gynnes iawn i'r holl bobl o fro'r Eco fu mor garedig, yn ymweld â hi ac yn anfon cyfarchion, tra bu'n wael yn Ysbyty Gwynedd ac am y cydymdeimlad a'r dymuniadau da pan gollodd ei chwaer, Jane.

CYMDEITHAS Y BEIBLAU. Cynhelir gwasanaeth Cymdeithas y Beiblau nos *Sul, 30 Mehefin am 6.00* o'r gloch yng Nghapel Cefnywaun, Deiniolen. Gwneir casgliad at yu Gymdeithas yn y cyfarfod. Trefnir bws i gychwyn o Ddinorwig am *5.30* ac yna i Benisarwaun.

CEUNANT

GENEDIGAETH. Llongyfarchion y Einir ac Euros Davies ar enedigaeth eu mab, Tomos Wyn Davies, ddiwedd mis Ebrill yn Ysbyty Gwynedd. Brawd bach i Deio Rhys a Iolo Wyn a phuimed ŵyr i Evan a Helen Parry, Morwel, Ceunant.

Cefnogwch ein Hysbysebwyr

GWYN JONES

FFENESTRI ERYRI

GARTH ISAF, LLANRUG

(01286) 650764

neu

W. G. Roberts (Wil Korea)

676741



FFENESTRI
DRYSAU
DRYSAU PATIO
PORCHES
BYRDDAU FFASIA
CLADIO
CONSERFATERIS

BLYNYDDOEDD O BROFIAD YN Y MAES

Atgofion Waunfawr

(Parhad o dudalen 5)

yn byw ar dyddynnod ac, yn aml, roedd gwaith ganddynt cyn gadael yn y bore ac wedyn ar ôl cyrraedd adref yn yr hwyr. Aml iawn y clywais blant y chwarelwyr yn dweud nad oeddynt hwy yn cael te ond 'swper chwarel'. Os byddai rhywun yn wael ac yn methu gweithio, cynhelid cyngerdd i gynorthwyo'r teulu ac, ar farwolaeth, âi'r cymdogion i'r tŷ a rhoi darn o arian ar y bwrdd ac yn tynnu'r llen i lawr ar y diwrnod.

Capel Bethel

Capel y Methodistiaid Calfinaidd neu'r Cpael Mawr. Mac'n amhosibl sôn am y Waun yn y cyfnod yma heb sôn am y capel mawr. Rhyw fath o sylfaen i'r hen a'r ifanc. Yma y cynhelid cyngerdd a sasiwn, seiat ac eisteddfod – a ddaeth yn gadeiriol a parhau am bedair noson. Cynhelid y cadeirio ar nos Sadwrn ac fe âi'r gweithgareddau ymlaen hyd oriau mân bore Sul. Yn yr ysgoldy byddai dramâu, te parti ac ysgol Sul y plant a'r Gymdeithas Lenyddol. Y 'bandohope' neu'r Gobeithlu lle byddai'r bechgyn a'r genod yn rhedeg ar ôl ei gilydd mewn tywyllwch dudew cyn agorid y drws.

Âi bron pawb i'r moddion ac, os dywedid am rhywun nad oedd yn mynd ar gyfyl na chapel nac eglwys, yn sicr nid oedd fawr o obaith idynt. Nid âi rhai o'r ffermwyr ond ar fore Diolchgarwch ond, gan eu bod yn cyfrannu yn hael i'r casgliad, fyddai dim beirniadaeth arnynt hwy. Rhaid cofio, ac mae rhai yn dal i gofio – yn enwedig yr eglwyswyr – fod merch a oedd yn feichiog a heb briodi yn cael ei 'throi allan o'r seiat'. Gwaith un neu ddau o'r blaenoriaid oedd torri'r newydd i'r eneth anffodus.

Fel y dywedais ar y dechrau, anodd coelio heddiw fel yr oedd pethau ychydig dros hanner can mlynedd yn ôl. Os oedd rhywun yn cael ei ddewis yn flaenor, pur anaml y byddai yn gwrthod. Os byddai gweinidog yn symud, roedd wedi 'cael galwad'.

Bu D. J. Lewis yn weinidog yn y Waun am flynyddoedd lawer. Brodor o Landudno yn wreiddiol ac wedi graddio yn Rhydychen mewn Lladin a Groeg ac, rwy'n credu mewn, Mathemateg. Yn sicr yn fwy galluog na'r cyffredin ac yn aml yn pregethu 'uwchben' pobl. Aml y clywais hen wreigan yn dweud wrth y llall, 'Doedd o yn ddyfn,' ac yn amlwg heb ddeall gair. Dywed R. Gwynn Davies yn ei lyfr *Waen a'i Phobl* i ryw athro coleg ddweud amdano 'yr ynfytun sy'n gwastraffu mennydd rhagorol fel gweinidog mewn rhyw bentref diarffordd'.

Erbyn diwedd ei oes, fodd bynnag, aeth braidd yn ffwndrus ac anghofus. Dywedodd rhywun iddo geisio gorffen pregeth gyda'r anthem genedlaethol. Fe'i etholwyd yn gynghorydd ac yntau yn hen ŵr, yn codi ei law dros rhyw fesur neu'i gilydd ac yn gofyn i'r agosaf ato dros beth tybed yr oeddynt wedi pleidleisio. Tua'r adeg yma daeth yr 'amen' i'w chanu ar ddiwedd emyn a oedd yn arferiad eglwysig.

Arferai llawer o'r bechgyn gyfarfod ar bont afon Gwyrfai ac, un nos Sul, roedd amryw ohonom wedi ymgynnull i drafod hyn a'r llall, pryd y tynnwyd sylw y rhai hynaf fod dwy o enethod (Saesnig) ac eithriadol o brydferth, yn eistedd ar lan yr afon. Gan mai fi oedd y lleiaf a'r ieuengaf, fe'm hanfonwyd i ofyn iddynt tybed a fuasent yn hoffi cyfarfod dau o'r bechgyn, a oedd wedi ymwahanu ychydig oddi wrth y lleill. A minnau ar find mynd daeth tad Emlyn, un o'r bechgyn, i'r golwg a gofyn iddo tybed a oedd yn gwybod ei bod yn amser capel, a bu rhaid i'r bachgen fynd yn ufudd ddigon.

Roedd amryw o ynysoedd yn afon Gwyrfai, islaw i'r Cyrnant, ac yno y byddem yn chwarae yn yr haf ac ar ôl yr ysgol. Y gamp ydoedd neidio o ynys i ynys heb syrthio i'r afon, ond aml iawn yr âi rhai ohonom gartref yn wlyb at y croen i wynebu cerydd rhieni. Dyna a ddigwyddodd i Wmffra Wyn. Penderfynodd wneud tân i sychu ei ddillad ac, fel y mae rhywun yn cofio rhai pethau, sylwyd nad oedd ganddo ond ei ddillad nos fel ei ddillad isaf.

Arferai milwyr sawl gwlad ymarfer ar ochr Cefn Du a'r Wyddfa a byddai rhai ohonom yn hel bwledi a phethau eraill ar eu hôl. Cafodd bachgen o'r enw Islwyn afael ar rhyw ffrwydriad ac fe'i cariodd drwy'r pentref gan ddangos, i unrhyw un oedd â diddordeb, y gapsen nad oedd yn rhaid ei tharo i'w 'gyrru i fyny'. Fe'i dilynwyd gan dri neu bedwar o lafnau eraill hyd ochr afon Gwyrfai. Gosododd Islwyn y ffrwydriad wrth fôn coeden a dringodd i fyny yn cario carreg go fawr tra gorweddai'r lleill wrth ochr ffos – fel 'commandos'. Gollyngodd y garreg, ffrwydrodd y bom ac aeth yn syth i fyny a thrwy ochr Islwyn. Yn eu dychryn rowliodd deu neu dri o'r 'commandos' i'r ffos. Nid oeddym yn byw nepell i ffwrdd a chlywodd fy nhad y ffrwydriad a gwnaeth yr hyn a allodd i'r bachgen cyn ei gymryd i'r ysbyty. Fodd bynnag, cafodd adferiad llwyr.

Roedd popeth yn ei dymor a thymor i bopeth. Amser i chwarae marblis ac amser i chwarae concyrs –ar ôl eu caledu yn y popty dros nos; amser i redeg cylch ac amser i ddringo'r Wyddfa ar naw nos olau. Ac amser i fynd ar drip ysgol Sul unwaith y flwyddyn – i Rhyl neu Llandudno fel arfer. Cyn cychwyn câi'r plant ddau swllt (10c) sef pres te. Roedd mynd mor bell yr adeg honno fel mynd i wlad dramor.

(Parhad yn rhifyn Gorffennaf)

BWS BACH AR LOG

Bws 22 sedd ar gael ar gyfer pob math o logi preifat – nosweithiau allan, partïon, tripiau ac ati.
Gwasanaeth personol a thelerau rhesymol gan

(01248) 361044

D. P. OWENS RHIWLAS

Harddwch eich cartref gyda

FFENESTRI CELTIC *WINDOWS*

FFENESTRI • DRYSAU • CONSERFATERIS
CYFLENWYR AWDURDODAU LLEOL

Busnes teuluol gyda blynyddoedd o brofiad
Ffoniwch – 'dio'n costio dim i gael pris

HEN YSGOL GLANMOELYN
LLANRUG LL55 2RG

NHBC

(01286) 678618 (dydd)
(01248) 670081 (nos)



GWYNANT PIERCE

Cynyrchion Coed:
Gatiau, Ffensus ac ati
am brisiau cystadleuol

Uned 1, Fferm Bryn Afon
LLANRUG
Ffôn: (01286) 650040
(0589) 899901

DAWES TREK

ENERGY CYCLES
60 Stryd Fawr
Llanberis
Beics a Barcudau

Partiau a Thrwsio Beics
Beics Ffordd a Mynydd,
BMX, Triathlon
Barcudau Hwyl, Chwaraeon
a Delta *Powerkites.*
Dewis Da

WWW.ENERGYCYCLES.COM 07980742584

Oriau Agor
Gaeaf: 5 diwrnod yr wythnos:
Iau, Gwener, Sadwrn, Sul, Llun
Haf: 7 diwrnod yr wythnos ar agor tan 6 pm

07980 742584 • 01286 871892 sales@energycycles.com

Airborne OZONE

I drin a thrwsio
pob math o
beiriannau gwnïo

MENAI SEWING MACHINE CENTRE
21 Stryd Fawr
PORTHAETHWY
Ffôn: (01248) 714043
neu Caernarfon
Ffôn: (01286) 674520

Edau, Nodwyddau
ac ati mewn stoc

Ar Ben Arall y Lein

Newydd ardderchog yw fod yr Is-Bwyllgor o Gynghorwyr a Swyddogion Cyngor Gwynedd wedi penderfynnu fod prydles gwaelod Afon Seiont, yng nghyffiniau Llyn Du, i'w chynnig i'r gymdeithas. Fe aeth yr awgrymiad yma o flaen Pwyllgor Ardal Arfon o'r cyngor yn ddiweddar ac roedd y mwyafrif o'r cynghorwyr o blaid a, thrwy hyn, roedd hysbysedb yn y papurau yn ystod wythnos 12–18 i amlinellu hyn. Mae'n siwr bydd rhai eto yn gwrthwynebu, ond fel yna mae pethau. Diolch i pawb a fu'n gefnogol yn yr achos yma, wrth gwrs, nid yn unig y gymdeithas fydd yn elwa ond hefyd yr ardal yn gyffredinol.

Unwaith bydd trafodaethau ar y gweill rydym yn gobeithio cael prydles ar Lyn y Parc, Caernarfon, neu Llyn Bod Hyfryd, fel cefais fy nghywiro y diwrnod o'r blaen, Mac diddordeb gan sawl Asiantaeth i gydweithio gyda'r clwb i dacluso, gwneud llwybrau a stondinau pysgota yma, er mwyn anelu at gynnig 'sgota i'r ifanc. Cawn weld sut y symudith pethau yn eu blaen yn yr wythnosau nesa 'ma.

Ar ôl erthygl y mis diwethaf, rhoddodd Asiantaeth yr Amgylchedd rwydi i lawr yng ngheg Llyn Nantlle i geisio cael rhyw syniad o beth yw maint y broblem o'r heigiad cynrhon sydd yn y brithyll. Y rheswm am y broblem wrth gwrs yw'r gwylanod môr sy'n heidio i'r llyn a thomen Cilgwyn. Dyma'r canlyniad. Mae 83% o'r brithyll a ddaliwyd yn cario'r cynrhon. Rwan ta, gyda thystiolaeth gadarn gennym, byddaf yn pwyso i weld rhywbeth yn cael ei wneud. Dylid bod rhywbeth wedi ei wneud ers blynyddoedd i gael gwared â'r adar yma sy'n boen, nid yn unig i ddefnyddwyr y llyn, ond hefyd i'r trigolion lleol yn gyffredinol.

Un peth arall a ddaeth allan o'r arbrawf yma yw fod rhywrai wedi bod yn gollwng pysgod dw^r croyw i'r llyn. Mae'n amlwg fod rhain, yn ôl edrych ar gen y pysgod yma, wedi bod yn bresennol am tua 5–7 mlynedd. Yr un adeg ac y mae'r gymdeithas wedi bod yn berchenog ar ran o'r dyfroedd. Toes eisiau gras hefo'r ychydig 'dwch.

Dros y dyffrynoedd yn ôl at y Seiont – mae'r gwaith yn mynd ymlaen yn ardderchog ar y ffensio yn Nant Peris ac, yn ôl y pysgod bach sydd i'w gweld yn y darnau o Afon Afr ac Afon Peris, sydd yn barod wedi eu ffensio, mae pethau'n argoeli'n dda at y dyfodol.

Nos Iau 9 Mai cafwyd noson arbennig yng Ngwesty Dolbadarn, Llanberis, gyda Mr Peter Gray, Rheolwr Deorfa Kielder ar Afon Tyne, yn rhoi sgwrs gyda sleidiau arbennig o ddiddorol. Gobeithio y bydd yn bosib gweithredu yma beth sy'n amlwg yn gweithio dros y ffin.

Roeddwn yn eistedd gyda Peter yn y Dolbadarn, ar ôl bod gydag o yn Nant Peris, Pen Llyn a Crawia, a dyma be ddywedodd o:

"Rwyf wedi bod ar hyd y D.G ac Iwerddon yn egluro'r gwaith ar y Tyne a, wyddost ti be? dyma'r ardal fwyaf gogoneddus 'rwyf wedi cael y fraint o ymweld â hi. Daliwch ati i wella'r 'sgota a bydd y gwestai yma yn gwneud busnes gyda 'sgotwrs o fis Mawrth hyd at fis Tachwedd. 'Rydym ni wedi gwneud ar y Tyne.'

Felly, fusnesau Llanberis, gwnewch tipyn o sŵn i gefnogi'r clwb yn eu hymdrechion. Mi fydd o elw mawr i chwi oll yn y pen draw.

Gair am y torgoch yn y ddeorfa – ardderchog, mae'n tyfu'n arbennig o dda.

Rhaid rhoi'r gorau iddi rwan am ei bod yn bwrw a. Wyddoch chi be? Rwyf innau'n ffodus dros ben o fedru clywed y Seiont o'r tŷ pan mae mewn llif, a dwi'n i chlywed hi rwan, felly ffwrdd â fi.

Hwyl a fflag unwaith eto.

H. Price Hughes.

Mae Côr Eryri yn chwilio am aelodau ifanc brwdfrydig i ymuno â chôr merched lleol. Mae'r Côr wedi ei leoli yn Llanrug ac yn cyfarfod bob nos Iau. Mae gennym ddiddordeb mewn clywed gan Altos ac 2il Sopranos.

Rydym hefyd yn chwilio am ddirprwy gyfeilydd(es). Am ragor o fanylion, cysylltwch â **Sian Wheway** ar **(01286) 872001.**

Edrychwn ymlaen i glywed gennych.

Am fwy o fanylion, cysylltwch â mi ar **(01246) 712707** neu â Sian ar y rhif uchod.



CROESAIR MEHEFIN



Mae cysylltiad rhwng yr atebion i'r wyth cliw rhifyddol.

Ar Draws:

1 Ty'd lawr yn ofalus! (7)
4 Ynghyd â 1 i lawr – sŵn amser? (3)
6 Teisen (5)
10 Dirwy am falu'r bocs? (4)
11 Dod â rhywbeth i fod o'r newydd mewn byd creulon (4)
12 60 (7)
14 Lle bydd pobl yn mynd ar y trên? (6)
15 I fyny yn y de! (3)
17 Tywodfryn (6)
19 Evan yn troi'n Gymro! (5)
20 Gyda'i gilydd yn un o longau'r llynges (4)
21 Darnau o lenyddiaeth i'w chwarae (6)
25 Y cyffro o fod yng nghwmni hogia Sir Fôn?(3)
27 Y weithred o gael ei erydu gan yr elfennau (9)
29 Dyma wna 32 ar draws pan mae hefo'i chwaer (3)
30 Gwisg swyddogol (6)
32 Miss Mali? (4)
33 Beichio crio neu arwydd fod rhywun yn tyfu? (5)
35 Gwneud marc – ar siart? (6)
37 Peth ofnadwy yn rhan o'r rhuthr (3)
39 Troi'n darth neu ager (6)
41 Hen fwyeill rhyfel (7)
42 Llwch blodeuyn (4)
44 Lle i wneud tân (4)
46 Diogelwch (5)
47 50 (3)
48 Lle gwyrdd – na, nid y wlad (7)

I lawr:

1 Gweler 4 ar draws (3)
2 Clwyfau peryglus yn cynnwys gôr (7)
3 Bwrdd y llong (3)
5 Cynnal (4)
6 Yr hen rai gwahanglwyfus (7)
7 Gorchuddion allanol corff neu ffrwyth (5)
8 Hon sy'n tynhau ar y bolten (5)
9 30 (4)
13 Gwrthrych sy'n tynnu pethau hacarn tuag ato (6)
14 15 (7)
16 Sawr perlysiau a losgir mewn defodau crefyddol (9)
18 40 (5)
22 Mae'n ffodus mai ym meddiant mam a dad mae'r gair olaf! (3)
23 Plisg, a'u synnu yn ofnadwy! (7)
24 Rhagori wrth fynd heibio? (5)
26 .... hynny yw .... (3)
28 20 (6)
31 Mae'n dynodi seibiant wrth ddarllen (7)
34 Peth salach! (7)
35 25 (5)
36 Crochlef (5)
38 Dirweddol – go iawn! (4)
40 Hel llus (4)
43 Olwyn i droi'r llong (3)
45 10 (3)

Derbyniais atebion i groesair mis Mai gan: Rosemary Williams, Mynydd Llandegai; Nansi Davies, Rhuthun; Ellen Pritchard, Garndolbenmaen; N. Hughes, Cwm y Glo; Dilys A. Pritchard-Jones, Abererch; E. E. Jones, Rhoshirwaun; E. P. Jones, Penrhyndeudraeth; Eluned Jones, Trefor; Pat Owen, Caerfyrddin; Alvona Jones, Prestatyn; Catherine A. Jones a Jean Hughes-Jones, Rhiw; Ceridwen Williams a Tegid Roberts, Llanrug; Mair W. Jones a G. Gill, Bangor; Olwen Owen, Nan Owen a Moreen Lennon, Llanberis; Olwen Jones, Margaret W. Jones a Mair Evans, Caernarfon; Jennie Williams, M.P. Jones a Rhiannon Pritchard-Jones,

RHODDION

£10: Mrs Katie Griffiths, 22 Hafan Elan, Llanrug; Gareth a Llinos Foulkes, Bryn Derw, Brynrefail; Teulu Treforfan, Waunfawr; Mr Bob Vale, Llanrhaeadr, Dinbych; Seiriol a Beti Owen, Bethel; Teulu'r diweddar Tom Eilian Williams, Llainwen Isaf, Llanberis.

£6: Helen Munro, Cynan, Ffordd y Orsaf, Llanrug; Mrs Ethel Jones, 6 Bryn Tirion, Penisarwaun.

£5: Michael D. Thomas, 5 Rhydfadog, Deiniolen; Mrs Gladys Jones, 18 Hafod Olau, Deiniolen; Mrs Mary Roberts, Bangor; Gwyneth Roberts, Becws Eryri Gynt, Llanberis; Beryl Ellis, 2 Rhes Efrog, Llanberis; Mr a Mrs Andrew Griffith, Tan y Bwlch, Dinorwig; Nia Gwyn Griffiths; Mrs Nan Evans, 26 Bryntirion, Penisarwaun.

£2: Violet a'r teulu, 44 Rhydfadog, Deiniolen.

£1: Di-enw.

Clynnog Fawr ac un di-enw!

Ymdrech Tegid Roberts, Arwel, Llanrug Ll55 3BA ddaeth allan o'r het. Llongyfarchiadau a £5 i chi.

Ar ôl darfod croesair Mehefin, gyrrwch eich atcb at Dafydd Evans, Sycharth, Penisarwaun, **LL55 3HE** erbyn Mehefin 17.



Cynhelir Cyfarfod Blynyddol

ECO'R WYDDFA

yn y

Sefydliad Coffa Llanrug

Nos Fawrth,

Mehefin 11ed

am 7.30 o'r gloch.

Taer erfynnir am eich cefnogaeth

Dylan Griffith

TREFNWR ANGLADDAU ANNIBYNNOL a LLEOL

TROS-Y-WAEN, PENISARWAUN

Yn gwasanaethu'r holl ardal yr ECO ac ymhellach i ffwrdd

Gwasanaeth teimladwy, urddasol a phersonol.
24 awr y dydd

Ffoniwch: **Dylan (Llys) ar 871833**

Symudol: **07778 127394**

HEFYD

CERBYDAU CLASUROL YR WYDDFA

Cyrhaeddwch mewn steil – mewn cerbyd *Rolls Royce* ar gyfer priodasau, pen-blwyddi ac achlysuron arbennig eraill

Alwyn a Sarah Jones

BLODAU

RACCA

PENISARWAUN

Blodau ar gyfer pob achlysur

Dewis da o Lysiau Fferm

Wyau *Free Range*

Ar agor saith diwrnod

870605

Danfon 7 diwrnod yr wythnos drwy'r fro

CHWARAEON

Tri Blaenwr Grymus

Yn ddiweddar bu tri o fechgyn bro'r Eco yn chwarae rygbi yn ne Cymru yn erbyn tîm ysgolion cynradd ardal Pontypridd. Cynrychioli tîm ysgolion cynradd gorllewin gogledd Cymru oedd Bedwyr Owen Davies, John Gareth Jones, y ddau o Llanberis, a Richie Thomas o'r Waenfawr. Y tri yn flaenwyr grymus – dau brop ac un ail rheng.

Mae Bedwyr (Bedz) a Richie yn aelodau cyson o dimau dan un ar ddeg a deuddeg clwb rygbi Caernarfon, a John Gareth (Gags) yn aelod cyson o dîm dan ddeg oed clwb rygbi Bangor.

Colli fu hanes tîm Eryri yn y de o 26 i 0 yn erbyn un o dimau gorau Cymru yn adran ysgolion cynradd. Trechwyd ardal Casnewydd 50 i 0 yn y rownd flaenorol ac fe roeddent yn disgwyl gêm hawdd yn erbyn y 'GOGS' ond nid felly y bu. Gêm galed a chorfforol iawn a gafwyd, gyda amryw un o dîm Pontypridd yn gadael y maes. Yn ôl Mr Marc James, prifathro ysgol gynradd Beddgelert a phrif hyfforddwr tîm Eryri, nid oedd y sgôr derfynol yn adlewyrchu perfformiad y bechgyn – y perfformiad gorau mae ef wedi ei weld gan dîm Eryri ers ei amser yno fel hyfforddwr. Fe ail ganmolwyd tîm Eryri gan Mr John Rees, ysgrifennydd Undeb Rygbi Ysgolion Cymru, ac fe ychwanegodd gan ddweud fod perfformiad Ysgolion Eryri yn glod mawr i Mr James a'i gyd-hyfforddwyr. Athrawon ydynt i gyd, ac yn rhoi oriau i hyfforddi a threfnu gemau yn ogystal a thrafeilio gyda'r tîm i'r gemau.

Pob lwc i dîm rygbi Eryri ac i Bedz, Richie, a Gags, a gobeithio y cawn eich gweld ar faes rygbi Stadiwm y Mileniwm Caerdydd yn cynrychioli Cymru rhyw ddydd.

O'r chwith i'r dde: Bedwyr Owen Davies, Ritchie Thomas a John Gareth Jones.

TLWS ECO'R WYDDFA (CYNRADD)
NOS IAU, 20 MEHEFIN 2002
YSGOL GYNRADD LLANRUG
Y chwarae i ddechrau'n brydlon am 6.00 p.m.

TLWS YR ECO – PÊL-DROED

ENW'R TÎM _____

PERSON Â GOFAL _____

OEDRAN: BL. 3/4_____ **BL. 5/6**_____ **(Ticiwch y man priodol)**

ARIAN GYDA'R FFURFLEN: Swm £ _____

TLWS YR ECO – PÊL-DROED

ENW'R TÎM _____

PERSON Â GOFAL _____

OEDRAN: BL. 3/4_____ **BL. 5/6**_____ **(Ticiwch y man priodol)**

ARIAN GYDA'R FFURFLEN: Swm £ _____

*** Y ffurflen i'w dychwelyd i RICHARD LLOYD JONES, 5 Y DDÔL, BETHEL dim hwyrach na NOS IAU, 13 MEHEFIN YNGHYD Â'R TÂL PERTHNASOL (£10.00 y tîm)**

Llwyddiant Ysgol Bethel

(gweler adroddiad arbennig ar y dudalen ganol)

Tîm dan 15 oed Llanrug yn ennill y cwpan ar yr Ofal gyda'u rheolwr Bedwyr Evans.

Tîm Pwl Penbont, Llanrug yn arddangos eu hamrywiol dlysau.

Pêl-droedwyr y dyfodol.

Tîm Pêl-droed dan 7 Waunfawr.

Tîm Pêl-droed dan 7 Bethel.